# Cofnod y Trafodion
# The Record of Proceedings
# 15/09/2015

Cynnwys Contents


Datganiad gan y Llywydd
Statement by the Presiding Officer

1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog
1. Questions to the First Minister

2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes
2. Business Statement and Announcement

3. Datganiad: Model Ymateb Clinigol Newydd ar gyfer y Gwasanaeth Ambiwlans Brys
3. Statement: New Clinical Response Model for Emergency Ambulance Services

4. Datganiad: Datblygu Arfer Proffesiynol drwy'r Fargen Newydd
4. Statement: Developing Professional Practice through the New Deal

5. Datganiad: Gweithlu'r Gwasanaethau Cyhoeddus
5. Statement: Public Service Workforce

6. Datganiad: Cartrefi i Boblogaeth sy'n Heneiddio
6. Statement: Housing an Ageing Population


*Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Llywydd (y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 13:30 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.*

13:30

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

Prynhawn da. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

13:30

## Datganiad gan y Llywydd
## Statement by the Presiding Officer

Senedd.tv Fideo Video

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Before I call the First Minister, it gives me great pleasure to announce that, in accordance with Standing Order 26.75, the Qualifications Wales Bill was given Royal Assent on 5 August.

Cyn i mi alw ar y Prif Weinidog, mae'n rhoi pleser mawr i mi gyhoeddi, yn unol â Rheol Sefydlog 26.75, y rhoddwyd Cydsyniad Brenhinol i Fil Cymwysterau Cymru ar 5 Awst.

13:30

## 1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog
## 1. Questions to the First Minister

Senedd.tv Fideo Video

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Now we move to item 1, which is questions to the First Minister, and first this afternoon is Mike Hedges.

Symudwn at eitem 1 nawr, sef cwestiynau i'r Prif Weinidog, a Mike Hedges sydd gyntaf y prynhawn yma.

### Rhaglen Her Ysgolion Cymru

### The Schools Challenge Cymru Programme

13:31

## Mike Hedges Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*1. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ganlyniadau TGAU ysgolion sy'n dod o dan raglen Her Ysgolion Cymru? OAQ(4)2421(FM)*

*1. Will the First Minister make a statement on the GCSE results of schools that fall under the Schools Challenge Cymru programme? OAQ(4)2421(FM)*

13:31 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes. I'm delighted that around two thirds of the 40 Schools Challenge Cymru schools have reported an improvement in the number of their pupils gaining five or more good GCSEs this summer. We await the provisional results later this month, but this indicates a strong start to the programme.

Gwnaf. Rwy'n falch iawn bod tua dwy ran o dair o'r 40 ysgol Her Ysgolion Cymru wedi nodi gwelliant yn nifer eu disgyblion a lwyddodd i gael canlyniadau da mewn pump neu fwy o bynciau TGAU yr haf hwn. Disgwyliwn y canlyniadau dros dro yn ddiweddarach y mis hwn, ond mae hyn yn dangos cychwyn cadarn i'r rhaglen.

13:31 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography Senedd.tv Fideo Video

Can I thank the First Minister for that response? Following the huge success of the Schools Challenge programme in London, I have been a strong advocate of Schools Challenge Cymru. Will the First Minister join me in congratulating Pentrehafod, one of the Schools Challenge Cymru in Swansea East, on their hugely improved GCSE results?

A gaf i ddiolch i'r Prif Weinidog am yr ymateb yna? Yn dilyn llwyddiant ysgubol y rhaglen Her Ysgolion yn Llundain, rwyf wedi bod yn gefnogwr cryf o Her Ysgolion Cymru. A wnaiff y Prif Weinidog ymuno â mi i longyfarch Pentrehafod, un o ysgolion Her Ysgolion Cymru yn Nwyrain Abertawe, ar eu canlyniadau TGAU sydd wedi gwella'n aruthrol?

13:31 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes, I'll join the Member in congratulating Pentrehafod—their best ever set of GCSE results. Good news for the teachers and the pupils who, of course, should be congratulated. We know that other schools have reported good progress as well, including Tonypandy Community College and Blackwood Comprehensive School. I think it's right to say that we await the official results with optimism.

Gwnaf, ymunaf â'r Aelod i longyfarch Pentrehafod—eu set o ganlyniadau TGAU gorau erioed. Newyddion da i'r athrawon a'r disgyblion a dylid, wrth gwrs, eu llongyfarch. Rydym ni'n gwybod bod ysgolion eraill wedi nodi cynnydd da hefyd, gan gynnwys Coleg Cymunedol Tonypandy ac Ysgol Gyfun y Coed Duon. Rwy'n credu ei bod yn iawn i ddweud ein bod yn aros am y canlyniadau swyddogol yn llawn gobaith.

13:32 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography Senedd.tv Fideo Video

Good afternoon, First Minister. I'm sure you join with me in congratulating all those young people who achieved good GCSE results this year, and commiserate with those who perhaps might have been disappointed. Are you in a position yet to tell us how well those children who have been identified as more able and talented have done in schools in disadvantaged areas that don't benefit from the Schools Challenge Cymru programme?

Prynhawn da, Brif Weinidog. Rwy'n siŵr eich bod yn ymuno â mi i longyfarch yr holl bobl ifanc hynny a gafodd ganlyniadau TGAU da eleni, ac i gydymdeimlo â'r rhai sydd efallai wedi eu siomi. A ydych chi mewn sefyllfa eto i ddweud wrthym pa mor dda y mae'r plant hynny y nodwyd eu bod yn fwy galluog a thalentog wedi gwneud mewn ysgolion mewn ardaloedd difreintiedig nad ydynt yn elwa ar raglen Her Ysgolion Cymru?

13:32 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, as we know, we await the provisional results, but we are confident that education is moving in the right direction in Wales. We've seen the results from the Schools Challenge Cymru schools; we've seen the results across Wales, and we know that her party would cut education spending by 20 per cent.

Wel, fel y gwyddom, rydym ni'n aros am y canlyniadau rhagarweiniol, ond rydym ni'n hyderus bod addysg yn symud i'r cyfeiriad cywir yng Nghymru. Rydym ni wedi gweld y canlyniadau o'r ysgolion Her Ysgolion Cymru; rydym ni wedi gweld y canlyniadau ledled Cymru, ac rydym ni'n gwybod y byddai ei phlaid hi'n torri gwariant ar addysg gan 20 y cant.

13:32 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography Senedd.tv Fideo Video

Mae'ch Llywodraeth, Brif Weinidog, wedi addo y byddwch yn cau y bwlch cyrhaeddiad ar gyfer plant sy'n derbyn prydau ysgol am ddim yn ysgolion Her Ysgolion Cymru. Ond, bythefnos yn ôl, mewn datganiad ysgrifenedig, fe wnaeth eich Gweinidog addysg ostwng y targed o 37 y cant o'r plant hyn i gyrraedd gradd C TGAU i 34 y cant ar gyfer categoreiddio'r ysgolion. Wedi methu targed roedd eich Llywodraeth eich hunan yn dweud nad oedd yn ddigon uchelgeisiol, mae'ch Llywodraeth wedi newid y targed. Bob tro rydych yn methu cyflawni, eich ateb yw newid y targed. Pryd fydd angen newid y Llywodraeth?

Your Government, First Minister, has pledged to close the attainment gap between children who receive free school meals in the Schools Challenge Cymru school. But, a fortnight ago, in a written statement, your education Minister reduced that target from 37 per cent of these children to achieve grade C at GCSE to 34 per cent for the schools' categorisation. Having missed a target that your own Government stated was not ambitious enough, your Government has now changed that target. Every time you fail to deliver, your answer is to change the target. When will there be a need for change of Government?

13:33 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Nid yw'n wir i ddweud ein bod ni wedi lleihau'r targedau, achos 37 y cant yw'r targed cyfun ynglŷn â nifer y disgyblion sy'n gallu cael cinio ysgol am ddim o ran sicrhau eu bod nhw'n cael pump TGAU da yn y pen draw. Dyna felly yw'r targed erbyn 2017.

It's not true to say that we have reduced the targets, because 37 per cent remains the comprehensive target as regards the number of pupils who receive free school meals, to ensure that they get five good GCSEs ultimately, and that's the target for 2017.

Senedd.tv Fideo Video

### Cam-drin Plant yn Rhywiol

### Child Sexual Abuse

13:33 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

*2. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar y camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i fynd i'r afael â cham-drin plant yn rhywiol yng Nghymru? OAQ(4)2429(FM)*

*2. Will the First Minister make a statement on Welsh Government measures to tackle child sexual abuse in Wales? OAQ(4)2429(FM)*

Senedd.tv Fideo Video

13:34 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes. We are working with stakeholders to support continued improvement in professional practice in tackling child sexual abuse and exploitation. The National Independent Safeguarding Board will further strengthen the safeguarding framework and will support improvements in practice across Wales.

Gwnaf. Rydym ni'n gweithio gyda rhanddeiliaid i gefnogi gwelliant parhaus i arfer proffesiynol o ran mynd i'r afael â cham-drin a cham-fanteisio rhywiol ar blant. Bydd y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol yn cryfhau'r fframwaith diogelu ymhellach a bydd yn cefnogi gwelliannau i arfer ledled Cymru.

Senedd.tv Fideo Video

13:34 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Thank you. First Minister, Wales is the only home nation that does not keep track of how long a child has either a child protection plan in place or is on a child protection register. Being on the register or having a plan in place is a key indicator of a child at risk, but the information your Government currently holds is a year-end snapshot and does not measure a child's length of exposure to risk. If we don't have this important measure in place, First Minister, how is your Government going to be able to ascertain whether or not we have children simply drifting in the system without having a concrete resolution to the situation they find themselves in?

Diolch yn fawr. Brif Weinidog, Cymru yw'r unig un o'r gwledydd cartref nad yw'n cadw cofnod o ba mor hir y bu gan blentyn gynllun amddiffyn plant ar waith neu ei fod ar gofrestr amddiffyn plant. Mae bod ar y gofrestr neu fod â chynllun ar waith yn ddangosydd allweddol o blentyn mewn perygl, ond cipolwg diwedd blwyddyn yw'r unig wybodaeth sydd gan eich Llywodraeth ar hyn o bryd ac nid yw'n mesur am ba hyd y mae plentyn wedi ei amlygu i risg. Os nad yw'r mesur pwysig hwn ar waith gennym, Brif Weinidog, sut mae eich Llywodraeth yn mynd i allu canfod pa un a oes gennym blant nad ydynt yn cael sylw yn y system a heb gael datrysiad pendant i'r sefyllfa y maen nhw'n canfod eu hunain ynddi?

Senedd.tv Fideo Video

13:34 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

While I would argue is that the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 further strengthens the existing safeguarding arrangements for children, it does introduce a new duty to report to the local authority, and it does define 'a child at risk'. We know that other organisations, such as health services, the police service and probation services, will be required to inform the local authority where they have reasonable cause to believe that a child is at risk. Following such notification, the local authorities will exercise their existing duty to investigate under the current Children Act 2004. So, my argument would be that the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 strengthens the provision that's available for children who are at risk, and that is something I'm sure that Members will welcome.

Yr hyn y byddwn yn ei ddadlau yw bod Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 yn cryfhau'r trefniadau diogelu presennol ar gyfer plant ymhellach, mae'n cyflwyno dyletswydd newydd i hysbysu'r awdurdod lleol, ac mae'n diffinio 'plentyn mewn perygl'. Rydym ni'n gwybod y bydd yn ofynnol i sefydliadau eraill, fel gwasanaethau iechyd, gwasanaeth yr heddlu a gwasanaethau prawf, hysbysu'r awdurdod lleol pan fo ganddynt achos rhesymol i gredu bod plentyn mewn perygl. Yn dilyn hysbysiad o'r fath, bydd yr awdurdodau lleol yn arfer eu dyletswydd bresennol i ymchwilio o dan y Ddeddf Plant 2004 bresennol. Felly, fy nadl i fyddai bod Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 yn cryfhau'r ddarpariaeth sydd ar gael i blant sydd mewn perygl, ac mae hynny'n rhywbeth rwy'n siŵr y bydd yr Aelodau'n ei groesawu.

Senedd.tv Fideo Video

13:35

## Y Llywydd / The Presiding Officer
Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to questions from the party leaders, and first this afternoon we have the leader of Plaid Cymru, Leanne Wood.

Symudwn at gwestiynau gan arweinwyr y pleidiau nawr, ac arweinydd Plaid Cymru, Leanne Wood, sydd gyntaf y prynhawn yma.

13:35

## Leanne Wood
Bywgraffiad Biography

*Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru*

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Lywydd. First Minister, what steps is the Welsh Government taking to make itself more accountable for outcomes in the NHS?

Diolch, Lywydd. Brif Weinidog, pa gamau mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wneud ei hun yn fwy atebol am ganlyniadau yn y GIG?

13:35

## Carwyn Jones
Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Well, outcomes are something on which I am questioned, and, indeed, the Minister for Health and Social Services, on a regular basis in this Chamber.

Wel, mae canlyniadau'n rhywbeth yr wyf i ac, yn wir, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael ein holi amdanynt yn rheolaidd yn y Siambr hon.

13:36

## Leanne Wood
Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, you have said that the next election is all going to be about your record in office, and I couldn't agree more. That's why I want to ask you today about not only your decision to drop the eight-minute ambulance target, but your decision not to publish the relevant figures as well. Now, on 23 May 2013, the health Minister, in a written statement, said:

'I understand the importance of maintaining information relating to the eight minute response as a comparator of performance with other UK nations'.

A month later, on the floor of this Chamber, he gave his assurance that the data on the eight-minute response times would be available for scrutiny. Why was the health Minister's assurance overturned?

Brif Weinidog, rydych chi wedi dweud bod yr etholiad nesaf yn mynd i ymwneud yn llwyr a'ch hanes yn y swydd, ac ni allwn gytuno mwy â hynny. Dyna pam yr hoffwn ofyn i chi heddiw am eich penderfyniad i ddiddymu'r targed wyth munud i ambiwlansys yn ogystal â'ch penderfyniad i beidio â chyhoeddi'r ffigurau perthnasol hefyd. Nawr, ar 23 Mai 2013, dywedodd y Gweinidog iechyd, mewn datganiad ysgrifenedig:

'Deallaf bwysigrwydd cadw'r wybodaeth am ymateb o fewn wyth munud er mwyn gallu cymharu perfformiad â gwledydd eraill y DU'

Fis yn ddiweddarach, ar lawr y Siambr hon, rhoddodd fe sicrhaodd y byddai'r data ar amseroedd ymateb wyth munud ar gael i graffu arno. Pam y cafodd sicrhad y Gweinidog iechyd ei wrthdroi?

13:36

## Carwyn Jones
Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

First of all, of course, the reason why these changes are taking place is that, at the discussions with the ambulance—the paramedics themselves—and, indeed, with the Welsh Ambulance Services NHS Trust, and, indeed, with the local health boards, England is changing the way it actually measures ambulance response times, and we're not going to be in a position where, because of the way we've historically done it, we're in a worse position than England purely because of the way we count. Clearly, we know that, even though this isn't a competition between Wales and England, it's important that people are able to have broadly comparative methods by which they can compare ambulance response times. That's exactly what we've done.

Yn gyntaf oll, wrth gwrs, y rheswm pam mae'r newidiadau hyn yn cael eu gwneud yw, yn y trafodaethau gyda'r ambiwlans—y parafeddygon eu hunain—ac, yn wir, gydag Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, ac, yn wir, gyda'r byrddau iechyd lleol, bod Lloegr yn newid y ffordd y mae'n mesur amseroedd ymateb ambiwlansys, ac nid ydym yn mynd i fod mewn sefyllfa lle, oherwydd y ffordd yr ydym ni wedi ei wneud yn hanesyddol, ein bod mewn sefyllfa waeth na Lloegr dim ond oherwydd y ffordd yr ydym ni'n cyfrif. Yn amlwg, rydym ni'n gwybod, er nad cystadleuaeth rhwng Cymru a Lloegr yw hon, ei bod yn bwysig y gall pobl gael dulliau cymharol debyg ar gyfer cymharu amseroedd ymateb ambiwlansys. Dyna'n union yr hyn yr ydym ni wedi ei wneud.

13:37 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, I agree that the target in itself—the eight-minute response time—might well be too simplistic as a target, but it's unacceptable to stop publishing data just because it makes you look bad. Now, the eight-minute target may well be imperfect, but people have the right to compare performance and scrutinise outcomes. They have the right to hold you to account. So, what makes you think that you should be allowed to get away with hiding your failings?

Brif Weinidog, rwy'n cytuno efallai'n wir fod y targed ynddo'i hun—y targed ymateb wyth munudyn yn rhy syml fel targed, ond mae'n annerbyniol rhoi'r gorau i gyhoeddi data dim ond oherwydd ei fod yn gwneud i chi edrych yn wael. Nawr, efallai'n wir fod y targed wyth munud yn amherffaith, ond mae gan bobl yr hawl i gymharu perfformiad a chraffu ar ganlyniadau. Mae ganddyn nhw'r hawl i'ch dwyn chi i gyfrif. Felly, beth sy'n gwneud i chi feddwl y dylech chi gael yr hawl i guddio eich methiannau?

13:37 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Well, first of all she complains about the change in the eight-minute response time and then says she doesn't agree with it anyway. I mean, she can't have it both ways. And, secondly, we are not not publishing data; the data will be available, as is always the case, and the data will be available for scrutiny by this National Assembly. I do not see how she can say that, somehow, data is not going to be published in the future; clearly, it will.

Wel, yn gyntaf oll mae hi'n achwyn am y newid i'r amser ymateb wyth munud ac yna'n dweud nad yw'n cytuno ag ef beth bynnag. Hynny yw, ni all hi ei chael hi bob ffordd. Ac, yn ail, nid ydym yn peidio â chyhoeddi data; bydd y data ar gael, fel sy'n digwydd bob amser, a bydd y data ar gael i'r Cynulliad Cenedlaethol hwn graffu arno. Nid wyf yn gweld sut y gall hi ddweud, rywsut, nad yw data'n mynd i gael ei gyhoeddi yn y dyfodol; mi fydd, yn amlwg.

13:38 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to the leader of the opposition, Andrew R.T. Davies.

Symudwn nawr at arweinydd yr wrthblaid, Andrew R.T. Davies.

13:38 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. First Minister, do you still think Jeremy Corbyn is an unusual choice as leader of the Labour Party? Because, obviously, in the election campaign, you said you thought he was an unusual choice, but your health Minister gave him a glowing endorsement.

Diolch i chi, Lywydd. Brif Weinidog, a ydych chi'n dal i feddwl bod Jeremy Corbyn yn ddewis anarferol fel arweinydd y Blaid Lafur? Oherwydd, yn amlwg, yn yr ymgyrch etholiadol, dywedasoch eich bod yn meddwl ei fod yn ddewis anarferol, ond rhoddodd eich Gweinidog iechyd gymeradwyaeth frwd iddo.

13:38 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Well, as the First Minister of Wales, and the leader of Welsh Labour, I'm here to answer questions regarding the Welsh Government, not anyone else.

Wel, fel Prif Weinidog Cymru, ac arweinydd Llafur Cymru, rwyf yma i ateb cwestiynau am Lywodraeth Cymru, nid unrhyw un arall.

13:38 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

As I understand it, you regard it quite important—that relationship between the leader in Westminster and the leader of the Welsh Labour Party, which is Jeremy Corbyn, not your good self. You're meeting him tomorrow—you are meeting him tomorrow, and I hope very much that you will be talking to him about your dreadful health statistics. You promised a government that was going to deliver. At the end of July, 443,000 people were waiting to start treatment here in Wales—443,000. What your Government and your time as First Minister has delivered is a doubling of waiting times here in Wales. What will you be telling Jeremy Corbyn about your record here in Wales?

Yn ôl a ddeallaf, rydych chi'n credu ei bod yn eithaf pwysig—y berthynas rhwng yr arweinydd yn San Steffan ac arweinydd Plaid Lafur Cymru, sef Jeremy Corbyn, nid chi eich hun. Rydych chi'n cyfarfod ag ef yfory—rydych chi'n cyfarfod ag ef yfory, ac rwy'n gobeithio'n fawr y byddwch yn siarad ag ef am eich ystadegau iechyd erchyll. Addawsoch lywodraeth a oedd yn mynd i gyflawni. Ar ddiwedd mis Gorffennaf, roedd 443,000 o bobl yn aros i ddechrau triniaeth yma yng Nghymru—443,000. Yr hyn y mae eich Llywodraeth a'ch amser fel Prif Weinidog wedi ei gyflawni yw dyblu amseroedd aros yma yng Nghymru. Beth fyddwch chi'n ei ddweud wrth Jeremy Corbyn am eich hanes yma yng Nghymru?

13:39 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, I don't have a London obsession like him; I don't take orders from London, as he does. As we've seen before, he waits a couple of days before he says anything, so he gets the green light from his masters in London. Let me tell him something: we have delivered a good health service, we have made sure that spending grows on health, despite the 10 per cent cut in our budget from his party, about which he has done absolutely nothing. And we will not cut education by 20 per cent, we will not cut local government by 12 per cent, we will not cut spending on job creation by 30 per cent—all the things that he wants to do. We will always stand up for Wales, fight for Wales. It's a shame he's so mute.

Wel, nid oes gennyf obsesiwn â Llundain fel sydd ganddo fe; Nid wyf yn cymryd gorchmynion gan Lundain, fel y mae ef. Fel rydym ni wedi ei weld o'r blaen, mae'n aros diwrnod neu ddau cyn iddo ddweud unrhyw beth, fel ei fod yn cael y golau gwyrdd gan ei feistri yn Llundain. Gadewch i mi ddweud rhywbeth wrtho: rydym ni wedi darparu gwasanaeth iechyd da, rydym ni wedi gwneud yn siŵr bod y gwariant ar iechyd yn tyfu, er gwaethaf y toriad o 10 y cant i'n cyllideb gan ei blaid ef, ac nid wyf ef wedi gwneud dim byd o gwbl am hynny. Ac ni fyddwn yn torri gwariant ar addysg gan 20 y cant, ni fyddwn yn torri llywodraeth leol gan 12 y cant, ni fyddwn yn torri gwariant ar greu swyddi gan 30 y cant—yr holl bethau y mae ef eisiau eu gwneud. Byddwn bob amser yn sefyll dros Gymru, yn ymladd dros Gymru. Mae'n drueni ei fod ef mor fud.

Senedd.tv
Fideo Video

13:40 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

We will protect the health budgets, something that you have not done and failed to do, First Minister. Four hundred and forty-three thousand people—[Interruption.]—are waiting to start treatment—

Byddwn ni'n amddiffyn y cyllidebau iechyd, rhywbeth nad ydych chi wedi ei wneud ac wedi methu â'i wneud, Brif Weinidog. Mae pedwar cant a phedwar deg tri o filoedd o bobl—[Torri ar draws.]—yn aros i ddechrau eu triniaeth—

Senedd.tv
Fideo Video

13:40 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Order. Order.

Trefn. Trefn.

Senedd.tv
Fideo Video

13:40 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

[Continues.]—First Minister. That's double the number that were waiting when you became First Minister. That's what you have delivered to the people of Wales and the patients who are waiting to start their treatment. Jeremy Corbyn, when he was in Cardiff, lamented the devastating health cuts that you've put on the Welsh NHS budget. He lamented that. Will you be apologising? Will you be apologising for those cuts when you meet him tomorrow, First Minister?

[Yn parhau.]—Brif Weinidog. Mae hynny'n ddwbl y nifer a oedd yn aros pan ddaethoch chi yn Brif Weinidog. Dyna beth yr ydych chi wedi ei gyflawni dros bobl Cymru a'r cleifion sy'n aros i ddechrau eu triniaeth. Gresynodd Jeremy Corbyn, pan yr oedd yng Nghaerdydd, y toriadau iechyd dinistriol rydych chi wedi eu gwneud i gyllideb y GIG yng Nghymru. Gresynodd hynny. A fyddwch chi'n ymddiheuro? A fyddwch chi'n ymddiheuro am y toriadau hynny pan fyddwch chi'n cyfarfod ag ef yfory, Brif Weinidog?

Senedd.tv
Fideo Video

13:40 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

He was talking about the cuts imposed by your party. Don't try and use his comments out of context. The one thing about the leader of the opposition is that he doesn't get it, does he? When the Tories ran Wales, waiting times were years—years. We remember the 1990s. We remember when they were in charge and people were waiting two or three years for cataract operations as a matter of course. So he can't lecture us in terms of waiting times. He sits there and says nothing when, for example, the justice system is being destroyed by charges imposed in criminal trials that makes the justice system look like nothing more than a racket. He said nothing about the closures of magistrates courts and county courts across Wales—absolutely nothing whatsoever. He says nothing when we see cuts imposed on the Welsh budget. We do know, in fairness—he's been honest—he has said he'd cut education spending by 20 per cent. We've gone through this: 30 per cent in job creation; 12 per cent cut in local government; a massive increase in the council tax as a result of that—[Interruption.] They've been honest and said that—

Roedd yn sôn am y toriadau a orfodwyd gan eich plaid chi. Peidiwch â cheisio defnyddio ei sylwadau allan o'u cyd-destun. Yr un peth am arweinydd yr wrthblaid yw nad yw'n ei deall hi, ydy e? Pan roedd y Toriaid yn rhedeg Cymru, roedd amseroedd aros yn flynyddoedd—blynyddoedd. Rydym ni'n cofio'r 1990au. Rydym ni'n cofio pan roedden nhw wrth y llyw a phobl yn aros dwy neu dair blynedd am lawdriniaethau cataract fel mater o drefn. Felly ni all ein darlithio ni ar amseroedd aros. Mae'n eistedd yn y fan yna ac yn dweud dim pan, er enghraifft, fo'r system gyfiawnder yn cael ei dinistrio gan daliadau sy'n cael eu codi mewn achosion llys troseddol sy'n gwneud i'r system gyfiawnder edrych fel dim byd mwy na thwyll. Ni ddywedodd ddim am gau llysoedd ynadon a llysoedd sirol ledled Cymru—dim byd o gwbl. Nid yw'n dweud dim pan fyddwn ni'n gweld toriadau'n cael eu gorfodi ar gyllideb Cymru. Rydym ni'n gwybod, er tegwch—mae e wedi bod yn onest—mae e wedi dweud y byddai'n torri gwariant ar addysg gan 20 y cant. Rydym ni wedi mynd trwy hyn: 30 y cant o ran creu swyddi; 12 y cant o ran llywodraeth leol; cynnydd enfawr i'r dreth gyngor o ganlyniad i hynny—[Torri ar draws.] Maen nhw wedi bod yn onest ac wedi dweud—

13:41 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order.

Trefn.

13:41 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

It's a real shame that, unlike those of us on these benches, he cannot bring himself to think for himself and stand up for Wales.

Mae'n drueni mawr, yn wahanol i ni ar y meinciau hyn, na all orfodi ei hun i feddwl drosto'i hun a sefyll dros Gymru.

13:41 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It's not often I say I can't hear Andrew R.T. Davies, but I couldn't today. So, can we just tone it down a little? We now move to the leader of the Welsh Liberal Democrats, Kirsty Williams.

Nid yn aml y byddaf yn dweud na allaf glywed Andrew R.T. Davies, ond ni allwn heddiw. Felly, a allwn ni dawelu ychydig? Symudwn nawr at arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Kirsty Williams.

13:42 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. First Minister, could you outline what actions and steps your Government has taken to improve delayed transfers of care over the past two years?

Diolch i chi, Lywydd. Brif Weinidog, a wnewch chi amlinellu pa weithredoedd a chamau y mae eich Llywodraeth wedi eu cymryd i wella oedi wrth drosglwyddo gofal yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf?

13:42 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Well, we have seen, of course, the figures improve. That's because we've made sure that social services spending has been protected. We know that the health and social services budgets are intimately linked. To try and divorce one from the other is unrealistic, and we know that health and social services spending is 8 per cent higher in Wales per head than is the case in England.

Wel, rydym ni wedi gweld, wrth gwrs, y ffigurau'n gwella. Mae hynny oherwydd ein bod wedi gwneud yn siŵr bod gwariant ar wasanaethau cymdeithasol wedi ei ddiogelu. Rydym ni'n gwybod bod y cyllidebau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol wedi'u cysylltu'n agos. Mae ceisio gwahanu un oddi wrth y llall yn afrealistig, ac rydym ni'n gwybod bod gwariant ar iechyd a gwasanaethau cymdeithasol 8 y cant yn uwch yng Nghymru fesul pen na'r hyn sy'n wir yn Lloegr.

13:42 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It's clearly not working, First Minister, and I don't know which figures you've been looking at. So far, every month of 2015 has seen a year-on-year increase in the number of people stuck unnecessarily in a hospital bed in Wales. Three out of those seven months for which figures are available show an increase of more than 20 per cent in the number of delayed transfers of care last year. What impact do you think those delayed transfers of care will have on the ability of the NHS to admit patients to hospital wards in a timely fashion?

Mae'n amlwg nad yw'n gweithio, Brif Weinidog, ac nid wyf yn gwybod pa ffigurau yr ydych chi wedi bod yn edrych arnynt. Hyd yn hyn, bu cynnydd flwyddyn ar ôl blwyddyn yn nifer y bobl sy'n cael eu cadw'n ddiangen mewn gwely ysbyty yng Nghymru yn ystod pob mis yn 2015. Mae tri allan o'r saith mis hynny y mae ffigurau ar gael ar eu cyfer yn dangos cynnydd o fwy na 20 y cant i nifer yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal y llynedd. Pa effaith ydych chi'n meddwl y bydd yr achosion hynny o oedi wrth drosglwyddo gofal yn ei chael ar allu'r GIG i dderbyn cleifion i wardiau ysbyty yn brydlon?

13:43 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, nobody wishes to see people staying in hospital for longer than is necessary. We know that the number of patients experiencing a delayed transfer of care has fallen over time. It is right to say that, recently, numbers have fluctuated. There have been reductions. They've not been consistent reductions; that I accept. I can say that the Deputy Minister has been meeting with senior officials of health boards and their local authorities to discuss the reasons for delayed transfers of care and the actions those bodies are putting in place to bring about a sustained reduction in the number and extent of them.

Wel, nid oes unrhyw un yn dymuno gweld pobl yn aros yn yr ysbyty am fwy o amser nag sydd angen. Rydym ni'n gwybod bod nifer y cleifion sy'n dioddef oedi wrth drosglwyddo gofal wedi gostwng dros amser. Mae'n iawn i ddweud, yn ddiweddar, bod y niferoedd wedi amrywio. Bu gostyngiadau. Nid ydynt wedi bod yn ostyngiadau cyson; rwy'n derbyn hynny. Gallaf ddweud bod y Dirprwy Weinidog wedi bod yn cyfarfod ag uwch swyddogion byrddau iechyd a'u hawdurdodau lleol i drafod y rhesymau dros oedi wrth drosglwyddo gofal a'r camau y mae'r cyrff hynny'n eu cymryd i sicrhau gostyngiad cyson i'w nifer a'u hyd.

13:43 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, you are truly stretching the realms of credibility when you say that these numbers are improving. January: up 22 per cent on January last year. February: up 20 per cent on February last year. July of this year: up 10 per cent on July of last year. July of this year: 503 patients were in beds when they didn't need to be there. That's almost the entire bed capacity of the Wrexham Maelor Hospital. It's simply not credible for you to stand there and say the numbers are getting better. The evidence is different. And you've repeated it again today. You have repeated it again today. Your defence, long used by you and the health Minister to explain poor performance against other targets in the NHS, has been to say it's because you're spending money on social services. Now, these delayed transfers of care suggest that it's not cutting the mustard. It's not making a difference. The Met Office has already given a warning that this winter could be a particularly harsh and severe one. What immediate steps—no more discussions with the Deputy Minister, but what immediate steps will you take to ensure that bed capacity in the Welsh NHS is maximised so that people are not left languishing in a bed or finding it difficult to be admitted from either the community or a packed out A&E department?

Brif Weinidog, rydych chi wir yn ymestyn ffiniau hygrededd pan eich bod yn dweud bod y rhifau hyn yn gwella. Ionawr: cynnydd o 22 y cant ers mis Ionawr y llynedd. Chwefror: cynnydd o 20 y cant ers mis Chwefror y llynedd. Gorffennaf eleni: cynnydd o 10 y cant ers mis Gorffennaf y llynedd. Gorffennaf eleni: roedd 503 o gleifion mewn gwelyau pan nad oedd angen iddyn nhw fod yno. Mae hynny bron i holl welyau Ysbyty Maelor Wrecsam. Nid yw'n gredadwy eich bod yn sefyll yn y fan yna a dweud bod y rhifau'n gwella. Mae'r dystiolaeth yn wahanol. Ac rydych chi wedi ei ailadrodd eto heddiw. Rydych chi wedi ei ailadrodd eto heddiw. Eich amddiffyniad, a ddefnyddiwyd gennych chi a'ch Gweinidog iechyd ers amser maith i egluro perfformiad gwael yn erbyn targedau eraill yn y GIG, fu dweud ei fod oherwydd eich bod yn gwario arian ar wasanaethau cymdeithasol. Nawr, mae'r achosion hyn o oedi wrth drosglwyddo gofal yn awgrymu nad yw hyn yn gweithio. Nid yw'n gwneud gwahaniaeth. Mae'r Swyddfa Dywydd eisoes wedi rhoi rhybudd y gallai'r gaeaf hwn fod yn un arbennig o galed ac anodd. Pa gamau uniongyrchol—dim mwy o drafodaethau gyda'r Dirprwy Weinidog, ond pa gamau uniongyrchol wnewch chi eu cymryd i sicrhau y gwneir y defnydd gorau posibl o nifer y gwelyau yn y GIG yng Nghymru fel nad yw pobl yn cael eu gadael mewn gwely neu'n ei chael yn anodd cael eu derbyn o'r gymuned neu o adran damweiniau ac achosion brys orlawn?

13:44 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

First of all, there are always winter plans in place. She will know that, last year, those winter plans were in place and that, despite the challenges that the NHS in Wales faced in December and January, we did not see the same scenes as we saw in English A&E departments, where tents were being erected in car parks to see people. But it was tough; there is no question about that. We know that in the winter, we do see admissions to A&E spike, but our LHBs are ready for that.

Yn gyntaf oll, mae cynlluniau ar waith ar gyfer y gaeaf bob amser. Bydd hi'n gwybod, y llynedd, bod y cynlluniau hynny ar gyfer y gaeaf ar waith ac, er gwaethaf yr heriau a wynebwyd gan y GIG yng Nghymru ym mis Rhagfyr a mis Ionawr, ni welsom yr un golygfeydd a welsom yn adrannau Damweiniau ac Achosion Brys Lloegr, lle'r oedd pebyll yn cael eu codi mewn meysydd parcio i weld pobl. Ond roedd hi'n anodd; nid oes amheuaeth am hynny. Rydym ni'n gwybod, yn y gaeaf, ein bod yn gweld derbyniadau i adrannau damweiniau ac achosion brys yn cynyddu'n helaeth, ond mae ein BILlau yn barod am hynny.

She has used figures in a particular way. We know that delayed transfers of care have come down—not consistently down every month, but the trend is downwards—and that's because we know that we've protected social services spending, particularly as we see what's happening in England, where the exact opposite is happening. The reason we do that is because you can't divorce health and social services spending. What's happened in England is that spending has been taken out of social services and now, of course, we see the consequences.

Mae hi wedi defnyddio ffigurau mewn ffordd benodol. Rydym ni'n gwybod bod oedi wrth drosglwyddo gofal wedi gostwng—nid gostyngiad cyson bob mis, ond mae'r duedd am i lawr—ac mae hynny oherwydd ein bod yn gwybod ein bod ni wedi diogelu gwariant ar wasanaethau cymdeithasol, yn enwedig wrth i ni weld yr hyn sy'n digwydd yn Lloegr, lle mae'r union wrthwyneb yn digwydd. Y rheswm rydym ni'n gwneud hynny yw oherwydd na allwch chi wahanu gwariant ar iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Yr hyn sydd wedi digwydd yn Lloegr yw bod gwariant wedi cael ei gymryd allan o'r gwasanaethau cymdeithasol a nawr, wrth gwrs, rydym ni'n gweld y canlyniadau.

13:45 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move back to questions on the paper and it's question 3—Joyce Watson.

Symudwn yn ôl at y cwestiynau ar y papur nawr, a chwestiwn 3—Joyce Watson.

### Polisi Caffael Cyhoeddus

### Public Procurement Policy

13:45 **Joyce Watson** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*3. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bolisi caffael cyhoeddus Llywodraeth Cymru? OAQ(4)2436(FM)*

*3. Will the First Minister make a statement on the Welsh Government's public procurement policy? OAQ(4)2436(FM)*

13:46 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

In June, we issued a revised Wales procurement policy statement, making clear our expectations for public bodies and how performance will be measured and monitored. The new powers that came into effect in August will enable us to regulate on procurement matters, further strengthening that policy statement.

Cyhoeddwyd datganiad polisi caffael Cymru diwygiedig gennym ym mis Mehefin, yn egluro ein disgwyliadau ar gyfer cyrff cyhoeddus a sut y bydd perfformiad yn cael ei fesur a'i fonitro. Bydd y pwerau newydd a ddaeth i rym ym mis Awst yn ein galluogi i reoleiddio ar faterion caffael, gan gryfhau'r datganiad polisi hwnnw ymhellach.

13:46 **Joyce Watson** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank you for that answer, First Minister. The cross-party construction group published a report, led by industry, on the procurement process, at the end of last term. You have just announced that we have received new powers to regulate in this particular area. With public sector contracts worth £4.3 billion, that is a massive opportunity to boost home-grown businesses. How will the new powers benefit the businesses on the ground, particularly in my area, First Minister, and help small businesses?

Diolchaf i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog. Cyhoeddodd y grŵp adeiladu trawsbleidiol adroddiad, dan arweiniad y diwydiant, ar y broses gaffael, ddiwedd y tymor diwethaf. Rydych chi newydd gyhoeddi ein bod wedi derbyn pwerau newydd i reoleiddio yn y maes penodol hwn. Gyda chontractau sector cyhoeddus gwerth £4.3 biliwn, mae hwnnw'n gyfle enfawr i roi hwb i fusnesau cartref. Sut fydd y pwerau newydd o fudd i'r busnesau ar lawr gwlad, yn enwedig yn fy ardal i, Brif Weinidog, ac yn helpu busnesau bach?

13:46

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Welsh Ministers now have the ability to regulate on procurement matters, including strengthening the Wales procurement policy statement, and Value Wales officials are developing a plan for utilising those new powers. There was a refreshed statement, as I mentioned, on 9 June. We are enabling our local suppliers to increase their share of procurement in Wales, and 65 per cent of the volume of contract awards published on Sell2Wales is won by Wales-based suppliers.

Mae'r gallu gan Weinidogion Cymru erbyn hyn i reoleiddio ar faterion caffael, gan gynnwys cryfhau datganiad polisi caffael Cymru, ac mae swyddogion Gwerth Cymru yn datblygu cynllun ar gyfer defnyddio'r pwerau newydd hynny. Cafwyd datganiad newydd, fel y soniais, ar 9 Mehefin. Rydym yn galluogi ein cyflenwyr lleol i gynyddu eu cyfran o gaffael yng Nghymru, ac enillir 65 y cant o gyfanswm y dyfarniadau contract a gyhoeddir ar GwerthwchiGymru gan gyflenwyr wedi'u lleoli yng Nghymru.

Senedd.tv Fideo Video

13:47

## Paul Davies Bywgraffiad Biography

Brif Weinidog, efallai eich bod chi wedi gweld y rhaglen ar y BBC yn ddiweddar, sef 'The Farmer and the Food Chain'. Yn y rhaglen honno, roedd nifer yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod yna newid sylweddol o ran contractau caffael ar gyfer ysgolion, ysbytai a chyrff cyhoeddus yng Nghymru i sicrhau bod cynhyrchwyr lleol yn cael eu trin yn fwy teg. Felly, yn sgil hyn, a allwch chi ddweud wrthym ni pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael gydag awdurdodau lleol ynghylch polisïau caffael bwyd, er mwyn sicrhau bod cynhyrchwyr bwyd lleol yn cael y cyfle i werthu eu cynnyrch i awdurdodau lleol, ac, wrth gwrs, i gyrff cyhoeddus eraill?

First Minister, you may have seen the BBC programme recently, The Farmer and the Food Chain'. In that particular programme, many were calling on the Welsh Government to ensure that there was significant change in terms of procurement contracts for schools, hospitals and public bodies in Wales, in order to ensure that local producers are treated more fairly. So, in light of this, can you tell us what discussions the Welsh Government have had with local authorities on food procurement processes, to ensure that local food producers have an opportunity to sell their produce to local authorities and, of course, to other public bodies?

Senedd.tv Fideo Video

13:48

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Mewn ffordd, y sector bwyd a wnaeth arwain ar hwn. Rwy'n cofio, mwy na 10 mlynedd yn ôl, sicrhau bod cig eidion o Gymru'n cael ei ddefnyddio yn y gwasanaeth iechyd. Y broblem oedd nid bod yna ryw broblem gyda'r byrddau iechyd eu hunain ynglŷn â phrynu bwyd o Gymru, ond bryd hynny, nid oedd digon o gwmnïau a oedd yn gallu sicrhau bod bwyd ar gael dydd ar ôl dydd, wythnos ar ôl wythnos. Cafodd hynny ei ddelio gydag ef ac wedyn, wrth gwrs, aeth cig eidion o Gymru i mewn i'r gwasanaeth iechyd.

In a way, it's the food sector that led on this. I remember, more than 10 years ago, ensuring the beef from Wales was used in the health service. The problem was not that there was any problem with the health boards themselves as regards purchasing Welsh food, but at the time, there wasn't a sufficient number of companies who could ensure that there was a continuous supply of food available. That was dealt with and, after that, Welsh beef went into the health service.

Rwy'n gwybod, er enghraifft, bod sawl awdurdod lleol—mae Sir Gâr wedi bod yn flaengar yn ers blynyddoedd ynglŷn â hyn—sydd â swyddogion sy'n delio gyda materion caffael er mwyn sicrhau bod cynhyrchwyr lleol yn cael y cyfle i fidio am gytundebau. Rŷm yn gweld hynny'n digwydd ar draws Cymru. Fel y dywedais i, mae yna fwyafrif yn awr, ynglŷn â rhai contractau, sy'n cael eu hennill gan gwmnïau lleol.

I know, for example, that many local authorities—Carmarthenshire have been very innovative on this for several years—have procurement officers dealing with procurement issues in order to ensure that local producers have opportunities to bid for contracts. We see that happening throughout the whole of Wales. As I said, with some contracts now, the majority are actually won by local companies.

Senedd.tv Fideo Video

13:49

## Rhun ap Iorwerth Bywgraffiad Biography

Rwy'n croesawu'n sicr y ffaith bod rheoliadau newydd ynglŷn â chaffael cyhoeddus yn mynd i gael eu cyflwyno'r flwyddyn nesaf, ond a yw'r Prif Weinidog yn cydnabod na allwn ni fforddio aros eiliad yn rhagor cyn gweld gweithredu'n digwydd yn y maes hwn? Mae yna ormod o gwmnïau rwy'n siarad â hwy—yn cynnwys un cwmni rwy'n ymweld ag ef bore yfory, fel mae'n digwydd—yn teimlo eu bod nhw'n cael eu heithrio rhag gallu cystadlu am gytundebau cyhoeddus pwysig. Rwy'n falch o glywed Joyce Watson ar feinciau cefn Llafur yn dweud ei bod hi'n cytuno bod y Llywodraeth Lafur hon wedi methu ag ennill tir sylweddol o ran caffael cyhoeddus. Ni allwn fforddio oedi rhagor.

I certainly welcome the fact that new regulations on public procurement are to be brought forward next year, but would the First Minister acknowledge that we can't afford to wait a second longer before we see action happening in this area? There are too many companies that I speak to—including one company that I'll be visiting tomorrow morning, as it happens—that feel that they are being excluded from competing for important public contracts. I'm pleased to hear Joyce Watson on the Labour backbenches saying that she agrees that this Labour Government has failed to make significant ground in terms of public procurement. We can't afford any further delays.

Senedd.tv Fideo Video

13:49

**Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography
*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Wel, nid dyna beth y dywedodd hi, i fod yn hollol deg iddi hi; nid dyna'r hyn a ddywedodd hi o gwbl. Rŷm ni wedi bod yn llwyddiannus dros ben ynglŷn â sicrhau bod mwy o gontractau'n cael eu hennill gan fusnesau o Gymru. Mae 55 y cant, er enghraifft, o wariant blynyddol ynglŷn â chaffael yn cael ei ennill, unwaith eto, gan gwmnïau o Gymru. Mae yna 'jump' sylweddol wedi bod yn y nifer o gwmnïau sydd yn gallu cael busnes drwy ennill contractau drwy'r system caffael yma yng Nghymru. Wrth gwrs, mae gennym ni nawr fwy o bwerau fel Gweinidogion er mwyn sicrhau bod y gwellhad yn parhau.

Well, that's not what she said, to be perfectly fair to her; that's not what she said at all. We have been extremely successful as regards securing more contracts and ensuring that more contracts are won by Welsh companies. For example, 55 per cent of the annual spend on procurement is, once again, won by Welsh companies. There's been a significant increase in the number of companies that are able to secure business by winning contracts through the procurement system here in Wales. Of course, we now have new powers as Ministers to ensure that that improvement continues.

Senedd.tv
Fideo Video

13:50

**Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Presiding Officer, I declare an interest: that my husband is a partner in a farming business. Last week, First Minister, I joined graziers on the Epynt and served lamb rolls to the troops that were training on that particular facility, as part of the NFU's Back British Farming campaign. As well as doing what you can to increase public procurement of Welsh produce, including Welsh lamb, given that the market price is so bad at the moment, would you commit to writing to the MOD to ensure that all Government departments, whether in the Welsh Government or, indeed, in the Westminster Government, do their bit to support the usage of Welsh food and British food in public sector contracts?

Lywydd, rwyf yn datgan buddiant: bod fy ngŵr yn bartner mewn busnes ffermio. Yr wythnos diwethaf, Brif Weinidog, ymunais â phorwyr ar Fynydd Epynt gan weini rholiau cig oen i'r milwyr a oedd yn hyfforddi yn y cyfleuster arbennig hwnnw, yn rhan o ymgyrch Back British Farming Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr. Yn ogystal â gwneud yr hyn a allwch i gynyddu caffael cyhoeddus o gynnyrch o Gymru, gan gynnwys cig oen Cymru, o ystyried bod pris y farchnad mor wael ar hyn o bryd, a wnewch chi ymrwymo i ysgrifennu at y Weinyddiaeth Amddiffyn i sicrhau bod holl adrannau'r Llywodraeth, pa un a ydynt yn Llywodraeth Cymru ai peidio neu, yn wir, yn Llywodraeth San Steffan, yn chwarae eu rhan i gefnogi'r defnydd o fwyd o Gymru a bwyd o Brydain mewn contractau sector cyhoeddus?

Senedd.tv
Fideo Video

13:51

**Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography
*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes, I will do that. It is something that's been done before, some years ago. The MOD is not the easiest department to deal with in terms of getting a straight answer on anything, but, certainly, I will write along the terms that she has suggested. I'm certainly more than happy to join her and, indeed, the farming unions in encouraging more people to eat produce from Wales.

Gwnaf, mi wnaf hynny. Mae'n rhywbeth a wnaed o'r blaen, rai blynyddoedd yn ôl. Nid yw'r Weinyddiaeth Amddiffyn yr adran rwyddaf i ymdrin â hi o ran cael ateb syml i unrhyw beth, ond, yn sicr, byddaf yn ysgrifennu yn y modd y mae hi wedi ei awgrymu. Rwy'n sicr yn fwy na hapus i ymuno â hi ac, yn wir, yr undebau ffermio i annog mwy o bobl i fwyta cynnyrch o Gymru.

Senedd.tv
Fideo Video

## Argyfwng y Ffoaduriaid o Syria

## The Syrian Refugee Crisis

13:51

**Ann Jones** Bywgraffiad Biography

*4. A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ymateb Cymru i argyfwng y ffoaduriaid o Syria? OAQ(4)2434(FM)*

*4. Will the First Minister provide an update on Wales's response to the Syrian refugee crisis? OAQ(4)2434(FM)*

Senedd.tv
Fideo Video

**Jeff Cuthbert** Bywgraffiad Biography

*6. Pa gamau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i ddelio â'r argyfwng ffoaduriaid a dyngarol yn Ewrop? OAQ(4)2422(FM)*

*6. What actions will the Welsh Government take to deal with the refugee and humanitarian crisis in Europe? OAQ(4)2422(FM)*

13:51

**Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography
*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes. Presiding Officer, I understand that you've given permission for questions 4 and 6 to be grouped. I will lead a summit on Thursday to bring together the key agencies and service providers to develop a co-ordinated Wales-wide approach.

Gwnaf. Lywydd, rwy'n deall eich bod wedi rhoi caniatâd i gwestiynau 4 a 6 gael eu grwpio. Byddaf yn arwain uwchgynhadledd ddydd Iau i ddod â'r asiantaethau a'r darparwyr gwasanaeth allweddol ynghyd i ddatblygu dull cydgysylltiedig ledled Cymru.

Senedd.tv
Fideo Video

13:52 **Ann Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much for that, First Minister. Can I thank you for your very strong leadership and for being the first leader from one of the nations of the UK to actually stake out and say that we will play our part to help those people fleeing from war-torn Syria? Will you join me in also sharing with the Bishop of St Asaph, who is very, very vocal on the fact that we should all be playing our part and that we should be now finding practical ways in which we can move forward to keep that welcome for those people—? Wales has a proud and really good tradition of being a multicultural country, and, under your leadership, I'm sure we will be able to play our part, if there are no others that want to join us.

Diolch yn fawr iawn am hynna, Brif Weinidog. Hoffwn ddiolch i chi am eich arweinyddiaeth gref iawn ac am fod yr arweinydd cyntaf o un o wledydd y DU i leisio eich barn a dweud y byddwn yn chwarae ein rhan i helpu'r bobl hynny sy'n ffoi rhag rhyfel Syria? A wnewch chi hefyd ymuno â mi i rannu ag Esgob Llanelwy, sydd yn lleisio'i farn yn eglur iawn ar y ffaith y dylem i gyd fod yn chwarae ein rhan ac y dylem bellach fod yn dod o hyd i ffyrdd ymarferol o symud ymlaen a chadw'r croeso hwnnw i'r bobl hynny—? Mae gan Gymru draddodiad balch a da iawn o fod yn wlad amlddiwylliannol, ac, o dan eich arweinyddiaeth chi, rwy'n siŵr y byddwn yn gallu chwarae ein rhan, os nad oes unrhyw un arall eisiau ymuno â ni.

13:52 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, I thank the Member for her comments. I thought it was important to make a statement as First Minister on this, despite the fact it isn't a devolved issue, but, sometimes—and other parties have said the same thing. So, this is not a party political issue at all, to my mind. But it is important to say these things. The purpose of Thursday is to make sure that we can talk with local authorities and with other agencies—those bodies that will be responsible for resettling people—to talk through and to understand with them what the challenges are, what needs to be done and what help we can give them in order to make sure that, when we are looking to resettle people, we can all work together in order to make sure that is done as effectively as possible.

Wel, diolchaf i'r Aelod am ei sylwadau. Roeddwn yn meddwl ei bod yn bwysig gwneud datganiad fel Prif Weinidog ar hyn, er gwaethaf y ffaith nad yw'n fater sydd wedi'i ddatganoli, ond, weithiau—ac mae pleidiau eraill wedi dweud yr un peth. Felly, nid yw hwn yn fater o blaid wleidyddol o gwbl, yn fy marn i. Ond mae'n bwysig dweud y pethau hyn. Diben dydd Iau yw gwneud yn siŵr y gallwn siarad ag awdurdodau lleol a chydag asiantaethau eraill—y cyrff hynny a fydd yn gyfrifol am adsefydlu pobl—i drafod ac i ddeall gyda nhw beth yw'r heriau, beth sydd angen ei wneud a pha gymorth allwn ni ei roi iddyn nhw, er mwyn gwneud yn siŵr, pan fyddwn ni'n ceisio adsefydlu pobl, y gallwn ni i gyd weithio gyda'n gilydd er mwyn gwneud yn siŵr bod hynny'n cael ei wneud mor effeithiol â phosibl.

13:53 **Jeff Cuthbert** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will the First Minister join with me in congratulating Caerphilly's ICE, the 'Caerphilly Observer' and Bargoed YMCA in my constituency, and countless other people across Wales, for their help in collecting clothes and other material benefits for those unfortunate people trapped in this terrible humanitarian crisis? Will he also agree with me that the people of Wales are far ahead of the UK Government in terms of compassion and their sense of duty?

A wnaiff y Prif Weinidog ymuno â mi i longyfarch ICE Caerffili, y 'Caerphilly Observer' a YMCA Bargoed yn fy etholaeth i, a phobl ddi-ri eraill ledled Cymru, am eu help i gasglu dillad a buddion ymarferol eraill i'r bobl anffodus hynny sy'n gaeth yn yr argyfwng dyngarol ofnadwy hwn? A wnaiff ef hefyd gytuno â mi bod pobl Cymru ymhell ar y blaen i Lywodraeth y DU o ran tosturi a'u synnwyr o ddyletswydd?

13:54 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes, I would, and I certainly join with the Member in offering my congratulations. I regret the fact that the Prime Minister was laggardly in his response. You cannot bury your head in the sand when people are risking their lives on unseaworthy craft in order to cross to a place that they see as a place of safety. People are naturally going to do that. We all saw the shocking pictures of young children who had drowned as a result of making that crossing. Simply ignoring it is not going to make the issue go away, and I do believe it's important—there are others in the Chamber in other parties who've said the same thing—that we in Wales are able to offer a welcome for people, as we see one of the greatest humanitarian crises to hit the continent of Europe since the end of the second world war.

Gwnaf, mi wnaf, ac rwy'n sicr yn ymuno â'r Aelod i gynnig fy llongyfarchiadau. Rwy'n gresynu'r ffaith y bu ymateb y Prif Weinidog yn araf. Ni allwch gladdu eich pen yn y tywod pan fo pobl yn peryglu eu bywydau ar gychod nad ydynt yn ddiogel ar gyfer y môr i groesi i fan y maen nhw'n ei ystyried yn lle diogel. Mae pobl yn mynd i wneud hynny'n naturiol. Gwelodd pob un ohonom y lluniau ofnadwy o blant ifanc a oedd wedi boddi o ganlyniad i'r daith honno. Nid yw ei anwybyddu'n mynd i wneud y mater ddiflannu, ac rwy'n credu ei bod yn bwysig—ceir pobl eraill yn y Siambr mewn pleidiau eraill sydd wedi dweud yr un peth—ein bod ni yng Nghymru yn gallu cynnig croeso i bobl, wrth i ni weld un o'r argyfyngau dyngarol mwyaf i daro cyfandir Ewrop ers diwedd yr ail ryfel byd.

13:54 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, back last April, I asked you if you were prepared to support a cross-party approach here in Wales to ensure that we played our part in alleviating what was dubbed at that point in time the Mediterranean refugee crisis. Sadly, that crisis has escalated, and now greater numbers of refugees are seeking safety in Europe. Do you support a quota system for the UK and, in turn, a quota system for the nations of the UK, and will that matter be on the agenda of your summit on Thursday?

Brif Weinidog, yn ôl ym mis Ebrill diwethaf, gofynnais i chi a oeddech chi'n barod i gefnogi dull trawsbleidiol yma yng Nghymru i sicrhau ein bod yn chwarae ein rhan i leddfu'r hyn a alwyd ar y pryd yn argyfwng ffoaduriaid Môr y Canoldir. Yn anffodus, mae'r argyfwng hwnnw wedi gwaethygu, ac mae mwy o ffoaduriaid yn chwilio am ddiogelwch yn Ewrop erbyn hyn. A ydych chi'n cefnogi system gwota ar gyfer y DU ac, yn sgil hynny, system gwota ar gyfer gwledydd y DU, ac a fydd y mater hwnnw ar agenda eich uwchgynhadledd ddydd Iau?

13:55 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I do support a quota system. In principle, I support the idea of a quota system for each nation as well. I think that Thursday is not so much about looking at agreeing on the number of people that we should take. I think that's an artificial level, especially given what's happened in the past week or two. But I do think it's important that we are ready across the public sector in Wales to be able to resettle people when that time comes. I'm not sure of the view of the UK Government. It seems to be that they will spend aid money on helping people in the camps in places like Lebanon, rather than those people who would seek resettlement in the UK. I'm unclear on that. I see the leadership that Germany has given. I also see the difficulties that Germany has faced in the flow of people into Germany itself. However, one thing that we do know, as Europeans, is that people will flee war in order to find somewhere that's peaceful; and we are seeing it now in large numbers. We can't ignore that. We can't pretend that, somehow, the UK is cut off from the rest of the world in that way. It's important—and I thank her for her comments as well, in terms of what she said—that we actually say, 'Look; we have a great humanitarian crisis. We are human beings. We must find a way to help and resettle people who are in dire need'.

Rwyf yn cefnogi system gwota. Mewn egwyddor, rwy'n cefnogi'r syniad o system gwota ar gyfer pob gwlad hefyd. Nid wyf yn credu y bydd dydd Iau yn ymwneud cymaint â cheisio cytuno ar nifer y bobl y dylem ni eu cymryd. Rwy'n credu bod honno'n lefel artiffisial, yn enwedig o ystyried yr hyn sydd wedi digwydd yn ystod yr wythnos neu ddwy ddiwethaf. Ond rwyf yn meddwl ei bod yn bwysig ein bod yn barod ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru i allu adsefydlu pobl pan ddaw'r amser hwnnw. Nid wyf yn sicr o safbwynt Llywodraeth y DU. Mae'n ymddangos y bydd yn gwario arian cymorth ar helpu pobl yn y gwersylloedd mewn lleoedd fel Libanus, yn hytrach na'r bobl hynny a fyddai eisiau adsefydlu yn y DU. Rwy'n aneglur am hynny. Rwy'n gweld yr arweinyddiaeth y mae'r Almaen wedi ei rhoi. Rwyf hefyd yn gweld yr anawsterau y mae'r Almaen wedi eu hwynebu o ran y llif o bobl i mewn i'r Almaen ei hun. Fodd bynnag, un peth yr ydym ni yn ei wybod, fel Ewropeaid, yw bod pobl yn ffoi rhyfel er mwyn dod o hyd i rywle sy'n heddychlon; ac rydym ni'n gweld hynny nawr mewn niferoedd mawr. Ni allwn anwybyddu hynny. Ni allwn esgus, rywsut, bod y DU ar wahân i weddill y byd yn y ffordd honno. Mae'n bwysig—ac rwy'n diolch iddi am ei sylwadau hefyd, o ran yr hyn a ddywedodd—ein bod ni wir yn dweud, 'Edrychwch; mae gennym ni argyfwng dyngarol mawr. Rydym ni'n fodau dynol. Mae'n rhaid i ni ddod o hyd i ffordd o helpu ac adsefydlu pobl sydd mewn angen dybryd'.

13:56 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, Newport is one of the UK's designated dispersal areas for asylum seekers in Wales, and the number of asylum seekers in the city has doubled in the last three years. Will the First Minister confirm that any increased funding provided by the UK Government for supporting asylum seekers in Wales will go merely to these designated dispersal areas, which have borne the costs associated with the asylum process here in Wales?

Brif Weinidog, mae Casnewydd yn un o ardaloedd gwasgaru dynodedig y DU ar gyfer ceiswyr lloches yng Nghymru, ac mae nifer y ceiswyr lloches yn y ddinas wedi dyblu yn ystod y tair blynedd diwethaf. A wnaiff y Prif Weinidog gadarnhau y bydd unrhyw gyllid cynyddol a ddarperir gan Lywodraeth y DU ar gyfer cefnogi ceiswyr lloches yng Nghymru yn mynd i'r ardaloedd gwasgaru dynodedig hyn yn unig, ar ôl iddynt gymryd cyfrifoldeb am y costau sy'n gysylltiedig â'r broses loches yma yng Nghymru?

13:57 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Well, we understand that the UK Government is committed to funding the resettlement of refugees. We welcome that. Of course, the money will be spent for that purpose. I have deliberately avoided using the phrase 'asylum seeker' because that has acquired a prejudicial meaning in the mind of the public; and 'migrants', because 'migrants', in the minds of so many, means people who are moving in order to find jobs. These people are genuine refugees. They are no different from the people who were crossing Europe in 1945 in the aftermath of the second world war. They are moving away from their countries of birth, through no choice of their own, because of the displacement that's caused by war and by fear. They are refugees in exactly the same way as those people who had to migrate in their millions across Europe were in 1945. That's why it's important that we make sure that the funding is made available—and it seems, from the UK Government, that it is being made available to help people with resettlement—and also, of course, to make sure that people are able to resettle, and then, of course, play a full part in the society that they join. We know full well that the experience of people who are refugees is that they come to a place, they are happy with the peace and security that that place offers them, and they are enthusiastic members of society as a result.

Wel, rydym ni'n deall bod Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i ariannu adsefydliad y ffoaduriaid. Rydym ni'n croesawu hynny. Wrth gwrs, bydd yr arian yn cael ei wario at y diben hwnnw. Rwyf wedi osgoi defnyddio'r ymadrodd 'ceisiwr lloches' yn fwriadol gan ei fod wedi caffael ystyr o ragfarn ym meddwl y cyhoedd; ac 'ymfudwyr', gan fod 'ymfudwyr', ym meddyliau cymaint o bobl, yn golygu pobl sy'n symud er mwyn dod o hyd i swyddi. Mae'r bobl hyn yn ffoaduriaid gwirioneddol. Nid ydynt ddim gwahanol i'r bobl a oedd yn croesi Ewrop ym 1945 yn sgil yr ail ryfel byd. Maen nhw'n symud i ffwrdd o'u gwledydd genedigol, heb unrhyw ddewis eu hunain, oherwydd y dadleoli sy'n cael ei achosi gan ryfel ac ofn. Maen nhw'n ffoaduriaid yn union yr un ffordd â'r bobl hynny y bu'n rhaid iddynt ymfudo yn eu miliynau ar draws Ewrop ym 1945. Dyna pam mae'n bwysig ein bod yn sicrhau bod y cyllid ar gael—ac mae'n ymddangos, gan Lywodraeth y DU, ei fod yn cael ei roi ar gael i helpu pobl i adsefydlu—a hefyd, wrth gwrs, i wneud yn siŵr y gall pobl adsefydlu, ac yna, wrth gwrs, chwarae rhan lawn yn y gymdeithas y maen nhw'n ymuno â hi. Rydym ni'n gwybod yn iawn mai profiad pobl sy'n ffoaduriaid yw eu bod yn dod i le, eu bod yn hapus gyda'r heddwch a'r diogelwch y mae'r lle hwnnw'n eu cynnig iddynt, a'u bod yn aelodau brwdfrydig o gymdeithas o ganlyniad.

13:58 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

First Minister, people in Newport—as with people elsewhere—are greatly moved by the tragedies befalling refugees, which they obviously see on the television and in photographs in our newspapers. They understand that we are very fortunate to live in stability, security and relative prosperity. Constituents have contacted me to ask whether any guidance will be provided as to the practical help that they can provide as individuals and as communities when people come from Syria and elsewhere. I'd be very grateful if you could give me an indication as to whether that information will be presented to them.

Brif Weinidog, mae pobl yng Nghasnewydd—fel pobl mewn mannau eraill—yn cael eu heffeithio'n fawr gan y trychinebau sy'n wynebu'r ffoaduriaid, y maen nhw'n amlwg yn eu gweld ar y teledu ac mewn ffotograffau yn ein papurau newydd. Maen nhw'n deall ein bod yn ffodus iawn o fod yn byw mewn sefydlogrwydd, diogelwch a ffyniant cymharol. Mae etholwyr wedi cysylltu â mi i ofyn a fydd unrhyw ganllawiau'n cael eu darparu o ran y cymorth ymarferol y gallant ei gynnig fel unigolion ac fel cymunedau pan fydd pobl yn dod o Syria a mannau eraill. Byddwn yn ddiolchgar iawn pe gallech roi syniad i mi ynghylch pa un a fydd y wybodaeth honno'n cael ei rhoi iddynt.

13:59 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

I thank the Member for his question. It is something that we're considering, and one of the issues, of course, no doubt, we will explore at the summit on Thursday. I think it's worth emphasising—I've said this before, but I'll say it again within this Chamber—that every single person who lives upon this island is the descendant of an immigrant. It's all a question of when our families came. Where's the cut-off date? Is it after the Romans left, 1066, 1485? Is it after the end of the civil war? Is it after the end of the first world war or the end of the second world war? I mean, where is the cut-off date? At the end of the day, everybody on this island is actually descended from somebody who came here from somewhere else. We should remember that in the reflections that we have in terms of the plight of the people that we see across eastern Europe.

Diolch i'r Aelod am ei gwestiwn. Mae'n rhywbeth yr ydym yn ei ystyried, ac un o'r materion, wrth gwrs, yn ddiau, y byddwn yn eu hystyried yn yr uwchgynhadledd ddydd Iau. Rwy'n credu ei bod yn werth pwysleisio—rwyf wedi dweud hyn o'r blaen, ond rwyf am ei ddweud eto yn y Siambr hon—fod pawb sy'n byw ar yr ynys hon yn ddisgynyddion mewnfudwr. Mae'r cwbl yn gwestiwn o bryd y daeth ein teuluoedd. Beth yw'r dyddiad terfyn? A yw ar ôl i'r Rhufeiniaid adael, 1066, 1485? A yw ar ôl diwedd y rhyfel cartref? A yw ar ôl diwedd y rhyfel byd cyntaf neu ddiwedd yr ail ryfel byd? Hynny yw, beth yw'r dyddiad terfyn? Yn y pen draw, mae pawb ar yr ynys hon yn ddisgynnydd rhywun a ddaeth yma o rywle arall. Dylem ni gofio hynny yn ystod ein myfyrdodau o ran tynged y bobl a welwn ar draws dwyrain Ewrop.

14:00 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, as Wales moves to offer sanctuary to our share of Syrian refugees, do you agree with me that health boards across Wales have a crucial role to play in the contingency planning? In particular, what support are you prepared to make available to Welsh health boards, notably in parts of rural Wales, to ensure that they are well equipped to deal with the specific health needs of families and individuals, many of whom are fleeing unimaginable trauma in the journey that they've made?

Brif Weinidog, wrth i Gymru gymryd camau i gynnig lloches i'n cyfran o ffoaduriaid Syria, a ydych hi'n cytuno â mi fod gan fyrddau iechyd ledled Cymru ran allweddol i'w chwarae yn y gwaith o gynllunio wrth gefn? Yn arbennig, pa gymorth ydych chi'n barod i'w roi ar gael i fyrddau iechyd Cymru, yn enwedig mewn rhannau o Gymru wledig, i sicrhau eu bod wedi'u paratoi'n dda i ymdrin ag anghenion iechyd penodol teuluoedd ac unigolion, pan fo llawer ohonynt yn ffoi rhag trawma annirnadwy yn y daith y maen nhw wedi ei gwneud?

14:00 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for the question. That's part of the process that we will be going through on Thursday. The first thing we have to do is to make an assessment—having listened to our partners around the table—of what needs to be done, what the challenges are and what the cost is; inevitably, that has to be looked at as well. Once that assessment is made, of course, we can then move forward. I can say, Llywydd, to Members that there will be a statement issued after the summit on Thursday, and I will of course ensure that Members are updated from the summit and beyond in terms of what we are doing as a Government, what we have done with others who are public authorities and, indeed, what is being done in terms of working with the UK Government.

Diolch i'r Aelod am y cwestiwn. Mae hynny'n rhan o'r broses y byddwn yn mynd drwyddi ddydd Iau. Y peth cyntaf y mae'n rhaid i ni ei wneud yw gwneud asesiad—ar ôl gwrando ar ein partneriaid o gwmpas y bwrdd—o'r hyn sydd angen ei wneud, beth yw'r heriau a beth yw'r gost; mae'n rhaid ystyried hynny hefyd, yn anochel. Ar ôl i'r asesiad hwnnw gael ei wneud, wrth gwrs, gallwn symud ymlaen wedyn. Gallaf ddweud, Lywydd, wrth yr Aelodau y bydd datganiad yn cael ei gyhoeddi ar ôl yr uwchgynhadledd ddydd Iau, a byddaf wrth gwrs yn sicrhau bod Aelodau'n cael eu diweddaru o'r uwchgynhadledd a thu hwnt o ran yr hyn yr ydym ni'n ei wneud fel Llywodraeth, yr hyn yr ydym ni wedi ei wneud gydag eraill sy'n awdurdodau cyhoeddus ac, yn wir, yr hyn sy'n cael ei wneud o ran gweithio gyda Llywodraeth y DU.

14:01 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwy'n croesawu beth mae'r Prif Weinidog wedi'i ddweud ar ran pob un yng Nghymru heddiw, rwy'n meddwl, ynglŷn â rhoi croeso i ffoaduriaid—a ffoaduriaid yw'r bobl hyn. Yn dilyn cwestiwn John Griffiths, rwyf wedi cael llawer o ymholiadau gan etholwyr sydd yn dymuno ac yn deisyfu bod yn help, ac sy'n cynnig help—cynnig llety a chynnig pob math o gymorth. Rŷm ni yn awr yn deall, wrth gwrs, fod canllawiau'r Swyddfa Gartref yn anghywir yn yr hyn y maen nhw'n ei argymell, a'u bod yn cyfeirio pobl at fudiadau nad ydynt mewn sefyllfa i gynorthwyo. Er nad yw'r mater hwn wedi'i ddatganoli, mae'n effeithio ar lety a thai a'r gwasanaeth iechyd ac addysg, sydd i gyd wedi'u datganoli ac yn nwylo'r Llywodraeth. Felly, a wnewch chi ychwanegu—yn sicr yn sgil yr uwchgynhadledd y byddwch yn ei chynnal ddydd Iau—yr hyn y mae Llywodraeth Cymru'n mynd i'w wneud i sicrhau bod y ddarpariaeth yn ei lle, a bod y ddarpariaeth honno yn ddarpariaeth Gymraeg—croeso Cymraeg sydd yn gydnaws â ni fel cenedl? Rydym am groesawu'r bobl hyn i'n cenedl ac i'n plith, fel sydd wedi digwydd yn y gorffennol, fel yr ydych chi wedi'i ddweud, ond mae angen i hynny gael ei weithredu ar lefel leol ac ar y cyd gydag awdurdodau lleol hefyd. Rwy'n ofni nad yw'r Llywodraeth Brydeinig, ar hyn o bryd, wedi ystyried yn llwyr yr effaith ar gymunedau a'r ffordd y gallwn adeiladu ar y dyngarwch y mae ein pobl ni yn ei ddangos ar hyn o bryd.

Thank you, Presiding Officer. I welcome what the First Minister has said on behalf of everyone in Wales today, I think, in terms of welcoming refugees—and these people are refugees. Following on from John Griffiths's question, I've received a number of inquiries from constituents who do want to help, and who offer help—offer accommodation and assistance of all kinds. We now understand, of course, that the Home Office guidelines are incorrect in their recommendations and refer people to organisations that aren't in a position to assist them. Although this issue is non-devolved, it impacts on accommodation and housing, the health service and education, which are all devolved and are the Government's responsibility. So, will you include—certainly in light of the summit that you are to hold on Thursday—what the Welsh Government is going to do to ensure that that provision is in place and that it's Welsh provision—a Welsh welcome that is in keeping with us as a nation? We want to welcome these people to our midst, as has happened in the past, as you have already said, but that needs to work at a local level and jointly with local authorities, too. I fear that the UK Government, at present, hasn't fully taken into account the impact on communities and how we can build on the humanitarianism that people are displaying at present.

14:02 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Rwy'n siŵr y byddwn yn trafod hynny ddydd Iau. Ynglŷn â'r canllawiau eu hunain, gyda'r Swyddfa Gartref, beth sy'n digwydd weithiau yw eu bod yn rhoi manylion i bobl ac yn cyfeirio pobl at gyrff nad ydynt yn bodoli yng Nghymru. Rydym wedi gweld hyn o'r blaen sawl gwaith. Wedyn, rŷm ni wedyn yn gorfod sicrhau bod y camgymeriadau hynny'n cael eu datrys. Byddaf yn ystyried hynny ddydd Iau, wrth gwrs, achos ei bod hi'n bwysig dros ben bod unrhyw ganllawiau sydd ar gael yn berthnasol i Gymru a'r strwythurau sydd gennym yng Nghymru.

I'm sure that we will discuss that on Thursday. As regards the guidelines themselves, with the Home Office, what sometimes happens is that they issue the information and the details to people and they refer people to bodies that do not exist in Wales. We've seen this many times before. Then, we have to ensure that those errors are resolved. I will consider this on Thursday, of course, because it's exceptionally important that any guidelines available are relevant to Wales and our Welsh structures.

14:03 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I'm pleased to join the First Minister in welcoming the fact that the UK Government has dedicated £1 billion of the UK's international aid budget to councils across the UK. The Welsh Local Government Association has written to you, First Minister, calling for the launch of a national taskforce. What discussions have you had with the UK Government in regard to the £1 billion? Also, how are you taking forward the request by the WLGA as regards the taskforce?

Wel, rwy'n falch o ymuno â'r Prif Weinidog i groesawu'r ffaith bod Llywodraeth y DU wedi neilltuo £1 biliwn o gyllideb cymorth rhyngwladol y DU i gynghorau ledled y DU. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi ysgrifennu atoch chi, Brif Weinidog, yn galw am lansio tasglu cenedlaethol. Pa drafodaethau ydych chi wedi eu cael gyda Llywodraeth y DU ar yr £1 biliwn? Hefyd, sut ydych chi'n bwrw ymlaen â'r cais gan CLlLC o ran y tasglu?

14:03 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

It's on Thursday. The whole point is that, in response to the WLGA—or partially as a response to the WLGA's viewpoint—the summit on Thursday is being convened in order to involve the WLGA. I'm grateful to her for the confirmation that the £1 billion from the UK Government will be spent to resettle refugees, because we haven't had that confirmation, I have to say. What is wholly unclear is whether the money that's being allocated is for people who are already in camps in other countries in order for them to remain there, or whether the money is going to be made available to resettle people within the UK. Now, if she's saying that it is that, I welcome that. But, certainly, that's not something that we've had confirmed at all by the UK Government.

Dydd Iau fydd hi. Yr holl bwynt, mewn ymateb i CLlLC—neu'n rhannol fel ymateb i safbwynt CLlLC—yw bod yr uwchgynhadledd ddydd Iau wedi'i threfnu er mwyn cynnwys CLlLC. Rwy'n ddiolchgar iddi am y cadarnhad y bydd £1 biliwn yn cael ei wario gan Lywodraeth y DU i adsefydlu ffoaduriaid, gan nad ydym ni wedi cael y cadarnhad hwnnw, mae'n rhaid i mi ddweud. Yr hyn sy'n gwbl aneglur yw a yw'r arian sy'n cael ei ddyrannu ar gyfer pobl sydd eisoes mewn gwersylloedd mewn gwledydd eraill er mwyn iddyn nhw aros yno, neu a yw'r arian yn mynd i fod ar gael i adsefydlu pobl o fewn y DU. Nawr, os yw hi'n dweud mai hynny yw'r gwir, rwy'n croesawu hynny. Ond, yn sicr, nid yw hynny'n rhywbeth y mae Llywodraeth y DU wedi ei gadarnhau i ni o gwbl.

14:04 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, following on from Simon Thomas's point, I, too, have had a number of people come to me and say that they would like to offer accommodation to refugees but they don't really know where to go. Perhaps on Thursday, might you consider establishing a centralised Welsh Government database that people can register with to offer a place to a refugee here in Wales?

Brif Weinidog, yn dilyn ymlaen o bwynt Simon Thomas, rwyf innau hefyd wedi cael nifer o bobl yn dod ataf ac yn dweud yr hoffent gynnig llety i ffoaduriaid ond nad ydyn nhw wir yn gwybod ble i fynd. A wnewch chi ddydd Iau, efallai, ystyried sefydlu cronfa ddata ganolog Llywodraeth Cymru y gall pobl gofrestru arni i gynnig lle i ffoadur yma yng Nghymru?

14:04 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I think that's an interesting idea and I thank the Member for it. Again, that is something that we should consider as part of Thursday's deliberations. It is right to say that many people have offered accommodation to refugees—she is quite right—and it's important, of course, to make sure that they know how to go about doing that. So, I will take that into consideration for Thursday.

Rwy'n credu bod hwnnw'n syniad diddorol a diolchaf i'r Aelod amdano. Unwaith eto, mae hynny'n rhywbeth y dylem ni ei ystyried yn rhan o drafodaethau dydd Iau. Mae'n iawn i ddweud bod llawer o bobl wedi cynnig llety i ffoaduriaid—mae hi yn llygad ei lle—ac mae'n bwysig, wrth gwrs, gwneud yn siŵr eu bod yn gwybod sut i fynd ati i wneud hynny. Felly, byddaf yn cymryd hynny i ystyriaeth ar gyfer dydd Iau.

14:05 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I just wanted to clarify what aid, if any, the UK Government is prepared to offer to enable us to give the warmest possible welcome to refugees, so that we can ensure that they get the health services and the schools that they need on arrival. We have nothing to fear from refugees, because some of the most talented people in this country originally came as refugees after, during or before the second world war. But, the UK Government has not contributed so far to the refugees who have been brought centrally to my constituency. Those services are having to be funded out of other Welsh Government money, and I wondered if there's any indication that that will change.

Hoffwn eglurhad o ba gymorth, os o gwbl, y mae Llywodraeth y DU yn barod i'w gynnig i'n galluogi ni i roi'r croeso cynhesaf posibl i ffoaduriaid, fel y gallwn sicrhau eu bod yn cael y gwasanaethau iechyd a'r ysgolion sydd eu hangen arnynt pan fyddant yn cyrraedd. Nid oes gennym ddim i'w ofni gan ffoaduriaid, gan fod rhai o'r bobl fwyaf dawnus yn y wlad hon wedi dod fel ffoaduriaid yn wreiddiol ar ôl, yn ystod neu cyn yr ail ryfel byd. Ond, hyd yn hyn, nid yw Llywodraeth y DU wedi cyfrannu at y ffoaduriaid y daethpwyd â nhw'n ganolog i'm hetholaeth i. Mae'r gwasanaethau hynny yn gorfod cael eu hariannu allan o gyllid arall Llywodraeth Cymru, ac roeddwn i'n meddwl tybed a oes unrhyw arwydd y bydd hynny'n newid.

14:06 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, short of the declaration that the UK Government will provide a sum of money to assist refugees—nothing. As I say, we don't know whether that money is to assist those already in refugee camps, in Lebanon in particular, where one in four of the population of Lebanon is in a refugee camp now. There are over 600 refugees in Jordan, as well. We don't know whether the money is going to be—. I mean, we saw the Prime Minister visiting these camps yesterday; he didn't make it clear: is the money there to pay for people to stay in those camps, or is the money there, in whole or in part, to help to resettle people in the UK? We don't know that. At the moment, we've not had full confirmation of that. If it is the case that there will be money made available to resettle people in the UK, we welcome that. The money will, of course, be made available for the purpose that it was intended in that regard, but we don't yet have that clarity. Again, it's because the UK Government has not been swift in the response that it has offered to the crisis that has been going on over the past few weeks.

Wel, heblaw am y datganiad y bydd Llywodraeth y DU yn darparu swm o arian i gynorthwyo ffoaduriaid—dim byd. Fel rwy'n dweud, nid ydym yn gwybod a yw'r arian hwnnw i gynorthwyo'r rhai sydd eisoes mewn gwersylloedd ffoaduriaid, yn Libanus yn arbennig, lle mae un o bob pedwar o boblogaeth Libanus mewn gwersyll ffoaduriaid erbyn hyn. Mae dros 600 o ffoaduriaid yng Ngwlad yr Iorddonen hefyd. Nid ydym yn gwybod a yw'r arian yn mynd i fod—. Hynny yw, gwelsom y Prif Weinidog yn ymweld â'r gwersylloedd hyn ddoe; ni wnaeth hi'n eglur: a yw'r arian yno i dalu i bobl aros yn y gwersylloedd hynny, neu a yw'r arian yno, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, er mwyn helpu i adsefydlu pobl yn y DU? Nid ydym yn gwybod hynny. Ar hyn o bryd, nid ydym wedi cael cadarnhad llawn o hynny. Os yw'n wir y bydd arian ar gael i adsefydlu pobl yn y DU, rydym ni'n croesawu hynny. Bydd yr arian, wrth gwrs, yn cael ei roi ar gael at y diben y'i bwriadwyd ar ei gyfer yn hynny o beth, ond nid yw'r eglurder gennym hyd yn hyn. Unwaith eto, mae oherwydd nad yw Llywodraeth y DU wedi bod yn gyflym yn yr ymateb y mae wedi ei gynnig i'r argyfwng sydd wedi bod yn digwydd dros yr wythnosau diwethaf.

14:07 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch i chi am eich arweinyddiaeth ar y mater pwysig hwn, Brif Weinidog. A wnaiff yr uwchgynhadledd ddydd Iau gymeradwyo rôl y sector wirfoddol yn hyn, ac a fydd y sector yma yn bartner yn y gynhadledd? Rwy'n meddwl, wrth gwrs, am sectorau fel Achub y Plant, Plant yng Nghymru, Barnardo's a'r Red Cross, er enghraifft.

Thank you for your leadership on this most important issue, First Minister. Will Thursday's summit approve the role of the voluntary sector in this regard and will this sector be a partner in the summit? I'm thinking, of course, of sectors such as Save the Children, Children in Wales, Barnardo's and the Red Cross, for example?

14:07 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Wel, mae eu cyfraniad nhw, wrth gwrs, yn hollbwysig. Rŷm ni'n gwybod bod y sector wirfoddol yn gallu rhoi llawer o wasanaethau i bobl ac yn gallu help pobl, felly byddwn i'n erfyn iddyn nhw fod yn rhan o'r cynllun er mwyn helpu pobl i ddod i Gymru.

Well, their contributions are vital, of course. We know that the voluntary sector can help and deliver many services to people, so we wish them to be part of the plan in order to assist people to come to Wales.

14:08 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have no-one else, so we now move on to question 5—Sandy Mewies.

Nid oes gennyf unrhyw un arall, felly symudwn ymlaen at gwestiwn 5—Sandy Mewies.

### Ymweliad â Japan

### Japan Visit

14:08 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*5. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ei ymweliad diweddar â Japan? OAQ(4)2435(FM)*

*5. Will the First Minister make a statement on his recent visit to Japan? OAQ(4)2435(FM)*

14:08 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yes. Could I refer the Member to the statement that was published, I trust, earlier today?

Gwnaf. A gaf i gyfeirio'r Aelod at y datganiad a gyhoeddwyd, gobeithio, yn gynharach heddiw?

14:08 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

You can, and it was. Thank you. The new jobs and investment, which are being created as a result of our links with Japan, are to be welcomed as further evidence of the Welsh Labour Government's initiatives to promote Wales around the world. It helps businesses to grow and our tourism market to expand. Japanese companies clearly have confidence about us here in Wales, but we recognise there are still challenges to the Welsh economy, as drawn out by the Bevan Foundation report recently, because of unprecedented public spending cuts and the deep recession. So, First Minister, what assessment have you made of that report, and would you agree with me that we are developing the skills, the resilience and the competitiveness that will allow us to innovate and to continue growing our economy?

Cewch, a do. Diolch yn fawr. Mae'r swyddi a'r buddsoddiad newydd, sy'n cael eu creu o ganlyniad i'n cysylltiadau â Japan, i'w croesawu fel tystiolaeth bellach o fentrau Llywodraeth Lafur Cymru i hyrwyddo Cymru ledled y byd. Mae'n helpu busnesau i dyfu a'n marchnad dwristiaeth i ehangu. Mae'n amlwg bod gan gwmnïau Japaneaidd hyder ynom ni yma yng Nghymru, ond rydym ni'n cydnabod bod heriau o hyd i economi Cymru, fel y nodwyd gan adroddiad Sefydliad Bevan yn ddiweddar, oherwydd toriadau i wariant cyhoeddus digynsail a'r dirwasgiad dwfn. Felly, Brif Weinidog, pa asesiad ydych chi wedi ei wneud o'r adroddiad hwnnw, ac a fyddech chi'n cytuno â mi ein bod yn datblygu'r sgiliau, y cydnerthedd a'r natur gystadleuol a fydd yn ein galluogi i arloesi ac i barhau i dyfu ein heconomi?

14:09 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Well, I'm aware of the Bevan Foundation report. Two things: first of all, the Japanese economy is now looking more, I suspect, than it has for the past decade at overseas investment in a way that hasn't really happened in that decade. And it's something that, when I met with companies like Hitachi and Sony and Toyota, was made clear to me—Panasonic—that they are now looking more than they have in recent years at investment, and Wales is well placed to benefit from that investment. We saw, of course, the announcement with Sony.

Wel, rwy'n ymwybodol o adroddiad Sefydliad Bevan. Dau beth: yn gyntaf oll, mae economi Japan yn edrych mwy erbyn hyn, rwy'n amau, nag y mae wedi ei wneud ers y degawd diwethaf ar fuddsoddiad tramor mewn ffordd nad yw wir wedi digwydd yn ystod y degawd hwnnw. Ac mae'n rhywbeth, pan gyfarfûm â chwmnïau fel Hitachi a Sony a Toyota, a wnaed yn eglur i mi—Panasonic—eu bod nhw'n edrych mwy nawr nag y maen nhw wedi bod yn ei wneud yn y blynyddoedd diwethaf ar fuddsoddi, ac mae Cymru mewn sefyllfa dda i elwa ar y buddsoddiad hwnnw. Gwelsom, wrth gwrs, y cyhoeddiad gyda Sony.

Skills are everything—absolutely everything. There was a time in Wales—the late 1980s, early 1990s—when investment policy, or investment strategy was based on bringing companies to Wales on the basis that our pay rates were lower than anywhere else in western Europe. Now, that disappeared in the late 1980s when the iron curtain came down, and companies that were pursuing low labour costs were just disappearing around the world. And we need not compete in that market anyway. What we want is to make sure that our people have the skills that investors require. There are two questions I'm always asked by investors: (a) EU membership, and (b) 'Do you have the skills flow that we need in order to be sustainable and successful within Wales?' Of course, increasingly the answer to that is 'yes'. We can point them, often, to companies like themselves who are already succeeding in Wales, and that's why, of course, we've made such a heavy investment in apprenticeships and in schemes such as Jobs Growth Wales.

Sgiliau yw popeth—popeth. Bu amser yng Nghymru—diwedd y 1980au, dechrau'r 1990au—pan roedd polisi buddsoddi, neu strategaeth fuddsoddi yn seiliedig ar ddod â chwmnïau i Gymru ar y sail bod ein cyfraddau cyflog yn is nag yn unman arall yng ngorllewin Ewrop. Nawr, diflannodd hynny ddiwedd y 1980au pan ddaeth y llen haearn i lawr, ac roedd cwmnïau a oedd yn mynd ar drywydd costau llafur isel yn diflannu o amgylch y byd. Ac nid oes angen i ni gystadlu yn y farchnad honno beth bynnag. Yr hyn yr ydym ni ei eisiau yw gwneud yn siŵr bod ein pobl yn meddu ar y sgiliau sydd eu hangen ar fuddsoddwyr. Ceir dau gwestiwn y mae buddsoddwyd bob amser yn eu gofyn i mi: (a) aelodaeth o'r UE, a (b) 'A oes gennych chi'r llif sgiliau sydd ei angen arnom ni i fod yn gynaliadwy ac yn llwyddiannus yng Nghymru?' Wrth gwrs, yr ateb i hynny'n gynyddol yw 'oes'. Gallwn eu cyfeirio'n aml at gwmnïau fel nhw eu hunain sydd eisoes yn llwyddo yng Nghymru, a dyna pam, wrth gwrs, yr ydym ni wedi gwneud buddsoddiad mor fawr mewn prentisiaethau ac mewn cynlluniau fel Twf Swyddi Cymru.

14:10 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Noting what you say, First Minister, you will know that it is nearly 45 years since Sony made their first major investment in Europe, in Wales. I know that the UK Foreign Secretary visited Japan just a few weeks after you. Were you and his departments variously able to co-ordinate to make sure that Wales is the destination of choice for Japanese investment?

Gan nodi'r hyn a ddywedwch, Brif Weinidog, byddwch yn gwybod ei bod yn bron i 45 mlynedd ers i Sony wneud ei fuddsoddiad mawr cyntaf yn Ewrop, yng Nghymru. Gwn fod Ysgrifennydd Tramor y DU wedi ymweld â Japan dim ond ychydig wythnosau ar eich ôl chi. A oedd eich adrannau chi ac yntau'n gallu cydgysylltu i sicrhau mai Cymru yw'r cyrchfan o ddewis ar gyfer buddsoddiad o Japan?

14:10 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Well, it's not the Foreign Secretary, really, who is the person who we co-ordinate with; it will be UK Trade and Investment, particularly, and the embassies. I have to say that the support we get from British embassies abroad is exemplary. The working relationship with UKTI is good. We are looking to base our Japanese office in the embassy, but there is an issue regarding the rent the Foreign and Commonwealth Office wants to charge at the moment, but, of course, elsewhere around the world we've done just that. There's perfect sense in doing that. So, we do work with UK Government agencies such as UKTI, and we do receive significant support from embassies abroad.

Wel, nid yr Ysgrifennydd Tramor, mewn gwirionedd, yw'r person rydym ni'n cydgysylltu ag ef; Masnach a Buddsoddi'r DU fydd hi, yn benodol, a'r llysgenadaethau. Rhaid i mi ddweud bod y cymorth rydym ni'n ei gael gan lysgenadaethau Prydain dramor yn ardderchog. Mae'r berthynas waith gydag UKTI yn dda. Rydym ni'n bwriadu lleoli ein swyddfa Japaneaidd yn y llysgenhadaeth, ond mae problem ynghylch y rhent y mae'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad eisiau ei godi ar hyn o bryd, ond, wrth gwrs, mewn mannau eraill o gwmpas y byd, rydym ni wedi gwneud yn union hynny. Mae'n gwneud synnwyr perffaith i wneud hynny. Felly, rydym ni'n gweithio gydag asiantaethau Llywodraeth y DU, fel UKTI, ac rydym ni'n derbyn cefnogaeth sylweddol gan lysgenadaethau tramor.

14:11 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mae'ch datganiad ysgrifenedig y bore yma yn cyfeirio at nifer o fuddsoddiadau sylweddol a phwysig yng Nghymru sydd wedi deillio o Japan, ac rŷch chi newydd gydnabod un o'r rhesymau dros y buddsoddiadau hynny—sgiliau, ie—ond y rheswm arall yw ein bod ar garreg drws yr Undeb Ewropeaidd, ac mae aelodaeth yr undeb honno yn hanfodol bwysig i Gymru. A wnewch chi gadarnhau eto, felly, a fyddech chi'n ymgyrchu gyda fi a phobl eraill i gadw Cymru yn rhan o'r undeb honno, beth bynnag y dywed eich arweinydd newydd chi?

Your written statement made reference to a number of significant and important investments in Wales that have emerged from Japan, and you've just recognised one of the reasons for those investments—skills, yes—but the other reason is that we're on the doorstep of the EU, and membership of the European Union is crucially important to Wales. Will you confirm again, therefore, that you will campaign with me and others to ensure that Wales remains within that union, whatever your new leader may say?

14:12 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Gwnaf. Nid yw'n mynd i newid fy safbwynt i. Mae'n haelodaeth ni o'r undeb Ewropeaidd yn hollbwysig i iechyd economaidd Cymru yn y pen draw.

Yes, I will. It won't change my stance. Our membership of the European Union is vital to the economic health of Wales.

14:12 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Question 6 was grouped with question 4, so we now move to question 7, which is from Lynne Neagle.

Grwpiwyd cwestiwn 6 gyda chwestiwn 4, felly symudwn at gwestiwn 7 nawr, sy'n dod gan Lynne Neagle.

### Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain

### Twenty-first Century Schools

14:12 **Lynne Neagle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*7. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am raglen Ysgolion y 21ain Ganrif? OAQ(4)2427(FM)*

*7. Will the First Minister make a statement on the 21st Century Schools programme? OAQ(4)2427(FM)*

14:12 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yes. Our £1.4 billion investment in this programme is benefiting over 150 schools in 22 local authority areas across Wales. In the second year of a five-year programme, final approval has already been given for work to go ahead on 77 business cases, representing 51 per cent of the overall programme target.

Gwnaf. Mae ein buddsoddiad o £1.4 biliwn yn y rhaglen hon o fudd i fwy na 150 o ysgolion mewn 22 o ardaloedd awdurdodau lleol ledled Cymru. Yn yr ail flwyddyn o raglen bum mlynedd, rhoddwyd cymeradwyaeth derfynol eisoes i waith fynd yn ei flaen ar 77 achos busnes, sy’n cynrychioli 51 y cant o darged cyffredinol y rhaglen.

14:12 **Lynne Neagle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, First Minister. I’m delighted that the programme remains on track. Since the launch of the programme in 2010, Torfaen County Borough Council have worked assiduously to secure funding, implement changes and to take forward the programme. Although these changes have not come without their own challenges, the council have successfully delivered elements of the plan, and children in Torfaen are already benefitting. Indeed, building work for three new primary schools is due to commence later this month, and they will hopefully be ready to open in time for September 2016. First Minister, will you join me in commending the work that Torfaen council have undertaken on this programme, and what assurances can you offer that they will continue to have support from the Welsh Government to take forward this excellent initiative?

Diolch yn fawr, Brif Weinidog. Rwy’n falch iawn fod y rhaglen yn parhau i fod ar y trywydd iawn. Ers lansio'r rhaglen yn 2010, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen wedi gweithio'n ddiwyd i sicrhau cyllid, i wneud newidiadau ac i fwrw ymlaen â'r rhaglen. Er nad yw'r newidiadau hyn wedi dod heb eu heriau eu hunain, mae'r cyngor wedi cyflwyno elfennau o'r cynllun yn llwyddiannus, ac mae plant yn Nhorfaen eisoes yn elwa. Yn wir, disgwylir i waith adeiladu ar gyfer tair ysgol gynradd newydd ddechrau yn ddiweddarach y mis hwn, a’r gobaith yw y byddant yn barod i agor ar gyfer Medi 2016. Brif Weinidog, a wnewch chi ymuno â mi i ganmol y gwaith y mae cyngor Torfaen wedi ei wneud ar y rhaglen hon, a pha sicrwydd allwch chi ei gynnig y bydd yn parhau i gael cefnogaeth gan Lywodraeth Cymru i fwrw ymlaen â’r fenter ardderchog hon?

14:13 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yes, that support will remain, of course. We know that Torfaen’s approved strategic programme will see an investment of £81.6 million, with Welsh Government contributing over £40 million. The Member of course will be aware of the projects that have been approved to date—the biggest school-building programme for many, many decades; there is no question about that. I’m glad the children of Torfaen are benefitting from the work that’s been put in by Torfaen council and, of course, the funding that we are making available.

Bydd, mi fydd y gefnogaeth honno’n parhau, wrth gwrs. Rydym ni’n gwybod y bydd buddsoddiad o £81.6 miliwn yn rhaglen strategol gymeradwy Torfaen, ac y bydd Llywodraeth Cymru yn cyfrannu dros £40 miliwn. Bydd yr Aelod yn ymwybodol, wrth gwrs, o'r prosiectau sydd wedi cael eu cymeradwyo hyd yn hyn—y rhaglen adeiladu ysgolion fwyaf ers degawdau lawer; nid oes amheuaeth am hynny. Rwy'n falch bod plant Torfaen yn elwa ar y gwaith a wnaed gan gyngor Torfaen ac, wrth gwrs, y cyllid rydym ni’n ei roi ar gael.

14:13 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, I’m sure you will agree with me that the brand-new Raglan Church in Wales primary school in my constituency, which has been part-funded by the twenty-first century schools programme, is an excellent example of the Welsh Government working in partnership with a well-run local authority. Isn’t it now time you reconsidered the latest ill-thought-out local government reorganisation plans and allowed councils like Monmouthshire County Council to get on with the job of building first-class new schools for its young people without interference in the structure of local government that would harm that process?

Brif Weinidog, rwy'n siŵr y byddwch yn cytuno â mi bod ysgol gynradd Eglwys yng Nghymru newydd sbon Rhaglan yn fy etholaeth i, a ariannwyd yn rhannol gan raglen ysgolion yr unfed ganrif ar hugain, yn enghraifft wych o Lywodraeth Cymru yn gweithio mewn partneriaeth ag awdurdod lleol sy’n cael ei redeg yn dda. Onid yw'n bryd nawr i chi ailystyried y cynlluniau ad-drefnu llywodraeth leol gwael diweddaraf a chaniatáu i gynghorau fel Cyngor Sir Fynwy i barhau â’r gwaith o adeiladu ysgolion newydd o'r radd flaenaf ar gyfer ei bobl ifanc heb ymyrraeth yn y strwythur llywodraeth leol a fyddai'n niweidio'r broses honno?

14:14 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Why is Monmouthshire council in special measures for education? That's not the strongest position to ask a question—regarding the only local authority in Wales that is run by the Conservatives, and it's in special measures for education. I welcome the fact the school's been built, but I would remind the Member—he was generous enough, at the beginning of his question, to thank the Welsh Government for its investment. He cleverly turned it into a question on local government reorganisation. But, I would remind him, of course, that England doesn't have a school building programme. So, Raglan, if it had been in England, wouldn't have had a new school at all.

Pam mae cyngor Sir Fynwy yn destun mesurau arbennig ar gyfer addysg? Nid dyna'r sefyllfa gryfaf i ofyn cwestiwn—am yr unig awdurdod lleol yng Nghymru sy'n cael ei redeg gan y Ceidwadwyr, ac mae'n destun mesurau arbennig ar gyfer addysg. Rwy'n croesawu'r ffaith fod yr ysgol wedi cael ei hadeiladu, ond byddwn yn atgoffa'r Aelod—roedd yn ddigon hael ar ddechrau ei gwestiwn, i ddiolch i Lywodraeth Cymru am ei buddsoddiad. Fe'i trodd yn fedrus yn gwestiwn am ad-drefnu llywodraeth leol. Ond, byddwn yn ei atgoffa, wrth gwrs, nad oes gan Loegr raglen adeiladu ysgolion. Felly, ni fyddai Rhaglan, pe byddai yn Lloegr, wedi cael ysgol newydd o gwbl.

14:15 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Brif Weinidog, er bod pob un ohonom ni efo esiamplau o ysgolion newydd yn cael eu hadeiladu, rwy'n meddwl bod yn rhaid cywiro Lynne Neagle: mae'r rhaglen, wrth gwrs, lawer iawn ar ei hôl hi o ran y bwriad gwreiddiol. Wrth feddwl am yr adolygiad yn ystod yr hydref, lle mae'n debyg bod yr arian sydd ar gael i Lywodraeth Cymru yn mynd I brinhau unwaith eto, a ydyw'n fwriad gennych I ehangu'r cynllun, wrth ystyried bod y Gweinidog cyllid wedi dweud y llynedd, ym mis Tachwedd, fod arian preifat yn cael ei roi I mewn i'r cynllun yn rhan 2, sydd I ddechrau yn 2019?

First Minister, although each of us will have examples of new schools being built, I do think that I must correct Lynne Neagle: the programme, of course, is slipping way behind in terms of the original intentions. In considering the review during the autumn, where it seems that the funding available to the Welsh Government will decrease once again, is it your intention to expand the programme, given that the finance Minister said in November of last year that private monies will be invested in the programme in stage 2, which is commencing in 2019?

14:15 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yn gyntaf, mae'r Aelod yn dweud bod y rhaglen y tu ôl iddi—nid ydyw o gwbl. Mae hon yn rhaglen pum mlynedd. Rydym yn yr ail flwyddyn ac mae mwy na hanner y rhaglen wedi cael ei chwblhau yn barod. Felly, nid wyf yn gweld ein bod y tu ôl iddi. Nid ydym yn erfyn cwblhau'r rhaglen mewn dwy flynedd—rhaglen sydd yn bum mlynedd. Wrth gwrs, mae'n wir i ddweud ein bod yn aros i weld beth fydd y setliad cyllidol o Lywodraeth y Deyrnas Unedig. Nid ydym yn optimistaidd iawn ynglŷn â beth fydd hynny'n meddwl, ond, rydym ni fel Llywodraeth yn wado ymlaen gyda'r cynllun fel y mae er mwyn sicrhau bod mwy a mwy o blant yng Nghymru yn cael yr ysgolion maen nhw'n eu haeddu.

First of all, the Member states that the programme is behind schedule—it's not at all. It's a five-year programme. We're in year two and more than half of the programme has already been completed. So, I don't see that we're behind schedule. We don't aim to complete in two years what is a five-year programme. Of course, it's true to say that we await to see the financial settlement from the UK Government. We're not very optimistic as regards what that will entail, but we, as a Government, are proceeding with the scheme as it stands to ensure that more and more children in Wales have these excellent schools.

14:16 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, First Minister.

Diolch yn fawr, Brif Weinidog.

14:16

## 2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 2. Business Statement and Announcement

Senedd.tv Fideo Video

**Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

We now move to item 2, which is the business statement and announcement. I call on the Minister for Finance and Government Business, Jane Hutt.

Symudwn at eitem 2 nawr, sef y datganiad a chyhoeddiad busnes. Galwaf ar y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth, Jane Hutt.

14:16 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business*

Llywydd, there are several changes to report to the business statement for this week. The Deputy Minister for Health will be making a statement on the new clinical response model for emergency ambulance services; the Minister for Public Services will be making a statement on the public service workforce; and the Minister for Communities and Tackling Poverty will be making a statement on housing and ageing population.

Lywydd, mae nifer o newidiadau i'w hadrodd i'r datganiad busnes ar gyfer yr wythnos hon. Bydd y Dirprwy Weinidog Iechyd yn gwneud datganiad ar y model ymateb clinigol newydd ar gyfer gwasanaethau ambiwlans brys; bydd y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus yn gwneud datganiad ar weithlu'r gwasanaethau cyhoeddus; a bydd y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi yn gwneud datganiad ar dai a phoblogaeth sy'n heneiddio.

Senedd.tv Fideo Video

14:17 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Leader of the house, could we have two statements, please? I asked just before the summer recess if there could be an update on developments around the Five Mile Lane in the Vale of Glamorgan. To date, I do not believe that that update has been forthcoming. This is a project that the Welsh Government have allocated significant funds for —£25 million. It has been a long time in the planning, yet little or no progress seems to be coming forward to start the project. Can we have an update so that we can either know this project will be undertaken before the Assembly election, or is it now firmly on the backburner, through the disagreements with the Vale of Glamorgan Council and the Welsh Government?

Arweinydd y tŷ, a allem ni gael dau ddatganiad, os gwelwch yn dda? Gofynnais ychydig cyn toriad yr haf pe gellid cael y newyddion diweddaraf am ddatblygiadau ar Five Mile Lane ym Mro Morgannwg. Hyd yn hyn, nid wyf yn credu bod y diweddariad hwnnw wedi ei roi. Mae hwn yn brosiect y mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu arian sylweddol ar ei gyfer—£25 miliwn. Mae wedi bod yn cael ei gynllunio ers amser maith, ac eto mae'n ymddangos mai ychydig neu nad oes dim cynnydd yn cael ei wneud i ddechrau'r prosiect. A allwn ni gael y wybodaeth ddiweddaraf fel y gallwn naill ai wybod y bydd y prosiect hwn yn cael ei gyflawni cyn etholiad y Cynulliad, neu a yw wedi'i ohirio'n bendant erbyn hyn, oherwydd yr anghytuno â Chyngor Bro Morgannwg a Llywodraeth Cymru?

Secondly, could we have a statement from the Minister of health in relation to what support he is offering the Cwm Taf Local Health Board in relation to GP out-of-hours provision in the Cwm Taf area? Yesterday, the health board announced that they were withdrawing services from two community hospitals and concentrating at the Royal Glamorgan Hospital, through a lack of doctors able to fill the rotas. This is a perennial issue around many health boards in Wales. I, obviously, have a greater interest in this in my electoral region. To date, the Welsh Government have been very silent on this particular issue. I would welcome a statement from the Minister as to how he is working with the Cwm Taf health board to overcome the shortfalls in doctors, to fill the rotas, so that these GP out-of-hours services can be reinstated.

Yn ail, a gawn ni datganiad gan y Gweinidog iechyd ar ba gefnogaeth y mae'n ei chynnig i Fwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf o ran darpariaeth y tu allan i oriau meddygon teulu yn ardal Cwm Taf? Cyhoeddodd y bwrdd iechyd ddoe ei fod yn tynnu gwasanaethau yn ôl o ddau ysbyty cymuned ac yn canolbwyntio ar Ysbyty Brenhinol Morgannwg, gan fod prinder meddygon a fyddai'n gallu llenwi'r rotas. Mae hon yn broblem barhaus mewn llawer o fyrddau iechyd yng Nghymru. Mae gen i, yn amlwg, fwy o ddiddordeb yn hyn yn fy rhanbarth etholiadol i. Hyd yma, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn dawel iawn ar y mater penodol hwn. Byddwn yn croesawu datganiad gan y Gweinidog o ran sut y mae'n gweithio gyda bwrdd iechyd Cwm Taf i oresgyn y prinder meddygon, i lenwi'r rotas, fel y gellir ailgyflwyno'r gwasanaethau meddyg teulu y tu allan i oriau hyn.

Senedd.tv Fideo Video

14:18 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

As far as your first question is concerned, I know that the Minister for Economy, Science and Transport has been taking this forward in meetings with the Vale of Glamorgan Council and has agreed to update us on progress—that will be shortly forthcoming. Of course, on your second point, this is a matter for the Cwm Taf health board, but I think it's also important to recognise the new GP sustainability framework and also the fact that, in June, we invested £34 million to develop primary care services across Wales in 2015-16, an additional £6 million directly to primary care clusters in Wales. And, of course, this is part of the response from the Welsh Labour Government in order to deliver on these important services.

O ran eich cwestiwn cyntaf, gwn fod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth wedi bod yn bwrw ymlaen â hyn mewn cyfarfodydd gyda Chyngor Bro Morgannwg ac mae wedi cytuno i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am gynnydd—bydd honno'n dod maes o law. Wrth gwrs, o ran eich ail bwynt, mater i fwrdd iechyd Cwm Taf yw hwn, ond rwy'n credu ei bod hefyd yn bwysig cydnabod y fframwaith cynaliadwyedd newydd i feddygon teulu a hefyd y ffaith ein bod, ym mis Mehefin, wedi buddsoddi £34 miliwn i ddatblygu gwasanaethau gofal sylfaenol ledled Cymru yn 2015-16, £6 miliwn ychwanegol yn uniongyrchol i glystyrau gofal sylfaenol yng Nghymru. Ac, wrth gwrs, mae hyn yn rhan o'r ymateb gan Lywodraeth Lafur Cymru er mwyn darparu'r gwasanaethau pwysig hyn.

Senedd.tv Fideo Video

14:19 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, the First Minister issued a written statement on 9 September 2015 on a particularly pernicious piece of anti-working-people legislation—the Trade Union Bill—which was discussed in Westminster yesterday. In that statement, the First Minister makes it clear that he regards it as having the potential to cause significant damage to the social and economic fabric of the UK. He also raises the point, importantly, that it actually undermines, or goes against, the devolved responsibilities of this Assembly, where we have very good practices and working relationships. At the end of his statement, he says that he's keeping Members informed, but that should Members wish for a further statement or for him to answer questions on this when the Assembly returns, he would be happy to do so. Could I ask that we have time made available for an oral debate on the implications for Wales of this particularly awful piece of legislation?

Weinidog, cyhoeddodd y Prif Weinidog ddatganiad ysgrifenedig ar 9 Medi 2015 ar ddarn arbennig o niweidiol o ddeddfwriaeth gwrth-weithwyr—y Bil Undebau Llafur—a drafodwyd yn San Steffan ddoe. Yn y datganiad hwnnw, mae Prif Weinidog Cymru'n ei gwneud yn eglur ei fod o'r farn bod y potensial ganddo i achosi niwed sylweddol i wead cymdeithasol ac economaidd y DU. Mae hefyd yn codi'r pwynt, yn bwysig, ei fod mewn gwirionedd yn tanseilio, neu'n mynd yn groes i gyfrifoldebau datganoledig y Cynulliad hwn, lle mae gennym arferion a pherthnasoedd gwaith da iawn. Ar ddiwedd ei ddatganiad, mae'n dweud ei fod yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau, ond pe byddai Aelodau'n dymuno cael datganiad pellach neu iddo ateb cwestiynau am hyn pan fydd y Cynulliad yn dychwelyd, y byddai'n hapus i wneud hynny. A gaf i ofyn bod amser yn cael ei roi ar gael i ni ar gyfer dadl lafar ar yr oblygiadau i Gymru a achosir gan y darn arbennig o wael hwn o ddeddfwriaeth?

14:20 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for that question. As you say, Mick Antoniw, the First Minister has already issued a written statement and, indeed, a press release was also issued by the First Minister, and he has written to the Prime Minister about this important issue. Of course, there will be an opportunity for debate, I'm sure. It's very interesting, if you look today at the editorial in the 'Financial Times', it actually says,

Diolch i'r Aelod am y cwestiwn yna. Fel y dywedwch, Mick Antoniw, mae'r Prif Weinidog eisoes wedi cyhoeddi datganiad ysgrifenedig ac, yn wir, gwnaed datganiad i'r wasg gan y Prif Weinidog hefyd, ac mae wedi ysgrifennu at Brif Weinidog y DU am y mater pwysig hwn. Wrth gwrs, bydd cyfle i drafod, rwy'n siŵr. Mae'n ddiddorol iawn, os edrychwch chi ar yr erthygl olygyddol yn y 'Financial Times' heddiw, mae'n dweud bod,

'UK government crosses the road to pick a fight. Overregulating unions risks fomenting more workplace disruption'.

Llywodraeth y DU yn croesi'r ffordd i ddechrau brwydr. Ceir perygl y bydd gor-reoleiddio undebau yn arwain at ragor o darfu ar weithleoedd.

They should also recognise the concerns that are not just shared by us here, and by the First Minister and the Welsh Labour Government, but by many other voices as well, even in business.

Dylent hefyd gydnabod y pryderon nad yw'n cael eu rhannu gennym ni yma yn unig, a chan y Prif Weinidog a Llywodraeth Lafur Cymru, ond gan lawer o leisiau eraill hefyd, hyd yn oed ym myd busnes.

14:21 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Leader of the house, can we please have a statement from the Minister for Health and Social Services on the implications of the recent decision to combine the paediatric intensive care unit retrieval service—that is, the transport service for critically ill children—currently operating from two bases in Cardiff and Newport, so that the service is solely based, now, across the border in Bristol? As you will be aware, the Welsh Health Specialised Services Committee recently approved the proposals for the two services to be combined, and there are serious concerns that have been expressed, particularly in the west of my region, in terms of the negative impact that this could have on the prognosis of critically ill children and their families. I think this matter is of significant importance and would merit a Government statement.

Arweinydd y tŷ, a allem ni gael datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol os gwelwch yn dda, ar oblygiadau'r penderfyniad diweddar i gyfuno gwasanaeth cludiant yr uned gofal dwys pediatrig—hynny yw, y gwasanaeth cludiant ar gyfer plant difrifol wael—sy'n gweithredu o ddwy ganolfan yng Nghaerdydd a Chasnewydd ar hyn o bryd, fel bod y gwasanaeth wedi'i leoli ar draws y ffin ym Mryste yn unig erbyn hyn? Fel y gwyddoch, yn ddiweddar, cymeradwyodd Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru y cynigion i gyfuno'r ddau wasanaeth, a cheir pryderon difrifol a fynegwyd, yn enwedig yng ngorllewin fy rhanbarth i, o ran yr effaith negyddol y gallai hyn ei chael ar brognosis plant difrifol wael a'u teuluoedd. Rwy'n credu fod hwn yn fater o hynod o bwysig a'i fod yn haeddu datganiad gan y Llywodraeth.

14:22 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank William Powell for that question. Of course, in terms of the Welsh paediatric retrieval service, a new jointly commissioned service is being set up to serve intensive care units and high-dependency units in south Wales and the south-west of England, including our children's hospital for Wales and Bristol children's hospital. I think those changes are being brought forward to provide a more sustainable service, with a guaranteed quality 24-hour-a-day service. That wasn't operated previously; medical expertise was diverted away from the unit during retrieval. The new retrieval arrangements will allow the units in Cardiff and Bristol to meet national standards for retrieval and paediatric intensive care across the areas they serve.

Diolchaf i William Powell am y cwestiwn yna. Wrth gwrs, o ran gwasanaeth cludiant pediatrig Cymru, mae gwasanaeth newydd a gomisiynwyd ar y cyd yn cael ei sefydlu i wasanaethu unedau gofal dwys ac unedau dibyniaeth uchel yn ne Cymru a de-orllewin Lloegr, gan gynnwys ein hysbyty plant ar gyfer Cymru ac ysbyty plant Bryste. Rwy'n meddwl bod y newidiadau hynny'n cael eu gwneud er mwyn darparu gwasanaeth mwy cynaliadwy, gan sicrhau gwasanaeth o ansawdd da 24 awr y dydd. Nid oedd hynny ar waith cynt; tynnwyd arbenigedd meddygol o'r uned yn ystod cludiant. Bydd y trefniadau cludiant newydd yn caniatáu i'r unedau yng Nghaerdydd a Bryste fodloni safonau cenedlaethol ar gyfer cludiant a gofal dwys pediatrig ar draws yr ardaloedd y maen nhw'n eu gwasanaethu.

14:22 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, can I call for two statements? One is from the Minister for Economy, Science and Transport on the Welsh Government's response to the proposed changes to Sunday trading rules in the UK. I'm very concerned about the proposed changes and the impact that they might have on employees in businesses that may want to operate on a seven-day-a-week basis. There seems to be a general assumption that, the greater the economic activity of the UK, the happier the people of the UK will be. Well, I don't accept that, and nor do I accept that it will necessarily drive improvements in the economy, either. It certainly hasn't been a problem for Germany, having much stricter Sunday trading rules, and I think that all employees and workers should be entitled to at least one day off per week.

Weinidog, a gaf i alw am ddau ddatganiad? Mae un gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ar ymateb Llywodraeth Cymru i'r newidiadau arfaethedig i reolau masnachu ar y Sul yn y DU. Rwy'n bryderus iawn am y newidiadau arfaethedig a'r effaith y gallent ei chael ar weithwyr mewn busnesau a allai fod eisiau gweithredu saith diwrnod yr wythnos. Mae'n ymddangos ei bod yn dybiaeth gyffredinol, y mwyaf yw gweithgarwch economaidd y DU, yr hapusaf y bydd pobl y DU. Wel, nid wyf yn derbyn hynny, ac nid wyf yn derbyn y bydd o reidrwydd yn arwain at welliannau yn yr economi ychwaith. Yn sicr, nid yw wedi bod yn broblem i'r Almaen, sydd â rheolau masnachu ar y Sul llawer llymach, ac rwy'n meddwl y dylai fod gan bob gweithiwr hawl i o leiaf un diwrnod i ffwrdd yr wythnos.

Can we also have a statement, please, from the Minister for Health and Social Services to provide an update on the special measures in the Betsi Cadwaladr University Local Health Board? We were told that there would be improvements within 100 days; those 100 days expire this week, and there appears to be little progress in north Wales, and certainly there's a great deal of concern in some parts of north Wales about the pace of progress in driving improvements in health care in the region.

A allem ni gael datganiad hefyd, os gwelwch yn dda, gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am y camau arbennig ym Mwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr? Fe'n hysbyswyd y byddai gwelliannau o fewn 100 diwrnod; mae'r 100 diwrnod hynny yn dod i ben yr wythnos hon, ac mae'n ymddangos mai prin yw'r cynnydd yn y gogledd, ac yn sicr mae llawer iawn o bryder mewn rhai rhannau o'r gogledd am gyflymder y cynnydd o ran cyflawni gwelliannau i ofal iechyd yn y rhanbarth.

I might also want to request an update from the Minister on the issue of the Tawel Fan progress, in terms of mental health services in north Wales. Families in north Wales who have had relatives who have been victims of abuse on the Tawel Fan ward have been in touch with me to say that they are very concerned that the second piece of work, which is supposed to be involving Donna Ockenden, the author of the report into the abuse on that particular ward, has not yet properly commenced or been commissioned by the health board. That, to me, does not speak of a board that wants to turn services around quickly, and I think it is important this Assembly receives an update as soon as possible.

Efallai yr hoffwn hefyd wneud cais am y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog ar fater cynnydd Tawel Fan, o ran gwasanaethau iechyd meddwl yn y gogledd. Mae teuluoedd yn y gogledd y mae eu perthnasau wedi dioddef camdriniaeth ar ward Tawel Fan wedi bod mewn cysylltiad â mi i ddweud eu bod yn bryderus iawn nad yw'r ail ddarn o waith, sydd i fod i gynnwys Donna Ockenden, awdur yr adroddiad ar gam-drin ar y ward benodol honno, wedi dechrau'n iawn eto nac wedi cael ei gomisiynu gan y bwrdd iechyd. Nid yw hynny, yn fy marn i, yn dangos bwrdd sydd eisiau gweddnewid gwasanaethau yn gyflym, ac rwy'n credu ei bod yn bwysig bod y Cynulliad hwn yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf cyn gynted â phosibl.

14:25 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Obviously, Darren Millar is going to be making his way, I would think, to the Conservative Party conference, aren't you, with your concerns about UK Government policy changes in terms of Sunday opening services? I think on your second point, the issues around Betsi Cadwaladr university health board, you know that the public consultation on temporary changes to women's maternity services in north Wales did begin on 24 August, and, obviously, that consultation is open until 5 October and everyone is encouraged who has an interest in this matter to respond to that consultation. And, of course, generally in terms of the health board, we have taken decisive action to address concerns about leadership, governance and progress at Betsi Cadwaladr university health board. That's being done in an open and transparent way, and the Deputy Minister will be publishing a written statement to update on progress later this week.

Yn amlwg, mae Darren Millar yn mynd i fod yn gwneud ei ffordd, byddwn yn meddwl, i gynhadledd y Blaid Geidwadol, oni fyddwch, gyda'ch pryderon ynghylch newidiadau polisi Llywodraeth y DU o ran gwasanaethau'n agor ar y Sul? Rwy'n meddwl o ran eich ail bwynt, y materion yn ymwneud â bwrdd iechyd prifysgol Betsi Cadwaladr, eich bod yn gwybod bod yr ymgynghoriad cyhoeddus ar newidiadau dros dro i wasanaethau mamolaeth menywod yn y gogledd wedi dechrau ar 24 Awst, ac, yn amlwg, mae'r ymgynghoriad hwnnw ar agor tan 5 Hydref, ac anogir pawb sydd â diddordeb yn y mater hwn i ymateb i'r ymgynghoriad hwnnw. Ac, wrth gwrs, yn gyffredinol, o ran y bwrdd iechyd, rydym ni wedi cymryd camau pendant i fynd i'r afael â phryderon am arweinyddiaeth, llywodraethu a chynnydd ym mwrdd iechyd prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae hynny'n cael ei wneud mewn ffordd agored a thryloyw, a bydd y Dirprwy Weinidog yn cyhoeddi datganiad ysgrifenedig i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd yn ddiweddarach yr wythnos hon.

14:26 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Leader of the house, I welcome the news that the Welsh Government will forward the views of campaigners against the ban on gay and bisexual men donating blood to the UK Government's Advisory Committee on the Safety of Blood, Tissues and Organs. You will be aware that this is a campaign that has generated much support from across the political spectrum, and I do welcome the Minister putting on record his personal belief that the rules may be out of date. I was pleased to be able to raise this in Plenary last year, but could we have an update from the Minister for health on this important development, and what other measures the Welsh Government is taking to encourage safe blood donation from all eligible Welsh citizens?

Arweinydd y tŷ, rwy'n croesawu'r newyddion y bydd Llywodraeth Cymru yn anfon safbwyntiau ymgyrchwyr yn erbyn y gwaharddiad ar ddynion hoyw a deurywiol rhag cael rhoi gwaed at Bwyllgor Cynghori Llywodraeth y DU ar Ddiogelwch Gwaed, Meinweoedd ac Organau. Byddwch yn ymwybodol bod hon yn ymgyrch sydd wedi ennyn llawer o gefnogaeth o bob rhan o'r sbectrwm gwleidyddol, ac rwy'n croesawu'r ffaith fod y Gweinidog wedi nodi ar goedd ei gred bersonol efallai fod y rheolau wedi dyddio. Roeddwn i'n falch o allu codi hyn yn y Cyfarfod Llawn y llynedd, ond a allem ni gael y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog iechyd ar y datblygiad pwysig hwn, a pha fesurau eraill y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i annog rhoi gwaed yn ddiogel gan bob dinesydd cymwys yng Nghymru?

14:26 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Christine Chapman for that question. Of course, the Minister for Health and Social Services wants to ensure that as many people as possible are able to donate their blood to meet demand from patients. In that regard, he believes that the blood donation deferral criteria may need revising, and he is happy to put forward the views of campaigners, as you said, on this important issue that we raise. And, clearly, this has to be taken forward in terms of what influence he can also exert in terms of advice from the UK Government's Advisory Committee on the Safety of Blood, Tissues and Organs to Ministers.

Diolchaf i Christine Chapman am y cwestiwn yna. Wrth gwrs, mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn awyddus i sicrhau y caiff cymaint o bobl â phosibl roi eu gwaed i fodloni'r galw gan gleifion. Yn hynny o beth, mae'n credu efallai fod angen diwygio'r meini prawf ar gyfer gwahardd rhag rhoi gwaed, ac mae'n hapus i gyflwyno safbwyntiau ymgyrchwyr, fel y dywedasoch, ar y mater pwysig hwn yr ydym ni'n ei godi. Ac, yn amlwg, mae'n rhaid bwrw ymlaen â hyn o ran pa ddylanwad y gall ei gael hefyd o ran cyngor gan Bwyllgor Cynghori Llywodraeth y DU ar Ddiogelwch Gwaed, Meinweoedd ac Organau i Weinidogion.

14:27 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I'd be grateful if you could please ask the Deputy Minister for Farming and Food to bring forward a statement clarifying the Welsh Government's position regarding early access to the basic payments scheme, and, Llywydd, I should declare an interest that my wife's family run a dairy farm. The Deputy Minister has confirmed to me in a recent letter that advanced payments of up to 50 per cent of a claim may be made from 16 October. However, the Deputy Minister has said that, and I quote, Rural Payments Wales is unable to process the required number of single application forms to utilise this provision. Minister, I'm sure you'll agree that the farming sector, and the dairy industry in particular, is facing huge challenges, and it would alleviate some of the financial pressure on farmers if they received some of their basic payment earlier, and given that it's possible for the Welsh Government to pay this money early, but it appears to choose not to, is extremely worrying. In the circumstances, I'd therefore be grateful if the Deputy Minister for Farming and Food could bring forward a statement as soon as possible explaining why the Welsh Government refuses to bring forward payments from December, despite having the levers to do so.

Weinidog, byddwn yn ddiolchgar pe gallech chi ofyn i'r Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd gyflwyno datganiad yn egluro safbwynt Llywodraeth Cymru o ran mynediad cynnar at y cynllun taliadau sylfaenol, a, Lywydd, dylwn ddatgan buddiant bod teulu fy ngwraig yn rhedeg fferm laeth. Mae'r Dirprwy Weinidog wedi cadarnhau i mi mewn llythyr diweddar y gallai taliadau o hyd at 50 y cant o hawliad gael eu gwneud o 16 Hydref. Fodd bynnag, mae'r Dirprwy Weinidog wedi dweud, ac rwy'n dyfynnu, na all Taliadau Gwledig Cymru brosesu'r nifer ofynnol o ffurflenni cais sengl i ddefnyddio'r ddarpariaeth hon. Weinidog, rwy'n siŵr y byddwch yn cytuno bod y sector ffermio, a'r diwydiant llaeth yn arbennig, yn wynebu heriau enfawr, a byddai'n lleddfu rhywfaint o'r pwysau ariannol ar ffermwyr pe byddent yn derbyn rhywfaint o'u taliad sylfaenol yn gynharach, ac o ystyried ei bod yn bosibl i Lywodraeth Cymru dalu'r arian hwn yn gynnar, ond mae'n ymddangos ei bod yn dewis peidio, yn destun pryder mawr. Dan yr amgylchiadau, byddwn yn ddiolchgar felly pe gallai'r Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd gyflwyno datganiad cyn gynted â phosibl yn esbonio pam mae Llywodraeth Cymru yn gwrthod gwneud taliadau o fis Rhagfyr, er bod y modd ganddi i wneud hynny.

14:29 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I know that the Deputy Minister for Farming and Food is regularly consulting, and indeed informing and updating, particularly the farming unions and those with interest, and also via officials in terms of moving forward with the basic payments. Of course, Welsh Government is ahead in terms of the decisions that have been made in terms of the basic payment arrangements. But, clearly, early access is what we're seeking.

Gwn fod y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd yn ymgynghori, ac yn hysbysu a diweddaru yn wir, yn rheolaidd, yr undebau ffermio'n arbennig a'r rhai sydd â buddiant, a hefyd trwy swyddogion o ran symud ymlaen â'r taliadau sylfaenol. Wrth gwrs, mae Llywodraeth Cymru ar y blaen o ran y penderfyniadau a wnaed ynglŷn â'r trefniadau talu sylfaenol. Ond, yn amlwg, taliadau cynnar yw'r hyn yr ydym ni'n ceisio ei sicrhau.

14:29 **Lynne Neagle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I would like to ask for a debate in Government time on the future of the BBC. We know that the UK Government is consulting on the review of the royal charter, and I'm sure that I'm not alone in feeling fearful about what the UK Government's agenda may be in relation to the BBC, which I regard as not just one of our greatest cultural assets, but a vital part of our democracy. I think it would be quite right for the National Assembly to express a view in these discussions, and I hope that time can be made available as soon as possible for such a debate.

Hoffwn ofyn am ddadl yn amser y Llywodraeth ar ddyfodol y BBC. Rydym ni'n gwybod bod Llywodraeth y DU yn ymgynghori ar yr adolygiad o'r siarter brenhinol, ac rwy'n siŵr nad fi yw'r unig un sy'n teimlo'n ofnus ynghylch beth allai agenda Llywodraeth y DU fod o ran y BBC, yr wyf yn ei ystyried yn un o'n hasedau diwylliannol pwysicaf yn ogystal â rhan hanfodol o'n democratiaeth. Rwy'n credu y byddai'n gwbl gywir i'r Cynulliad Cenedlaethol fynegi barn yn y trafodaethau hyn, ac rwy'n gobeithio y gellir rhoi amser ar gael cyn gynted â phosibl ar gyfer dadl o'r fath.

14:30 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Lynne Neagle for that question and I will assure her, and Members across the Chamber, that the Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism has met with the members of the media reform coalition. He met them in July to discuss those challenges facing broadcasting and, of course, our newspaper sectors in Wales, making clear our concerns about the challenges facing BBC Cymru Wales and S4C. Also, it is vital that the new BBC charter agreement does ensure sufficient funding for BBC Cymru and S4C, fully reflecting the interests of the people of Wales in the current and changing devolved settlement.

Diolchaf i Lynne Neagle am y cwestiwn yna, a gallaf ei sicrhau hi, a'r Aelodau ar draws y Siambr, bod y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth wedi cyfarfod ag aelodau o glymblaid diwygio'r cyfryngau. Cyfarfu â nhw ym mis Gorffennaf i drafod yr heriau hynny sy'n wynebu ein sectorau darlledu ac, wrth gwrs, y sector papurau newydd yng Nghymru, gan wneud yn eglur ein pryderon am yr heriau sy'n wynebu BBC Cymru Wales ac S4C. Hefyd, mae'n hanfodol bod cytundeb siarter newydd y BBC yn sicrhau cyllid digonol ar gyfer BBC Cymru ac S4C, gan adlewyrchu'n llawn buddiannau pobl Cymru yn y setliad datganoledig presennol a'r un sy'n newid.

14:30

## Nick Ramsay Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, I wonder if we could have an update from the health Minister on what is being done to improve ambulance response times in Wales. August saw the publication of a further set of poor statistics. I accept that there are different stories behind some of those statistics, but nonetheless we need to go by what the statistics are telling us. They were particularly bad for my constituency in Monmouthshire. Can we have another look at this—perhaps a statement or a debate in this Chamber? I think it would be very helpful if the Welsh Government put forward proposals to actually deal with this problem rather than what has been suggested recently, which is to simply change the way that figures are collated.

Weinidog, tybed a allem ni gael y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog iechyd am yr hyn sy'n cael ei wneud i wella amseroedd ymateb ambiwlansys yng Nghymru. Cyhoeddwyd cyfres arall o ystadegau gwael ym mis Awst. Rwy'n derbyn bod gwahanol straeon y tu ôl i rai o'r ystadegau hynny, ond serch hynny mae angen i weithredu ar sail yr hyn y mae'r ystadegau'n ei ddweud wrthym. Roedden nhw'n arbennig o wael ar gyfer fy etholaeth i yn Sir Fynwy. A allwn ni gael golwg arall ar hyn—datganiad neu ddadl yn y Siambr hon efallai? Rwy'n credu y byddai'n ddefnyddiol iawn pe byddai Llywodraeth Cymru yn cyflwyno cynigion i fynd i'r afael â'r broblem hon mewn gwirionedd yn hytrach na'r hyn a awgrymwyd yn ddiweddar, sef newid y ffordd y mae'r ffigurau'n cael eu coladu.

14:31

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I think the statistics speak for themselves. The statistics show now that the standard emergency response time for this July—July 2015—was just six minutes and 27 seconds, the quickest it had been since November 2013. Also, I think Members will be well aware of the recent national survey results revealing that 97 per cent of people who had contact with the ambulance service have confidence in the skills of paramedics, which serves as a great testament to the dedication and hard work of staff who are often unfairly criticised.

Rwy'n meddwl bod yr ystadegau yn siarad drostynt eu hunain. Mae'r ystadegau'n dangos nawr mai dim ond chwe munud a 27 eiliad oedd yr amser ymateb brys safonol ar gyfer y mis Gorffennaf hwn—Gorffennaf 2015—y cyflymaf y iddo fod ers Tachwedd 2013. Hefyd, rwy'n credu y bydd yr Aelodau'n gwbl ymwybodol o ganlyniadau'r arolwg cenedlaethol diweddar a ddatgelodd bod gan 97 y cant o bobl a oedd mewn cysylltiad â'r gwasanaeth ambiwlans hyder yn sgiliau parafeddygon, sy'n darparu tystiolaeth wych o ymroddiad a gwaith caled staff sy'n aml yn cael eu beirniadu'n annheg.

14:32

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch yn fawr, Weinidog.

14:32

# 3. Datganiad: Model Ymateb Clinigol Newydd ar gyfer y Gwasanaeth Ambiwlans Brys

# 3. Statement: New Clinical Response Model for Emergency Ambulance Services

Senedd.tv
Fideo Video

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

We now move to item 3, which is a statement by the Deputy Minister for Health on a new clinical response model for emergency ambulance services. I call Vaughan Gething.

Symudwn yn awr at eitem 3, sef datganiad gan y Dirprwy Weinidog Iechyd ar fodel ymateb clinigol newydd ar gyfer gwasanaethau ambiwlans brys. Galwaf ar Vaughan Gething.

14:32 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Dirprwy Weinidog Iechyd / The Deputy Minister for Health*

Thank you, Presiding Officer. In July, I announced that the Welsh ambulance service will pilot a new clinical response model, which includes new clinical indicators, for 12 months starting in this October. I said I would give Members more information about this new way of working, including what it will mean for patients and the public and the wider NHS unscheduled care system. These changes are being made in response to evidence from leading clinicians and a clinical review of the way that we measure the timeliness and the quality of the emergency ambulance service here in Wales. The current eight-minute response time target is more than 40 years old. It is based on evidence from that time that suggested it improved outcomes for people who suffered an out-of-hospital cardiac arrest. The McClelland review of the Welsh ambulance service in 2013 said we should move away from the eight-minute target because it is of little clinical relevance to the vast majority of calls to the ambulance service.

Diolch i chi, Lywydd. Ym mis Gorffennaf, cyhoeddais y byddai gwasanaeth ambiwlans Cymru yn rhoi prawf ar fodel ymateb clinigol newydd, sy'n cynnwys dangosyddion clinigol newydd, am 12 mis gan ddechrau y mis Hydref hwn. Dywedais y byddwn yn rhoi mwy o wybodaeth i'r Aelodau am y ffordd newydd hon o weithio, gan gynnwys yr hyn y bydd yn ei olygu i gleifion a'r cyhoedd a system gofal heb ei drefnu ehangach y GIG. Mae'r newidiadau hyn yn cael eu gwneud mewn ymateb i dystiolaeth gan glinigwyr arweiniol ac adolygiad clinigol o’r ffordd yr ydym yn mesur prydlondeb ac ansawdd y gwasanaeth ambiwlans brys yma yng Nghymru. Mae’r targed amser presennol i ymateb o fewn wyth munud yn fwy na 40 mlwydd oed. Mae wedi ei seilio ar dystiolaeth o'r cyfnod hwnnw a oedd yn awgrymu ei fod yn gwella canlyniadau i bobl sy'n dioddef trawiad ar y galon y tu allan i'r ysbyty. Roedd adolygiad McClelland o wasanaeth ambiwlans Cymru yn 2013 yn dweud y dylem newid y targed wyth munud gan nad yw’n berthnasol iawn yn glinigol i'r mwyafrif helaeth o’r galwadau i'r gwasanaeth ambiwlans.

This year’s clinical review of the timeliness and quality of ambulance services was led by Dr Brendan Lloyd, the Welsh ambulance service’s medical director. It found that there was no evidence that an eight-minute response makes a difference to about 95 per cent of people’s outcomes. By piloting a new way of working in the ambulance service, we’ll be putting patients’ needs and their care first. The new clinical response model will prioritise the most critically-ill patients—those who are likely to die unless they receive help within minutes. They will receive the fastest response possible in order to help save their lives. These 999 calls, where someone’s life is at risk, will be known as ‘red’ calls and they will continue to be measured against an eight-minute target. Calls to the ambulance service that are not imminently life-threatening will be known as ‘amber’ calls. Call handlers will be given up to 120 seconds extra to assess these patients to make sure they receive a response that is tailored to their illness or injury. This is similar to the ‘dispatch on disposition’ ambulance scheme, which has been successfully piloted in two areas of England.

Arweiniwyd adolygiad clinigol eleni o brydlondeb ac ansawdd y gwasanaethau ambiwlans gan Dr Brendan Lloyd, cyfarwyddwr meddygol gwasanaeth ambiwlans Cymru. Canfu nad oedd unrhyw dystiolaeth bod ymateb mewn wyth munud yn gwneud gwahaniaeth i tua 95 y cant o ganlyniadau pobl. Trwy dreialu ffordd newydd o weithio yn y gwasanaeth ambiwlans, byddwn yn rhoi anghenion a gofal cleifion yn gyntaf. Bydd y model ymateb clinigol newydd yn rhoi blaenoriaeth i'r cleifion sydd fwyaf difrifol wael— y rhai hynny sydd yn debygol o farw oni bai eu bod yn cael cymorth o fewn munudau. Byddant yn cael yr ymateb cyflymaf posibl er mwyn helpu i achub eu bywydau. Bydd y galwadau 999 hyn, pan fo bywyd rhywun mewn perygl, yn cael eu galw’n alwadau 'coch' a byddant yn parhau i gael eu mesur yn erbyn targed wyth munud. Bydd galwadau i'r gwasanaeth ambiwlans pan nad oes bywyd yn y fantol ar unwaith yn cael eu galw’n alwadau 'melyn'. Bydd y bobl sy’n ateb y galwadau hyn yn cael hyd at 120 eiliad ychwanegol i asesu’r cleifion hyn i sicrhau eu bod yn cael ymateb sydd wedi'i deilwra i'w salwch neu eu hanaf nhw. Mae hyn yn debyg i'r cynllun ambiwlans 'anfon ar sail cyflwr', sydd wedi cael ei dreialu'n llwyddiannus mewn dwy ardal yn Lloegr.

The way the ambulance service responds to amber calls will improve patient outcomes by ensuring they receive the most appropriate clinical intervention and a vehicle capable of taking them to hospital if they need ongoing treatment in the fastest time possible. There will be no response time target for these calls. Amber calls will be assessed against a range of clinical indicators, which will measure the quality of clinical care delivered against the best available evidence. These should provide reassurance about the quality and safety of care provided by ambulance clinicians.

Mae'r ffordd y mae'r gwasanaeth ambiwlans yn ymateb i alwadau melyn yn gwella canlyniadau i gleifion drwy sicrhau eu bod yn derbyn yr ymyriad clinigol mwyaf priodol a cherbyd sy'n gallu eu cludo i'r ysbyty yn yr amser cyflymaf posibl, os oes angen triniaeth barhaus arnynt. Ni fydd targed amser ymateb ar gyfer y galwadau hyn. Bydd galwadau melyn yn cael eu hasesu yn erbyn ystod o ddangosyddion clinigol, a fydd yn mesur ansawdd y gofal clinigol a ddarperir yn erbyn y dystiolaeth orau sydd ar gael. Dylai'r rhain roi sicrwydd ynglŷn ag ansawdd a diogelwch y gofal a ddarperir gan glinigwyr ambiwlans.

These indicators will demonstrate to the people of Wales the level of care they can expect to receive when they have an emergency medical problem and, for the first time, they will hold the ambulance service to account for the care it provides, and not the speed at which ambulance crews can drive to the scene of an incident. They will align with indicators used in other parts of the UK and internationally, allowing comparisons and benchmarking of the quality of clinical care that is being delivered by front-line staff across Wales. We will continue to measure and publish the response times for all calls, and I expect to see an incremental reduction in the longest response times over the course of the pilot.

Bydd y dangosyddion hyn yn dangos i bobl Cymru y lefel o ofal y gallant ddisgwyl ei gael pan fo ganddynt broblem feddygol brys ac, am y tro cyntaf, byddant yn dwyn y gwasanaeth ambiwlans i gyfrif am y gofal y mae'n ei ddarparu, nid pa mor gyflym y gall criwiau ambiwlans yrru i safle digwyddiad. Byddant yn cyd-fynd â dangosyddion a ddefnyddir mewn rhannau eraill o'r DU ac yn rhyngwladol, gan ein galluogi i gymharu a meincnodi ansawdd y gofal clinigol a ddarperir gan staff rheng flaen ledled Cymru. Byddwn yn parhau i fesur a chyhoeddi yr amseroedd ymateb ar gyfer pob galwad, ac yr wyf yn disgwyl gweld gostyngiad cynyddol yn yr amseroedd ymateb hiraf yn ystod y cyfnod prawf.

In addition to these measures, and to complement the move to focusing on clinical indicators, our unscheduled care programme is developing a routine link between the patient information collected by ambulance clinicians, in-hospital patient information, and information when a person is discharged from hospital. Now, this is not available anywhere else in the UK, and it would make Wales a leader in understanding the patient journey from the point someone makes a 999 call to when they actually leave hospital. The Welsh Government has already invested £1.1 million in the ambulance digipen product to enable more accurate and timely patient information to be collected. Front-line staff will be using the new digital pens across Wales from this week.

Yn ogystal â'r mesurau hyn, ac i gyd-fynd â'r symudiad tuag at ganolbwyntio ar ddangosyddion clinigol, mae ein rhaglen gofal heb ei drefnu yn datblygu cyswllt rheolaidd rhwng gwybodaeth am gleifion a gasglwyd gan glinigwyr ambiwlans, gwybodaeth am gleifion yn yr ysbyty, a gwybodaeth pan fo unigolyn yn cael ei ryddhau o'r ysbyty. Nawr, nid yw hyn ar gael mewn unrhyw le arall yn y DU, a byddai'n gwneud Cymru yn arweinydd o ran deall taith y claf o'r adeg y mae rhywun yn gwneud galwad 999 i pan fyddant yn gadael yr ysbyty mewn gwirionedd. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi buddsoddi £1.1 miliwn yn y cynnyrch peniau digidol ar gyfer ambiwlansys er mwyn gallu casglu gwybodaeth gywirach a mwy prydlon am gleifion. Bydd staff rheng flaen yn defnyddio'r peniau digidol newydd ledled Cymru o'r wythnos hon ymlaen.

A third category of calls—the green calls—will refer to those non-serious incidents that can often be managed by other health services, including healthcare advice or self-care. This category will also include calls from healthcare professionals, which will be handled in a planned way in the future, and this approach has already been successfully tested in the Cwm Taf Local Health Board area, and now extended to the Aneurin Bevan Local Health Board area.

Bydd trydydd categori o alwadau—y galwadau gwyrdd—yn cyfeirio at y digwyddiadau hynny nad ydynt yn ddifrifol ac y gellir yn aml eu rheoli gan wasanaethau iechyd eraill, gan gynnwys cyngor gofal iechyd neu hunan-ofal. Bydd y categori hwn yn cynnwys galwadau gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol hefyd, a fydd yn cael eu trin mewn ffordd wedi ei threfnu yn y dyfodol, ac mae'r dull hwn eisoes wedi cael prawf llwyddiannus yn ardal Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf, ac mae wedi ei ymestyn i ardal Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan erbyn hyn.

The pilot has been widely supported by front-line clinicians, senior emergency care doctors, professional colleges, community health councils, health charities, and the Association of Ambulance Chief Executives. However, I do recognise that change of any kind can be a time of anxiety for some, and difficult for others. The ‘dispatch on disposition’ ambulance pilot in England has successfully shown that, by giving callers a little extra time to assess patients before dispatching an ambulance, a more efficient and appropriate level of care can be delivered. Those English pilots have demonstrated that significantly more patients can be safely managed by telephone without needing an ambulance, protecting emergency ambulance resources for those patients with the greatest need.

Mae'r cynllun prawf wedi cael cefnogaeth eang gan glinigwyr rheng flaen, uwch feddygon gofal brys, colegau proffesiynol, cynghorau iechyd cymuned, elusennau iechyd, a’r Gymdeithas Prif Weithredwyr Ambiwlans. Fodd bynnag, yr wyf yn cydnabod bod newid o unrhyw fath yn gallu bod yn gyfnod pryderus i rai, ac yn anodd i eraill. Mae'r cynllun prawf 'anfon ar sail cyflwr' ar gyfer ambiwlansys yn Lloegr wedi dangos yn llwyddiannus bod rhoi ychydig mwy o amser i’r rhai sy’n galw er mwyn asesu cleifion cyn anfon ambiwlans, yn golygu y gellid darparu lefel mwy effeithlon a phriodol o ofal. Mae’r cynlluniau prawf hynny yn Lloegr wedi dangos y gall llawer mwy o gleifion gael eu rheoli yn ddiogel dros y ffôn heb fod angen ambiwlans, gan ddiogelu adnoddau ambiwlans brys ar gyfer y cleifion hynny sydd â'r angen mwyaf.

As the Welsh pilot progresses, as I say, I expect incremental and continuous improvement. We should see benefits to patients from the release of emergency ambulance capacity through a more efficient use of resources; changes in the fleet, supported by our continued investment in ambulance vehicles and state-of-the-art equipment; development of the skill mix of staff, supported by a significant increase in funding for student paramedics, as well as continued investment and support for increasing the education and knowledge base of existing staff.

Wrth i'r cynllun prawf yng Nghymru fynd yn ei flaen, fel y dywedais, yr wyf yn disgwyl gwelliant cynyddol a pharhaus. Dylem weld manteision i gleifion wrth ryddhau gallu ambiwlansys ar gyfer achosion brys trwy ddefnyddio adnoddau'n fwy effeithlon; newidiadau yn y fflyd, a gefnogir gan ein buddsoddiad parhaus mewn cerbydau ac offer ambiwlans o'r radd flaenaf; datblygu cymysgedd sgiliau'r staff, a gefnogir gan gynnydd sylweddol mewn cyllid i barafeddygon sy'n fyfyrwyr, yn ogystal â buddsoddiad parhaus a chefnogaeth i gynyddu sylfaen addysg a gwybodaeth y staff presennol.

The pilot will deliver a high-performing and quality ambulance service for the people of Wales. We will measure more than we ever have before, and we will publish these measures in an easy-to-understand, accessible and transparent way, on a quarterly basis. The introduction of the clinical response model in October will act as the catalyst for further changes to the unscheduled care system in Wales. I expect health boards and the ambulance service to work together to develop services for local residents to ensure that all patients receive the right care, at the right time and in the right place, to optimise outcomes for all.

Bydd y cynllun prawf yn darparu gwasanaeth ambiwlans o safon uchel sy'n perfformio'n dda i bobl Cymru. Byddwn yn mesur mwy nag yr ydym erioed wedi'i wneud o'r blaen, a byddwn yn cyhoeddi'r mesurau hyn yn chwarterol mewn modd hawdd ei ddeall, hygyrch a thryloyw. Bydd cyflwyno'r model ymateb clinigol ym mis Hydref yn gweithredu fel catalydd ar gyfer newidiadau pellach i'r system gofal heb ei drefnu yng Nghymru. Rwyf yn disgwyl i fyrddau iechyd a'r gwasanaeth ambiwlans weithio gyda'i gilydd i ddatblygu gwasanaethau ar gyfer trigolion lleol i sicrhau bod pob claf yn derbyn y gofal priodol, ar yr adeg briodol ac yn y lle priodol, er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i bawb.

14:39

## Darren Millar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Deputy Minister, for your statement. Of course, many people in this Chamber, and outside of this Chamber, felt that the announcement of changes to the targets for the ambulance service was more motivated because of political convenience rather than necessarily what was right. But I do agree that we needed to make some changes, actually, to the way in which we were measuring the performance of our ambulance service, and I don't disagree that there are other indicators that we need to be looking at. So, I do welcome the fact that there's going to be a pilot; it is something that I have certainly discussed with your colleague, the Minister for health, on a number of occasions, and it's something that I fully support.

Diolch, Ddirprwy Weinidog, am eich datganiad. Wrth gwrs, mae llawer o bobl yn y Siambr hon, a'r tu allan i'r Siambr hon, yn teimlo bod y cyhoeddiad am newidiadau i'r targedau ar gyfer y gwasanaeth ambiwlans wedi'u cymell gan gyfleustra gwleidyddol yn hytrach na'r hyn a oedd yn iawn o reidrwydd. Ond yr wyf yn cytuno bod angen i ni wneud rhai newidiadau, mewn gwirionedd, i'r ffordd yr ydym yn mesur perfformiad ein gwasanaeth ambiwlans, ac nid wyf yn anghytuno â'r ffaith bod dangosyddion eraill y mae angen i ni fod yn eu hystyried. Felly, rwyf yn croesawu'r ffaith y bydd cynllun prawf; mae'n rhywbeth yr wyf i yn sicr wedi ei drafod gyda'ch cydweithiwr, y Gweinidog Iechyd, ar sawl achlysur, ac mae'n rhywbeth yr wyf yn ei lwyr gefnogi.

I do wonder, though, whether the way in which progress is being charted against the McClelland review recommendations is proceeding with sufficient pace. One of the announcements that was made almost immediately after the McClelland review reported was that there was going to be a disaggregation of patient transport services from the emergency clinical transport services provided by the Welsh ambulance service. That has failed to be followed through in any way shape or form, and I would wonder, Minister, whether you're able to provide an update on that, given that you're making this important statement today.

Nid wyf yn sicr, fodd bynnag, bod y modd y mae cynnydd yn cael ei nodi yn erbyn argymhellion adolygiad McClelland yn mynd rhagddo'n ddigon cyflym. Un o'r cyhoeddiadau a wnaed bron yn syth ar ôl cyhoeddi adroddiad adolygiad McClelland oedd bod y gwasanaethau cludo cleifion yn mynd i gael ei wahanu oddi wrth y gwasanaethau cludiant clinigol brys a ddarperir gan Wasanaeth Ambiwlans Cymru. Nid yw hyn wedi digwydd mewn unrhyw fodd, felly tybed, Weinidog, a ydych chi'n gallu darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am hynny, o ystyried eich bod yn gwneud y datganiad pwysig hwn heddiw.

You made reference to a whole suite of indicators, which we'll be able to measure performance of the ambulance service by, but you don't say what those indicators will actually be. Minister, would it be possible for you to publish precisely what those indicators will be, especially given the fact that we're now just a few weeks away from their implementation?

Fe wnaethoch gyfeirio at gyfres gyfan o ddangosyddion, y byddwn yn gallu mesur perfformiad y gwasanaeth ambiwlans yn eu herbyn, ond nid ydych yn dweud beth fydd y dangosyddion hynny mewn gwirionedd. Weinidog, a fyddai'n bosibl i chi gyhoeddi yn union beth fydd y dangosyddion hynny, yn enwedig o ystyried y ffaith y byddant yn cael eu rhoi ar waith mewn ychydig o wythnosau?

I also wonder, Minister, whether you'll be able to shed any light on the categorisation of all calls from healthcare professionals as being green calls for ambulance responses. That does concern me because, of course, sometimes, when a GP or another health professional calls, it will be because there is an emergency situation, and the red categorisation of a call in those circumstances would be much more appropriate than a green call. So, what assurances can you give us that, when an urgent call is made, even by another healthcare professional, it will be appropriately categorised and not just shoved into the green category, which appears to be the case in the information in your statement?

Tybed hefyd, Weinidog, a fyddech chi'n gallu taflu unrhyw oleuni ar gategoreiddio pob galwad gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol fel bod yn alwadau gwyrdd ar gyfer ymateb ambiwlans. Mae hynny'n achosi pryder i mi oherwydd, wrth gwrs, weithiau, pan fydd meddyg teulu neu weithiwr iechyd proffesiynol arall yn galw, bydd hynny oherwydd bod sefyllfa frys, a byddai categoreiddio galwad fel un coch dan yr amgylchiadau hynny yn llawer mwy priodol na galwad gwyrdd. Felly, pa sicrwydd y gallwch ei roi inni, pan wneir galwad brys, hyd yn oed gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall, y bydd yn cael ei gategoreiddio yn briodol ac nid dim ond yn cael ei wthio i'r categori gwyrdd, gan ei bod yn ymddangos mai dyna fydd yn digwydd o'r wybodaeth yn eich datganiad?

You've referenced the fact that you want to see an incremental reduction in the longest response times. I do too. People are waiting far too long for their ambulances to turn up at the moment, including in life-threatening situations. But you specify no specific target for reductions. Are you proposing to include a maximum ambulance response time by which an ambulance must turn up? I think, Minister, it might be useful if you could tell us precisely what sort of reductions you want, how long people should have to wait as a maximum for an ambulance to turn up when one has been called.

Rydych chi wedi cyfeirio at y ffaith eich bod eisiau gweld gostyngiad cynyddol yn yr amseroedd ymateb hiraf. Rwyf innau hefyd. Mae pobl yn aros yn llawer rhy hir i'w hambiwlansys gyrraedd ar hyn o bryd, gan gynnwys mewn sefyllfaoedd pan fo bywyd yn y fantol. Ond nid ydych yn nodi targed penodol ar gyfer y gostyngiadau. A ydych chi'n bwriadu cynnwys adeg hiraf o ran amser ymateb erbyn pryd y mae'n rhaid i ambiwlansys gyrraedd y claf? Rwyf yn credu, Weinidog, efallai y byddai'n ddefnyddiol pe gallech ddweud wrthym yn union pa fath o ostyngiadau yr ydych yn dymuno eu gweld, pa mor hir y dylai pobl orfod aros fel adeg hiraf i ambiwlans gyrraedd ar ôl i un gael ei alw.

You also referenced paramedic training. I'm very pleased to see that you're making some additional investment in paramedic training. We know that we have shortages, particularly in north Wales, and difficulties in north Wales in recruiting paramedics, but, of course, you will also know that one of the reasons for that is that there is no opportunity for paramedics to train in north Wales, for example at Bangor or other training providers. I just wonder, Minister, whether you will look at the configuration of training in Wales so that people don't have to come to south Wales in order to train if they are from the north, so that they can actually train in that region in order to keep those skills in the region and that they don't haemorrhage into other parts of Wales or, indeed, over the border.

Gwnaethoch gyfeirio hefyd at hyfforddiant i barafeddygon. Rwy'n falch iawn o weld eich bod yn gwneud rhywfaint o fuddsoddiad ychwanegol mewn hyfforddiant i barafeddygon. Rydym yn gwybod fod gennym brinder, yn enwedig yn y gogledd, ac anawsterau yn y gogledd o ran recriwtio parafeddygon, ond, wrth gwrs, byddwch hefyd yn gwybod mai un o'r rhesymau am hynny yw nad oes unrhyw gyfle i barafeddygon hyfforddi yng ngogledd Cymru, er enghraifft ym Mangor neu gyda darparwyr hyfforddiant eraill. Tybed, Weinidog, a fyddwch yn edrych ar y trefniadau hyfforddiant yng Nghymru fel nad oes rhaid i bobl ddod i'r de i hyfforddi os ydynt yn dod o'r gogledd, fel y gallant hyfforddi mewn gwirionedd yn y rhanbarth hwnnw er mwyn cadw'r sgiliau hynny yn y rhanbarth ac nad ydynt yn llifo i mewn i rannau eraill o Gymru neu, yn wir, dros y ffin.

You mentioned quarterly reporting. Of course, we receive ambulance statistics on a monthly basis at the moment. It's very convenient, quarterly reporting. It means that they only come under the spotlight on a quarterly basis, rather than on a more regular basis, and I wonder, Minister, whether you'll be prepared to consider moving to monthly reporting as opposed to quarterly reporting. We know that in England, over the border, things are reported on a weekly basis. So, I don't know why it is necessary. Whenever I go and visit ambulance HQ, they've got figures live on the screens in terms of the performance of the ambulance service. I see no reason whatsoever why we should have to wait the 12-week or 13-week intervals in order to receive information, particularly during the pilot, when I think there needs to be more scrutiny on these things rather than less. So, I would hope, Minister, that you would be prepared to consider moving to monthly reporting rather than quarterly.

Soniasoch am gyflwyno adroddiadau chwarterol. Wrth gwrs, rydym yn derbyn ystadegau ambiwlans yn fisol ar hyn o bryd. Mae'n gyfleus iawn i gyflwyno adroddiadau'n chwarterol. Mae'n golygu eu bod ond yn dod o dan y chwyddwydr bob chwarter, yn hytrach nag ar sail fwy rheolaidd, a tybed, Weinidog, a fyddwch chi'n fodlon ystyried newid i adroddiadau misol yn hytrach na chyflwyno adroddiadau chwarterol? Rydym yn gwybod bod pethau'n cael eu hadrodd yn wythnosol yn Lloegr, dros y ffin. Felly, nid wyf yn gwybod pam bod hyn yn angenrheidiol. Pryd bynnag y byddaf yn mynd i ymweld â Phencadlys yr ambiwlansys, mae ganddynt ffigurau yn fyw ar y sgriniau am berfformiad y gwasanaeth ambiwlans. Ni welaf unrhyw reswm o gwbl pam y dylem orfod aros am gyfnod o 12 wythnos neu 13 wythnos er mwyn derbyn gwybodaeth, yn enwedig yn ystod cyfnod y cynllun prawf, pryd, yn fy marn i, bydd angen mwy o graffu ar y pethau hyn yn hytrach na llai. Felly, byddwn yn gobeithio, Weinidog, y byddech yn barod i ystyried symud i adroddiadau misol yn hytrach na bob chwarter.

And finally, one final question: you suggested that the announcement of a change in approach to targets for the ambulance service may actually be a catalyst for further changes in the way in which unscheduled care targets more widely will be looked at. Can you tell us which other unscheduled care targets you'll be looking at scrapping or changing? I assume it's all the ones that you're failing to meet at the moment, including the emergency time targets, including the GP out-of-hours targets and others that your Government has set and has failed to meet. Can we expect those to be scrapped in advance of the next election as well? Thank you.

Ac yn olaf, un cwestiwn olaf: gwnaethoch awgrymu y gallai cyhoeddi newid yn yr agwedd tuag at dargedau ar gyfer y gwasanaeth ambiwlans fod yn gatalydd mewn gwirionedd ar gyfer newidiadau pellach yn y modd y bydd targedau gofal heb ei drefnu yn fwy eang yn cael eu hystyried. A allwch chi ddweud wrthym pa dargedau gofal heb ei drefnu eraill y byddwch yn ystyried eu diddymu neu eu newid? Rwyf yn cymryd yn ganiataol mai'r holl rai yr ydych yn methu â'u bodloni ar hyn o bryd fyddan nhw, gan gynnwys y targedau amser brys, gan gynnwys y targedau meddyg teulu y tu allan i oriau ac eraill y mae eich Llywodraeth wedi eu gosod ac wedi methu â'u bodloni. A allwn ni ddisgwyl i'r rhai hynny gael eu diddymu cyn yr etholiad nesaf hefyd? Diolch yn fawr.

14:44

## Vaughan Gething Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for the series of questions. With respect, Presiding Officer, I won't be able to answer all of those questions, otherwise I'd take up all of the time on the order paper for today's—

Diolch i chi am y gyfres o gwestiynau. Gyda phob parch, Lywydd, ni fyddaf yn gallu ateb pob un o'r cwestiynau hynny, neu byddwn i'n cymryd yr holl amser ar bapur trefn heddiw—

14:44

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm sure you can manage.

Rwy'n siwr y gallwch ymdopi.

14:44

## Vaughan Gething Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

No, not to give an honest answer to each of those that I think this Chamber deserves. On the first point about timing and the suggestion that this is about political convenience, this is about having received appropriate, up-to-date clinical advice and then acting upon it. I'm not in charge of when that advice can be provided, but I do have a responsibility to act once that has been received, and that is what I have done. If the advice had been provided earlier, I'd have been happy to make a decision earlier, but we are in this position because I've made a decision based on the very best available clinical advice.

Na, nid er mwyn rhoi ateb gonest i bob un o'r rhai hynny yr wyf o'r farn bod y Siambr hon yn ei haeddu. O ran y pwynt cyntaf ynghylch amseriad a'r awgrym bod hyn yn ymwneud â chyfleustra gwleidyddol, mae hyn yn ymwneud â chael cyngor clinigol priodol a chyfredol ac yna gweithredu arno. Nid fi sy'n gyfrifol am pryd y gellir darparu'r cyngor hwnnw, ond mae gen i gyfrifoldeb i weithredu pan fydd hwnnw wedi ei dderbyn, a dyna beth yr wyf wedi ei wneud. Pe byddai'r cyngor wedi ei ddarparu yn gynharach, byddwn wedi bod yn hapus i wneud penderfyniad yn gynharach, ond rydym yn y sefyllfa hon oherwydd fy mod i wedi gwneud penderfyniad yn seiliedig ar y cyngor clinigol gorau sydd ar gael.

I am pleased, though, that, at the start of your series of questions, you recognised that there is a need for change and that the current eight-minute target does not serve the best interests of patients or how we properly assess the quality of care that the ambulance service provides.

Rwyf yn falch, serch hynny, eich bod wedi cydnabod ar ddechrau eich cyfres o gwestiynau, bod angen newid ac nad oedd y targed presennol o wyth munud er lles gorau'r cleifion na sut yr ydym yn asesu yn briodol ansawdd y gofal y mae'r gwasanaeth ambiwlans yn ei ddarparu.

On some of the specific points you mentioned, and the point about patient transport, I expect to provide Members with an update in the coming months about the disaggregation of patient transport services from the emergency ambulance service, and I'll be happy to provide more information as and when that's appropriate and available. The same point on the new indicators—there'll be 25 new indicators that have been designed to try and give people a proper understanding of different parts, of the quality of care, patient outcomes and experience through the emergency ambulance service. Those have been developed and are being developed in conjunction with the emergency ambulance services committee, and they will publish on a quarterly basis each of those indicators. The quarterly publication, I think, makes sense, because there'll be an opportunity for a much greater, broader and deeper understanding and scrutiny of what the emergency ambulance service does. There'll be time for a proper analysis for the individuals publishing the information and also for Members themselves. I'm under no illusions whatsoever that this place and members of the public will somehow stop looking at what the ambulance service does in between times, so there will be that quarterly publication, as I've indicated.

O ran rhai o'r pwyntiau penodol yr oeddech yn sôn amdanynt, a'r pwynt am gludiant cleifion, rwyf yn disgwyl gallu darparu'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau yn y misoedd nesaf am wahanu'r gwasanaethau cludo cleifion oddi wrth y gwasanaeth ambiwlans brys, a byddaf yn hapus i roi rhagor o wybodaeth pan fydd hynny'n briodol a'i bod ar gael. Yr un pwynt ar y dangosyddion newydd—bydd 25 o ddangosyddion newydd sydd wedi eu cynllunio i geisio rhoi dealltwriaeth briodol i bobl am y gwahanol rannau, ansawdd y gofal, canlyniadau cleifion a phrofiad drwy'r gwasanaeth ambiwlans brys. Mae'r rheini wedi eu datblygu ac maent yn cael eu datblygu ar y cyd â'r pwyllgor gwasanaethau ambiwlans brys, a byddant yn cyhoeddi pob un o'r dangosyddion hynny yn chwarterol. Mae cyhoeddi'n chwarterol, rwy'n credu, yn gwneud synnwyr, oherwydd y bydd cyfle i gael llawer mwy o ddealltwriaeth a chraffu, a hynny mewn modd ehangach a dyfnach o'r hyn y mae'r gwasanaeth ambiwlans brys yn ei wneud. Bydd amser ar gyfer dadansoddiad priodol i'r unigolion sy'n cyhoeddi'r wybodaeth a hefyd ar gyfer yr Aelodau eu hunain. Nid wyf yn credu am eiliad y bydd y lle hwn ac aelodau o'r cyhoedd rhywsut yn rhoi'r gorau i edrych ar yr hyn y mae'r gwasanaeth ambiwlans yn ei wneud rhwng yr adegau cyhoeddi, felly bydd y cyhoeddiad chwarterol hwnnw yn cael ei wneud, fel yr wyf wedi ei nodi.

On health professional calls, I recognise the point that you're trying to promote, but I would say, if you look again at the statement and what I've said, we're basing this on what's actually happened in Cwm Taf Local Health Board. It's been a successful way to manage calls, it's been better for the health professionals themselves who've made the calls, and it's been more predictable for them and, crucially, for the patient as well. So, we're rolling out a system that has already been piloted in one complete health board area and that's what we now expect to see delivered right across Wales. As I said earlier, on each of these measures, we'll publish the time it takes for people to get there, but, crucially, we'll publish information on outcomes and the quality of care delivered.

O ran galwadau gan weithwyr iechyd proffesiynol, yr wyf yn cydnabod y pwynt yr ydych yn ceisio ei hybu, ond byddwn yn dweud, os ydych yn edrych eto ar y datganiad a'r hyn yr wyf wedi ei ddweud, ein bod yn seilio hyn ar yr hyn sydd wedi digwydd mewn gwirionedd ym mwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf. Mae wedi bod yn ffordd lwyddiannus o reoli galwadau, mae wedi bod yn well i'r gweithwyr iechyd proffesiynol eu hunain sydd wedi gwneud y galwadau, ac mae wedi bod yn fwy rhagweladwy iddynt hwy ac, yn allweddol, i'r claf hefyd. Felly, rydym yn cyflwyno system sydd eisoes wedi cael ei threialu mewn un ardal bwrdd iechyd cyfan a dyna beth yr ydym yn awr yn disgwyl ei weld yn cael ei gyflwyno ledled Cymru. Fel y dywedais yn gynharach, ar bob un o'r mesurau hyn, byddwn yn cyhoeddi yr amser y mae'n ei gymryd i bobl gyrraedd, ond, yn hollbwysig, byddwn yn cyhoeddi gwybodaeth ar ganlyniadau ac ansawdd y gofal a ddarperir.

Your final point that I'll deal with, before I take questions from other Members in the Chamber, is the suggestion that I should introduce a new series of time targets—maximum or minimum. The statement today is about a move forward to a genuine clinical model for the emergency ambulance service. The last thing I'm going to do is announce a new set of wholly arbitrary time targets without any proper medical evidence and advice on what they should be and how they will improve the patient experience and patient outcomes. So, I'll gently but firmly decline your invitation to produce a new set of measures that aren't relevant to proper patient care.

Eich pwynt olaf, y byddaf yn ymdrin ag ef cyn i mi gymryd cwestiynau gan Aelodau eraill yn y Siambr, yw'r awgrym y dylwn i gyflwyno cyfres newydd o dargedau amser—uchaf neu isaf. Mae'r datganiad heddiw yn ymwneud â symud ymlaen at fodel clinigol gwirioneddol ar gyfer y gwasanaeth ambiwlans brys. Y peth olaf yr wyf i'n mynd i'w wneud yw cyhoeddi cyfres newydd o dargedau amser cwbl fympwyol heb unrhyw gyngor a thystiolaeth feddygol briodol ar yr hyn y dylent fod a sut y byddant yn gwella profiad y claf a chanlyniadau i gleifion. Felly, byddaf yn gwrthod yn dawel ond yn bendant eich gwahoddiad i gynhyrchu cyfres newydd o fesurau nad ydynt yn berthnasol i ofal cleifion priodol.

14:48 **Lynne Neagle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can I thank the Deputy Minister for his statement today? There's much to be welcomed in the statement, in particular the new emphasis on the quality of care provided by paramedics. But the Deputy Minister will be aware that I did express reservations about moving from the former system at a time when, particularly in my own area, we were failing to meet the target by a considerable amount. So, I continue to have those concerns but recognise that we are going down this road.

A gaf i ddiolch i'r Dirprwy Weinidog am ei ddatganiad heddiw? Mae llawer i'w groesawu yn y datganiad, yn enwedig y pwyslais newydd ar ansawdd y gofal a ddarperir gan barafeddygon. Ond bydd y Dirprwy Weinidog yn ymwybodol fy mod wedi mynegi amheuon ynglŷn â symud oddi wrth y system flaenorol ar adeg pan, yn enwedig yn fy ardal fy hun, nad oeddem yn gallu dod yn agos at fodloni'r targed. Felly, yr wyf yn dal yn bryderus am hynny ond yn cydnabod ein bod yn mynd ar y llwybr hwn.

I do have a few questions. This is a pilot, but it's a pilot that's going to operate across the whole of Wales. Can I ask what consideration the Government gave to running it as a pilot in a narrower area so that we could see how effective it is? I would also be interested to have some more information on the pilots that have operated in England in this area and what kind of geographical area they covered.

Mae gen i ychydig o gwestiynau. Cynllun prawf yw hwn, ond mae'n gynllun prawf sy'n mynd i gael ei weithredu ledled Cymru gyfan. A gaf i ofyn pa ystyriaeth a roddodd y Llywodraeth i'w gynnal fel cynllun prawf mewn ardal gulach er mwyn i ni allu gweld pa mor effeithiol ydyw? Byddai gennyf ddiddordeb hefyd mewn cael rhagor o wybodaeth am y cynlluniau prawf sydd wedi bod ar waith yn Lloegr yn y maes hwn a pha fath o ardal ddaearyddol yr oeddynt yn ei chwmpasu.

And finally, on the amber calls, a particular concern of mine, obviously apart from the general problems with response times in Torfaen, has been that ambulances have consistently been pulled out of Torfaen to the Royal Gwent Hospital and Nevill Hall Hospital, so it has been very, very difficult to refocus resources so that we have an ambulance available when people need it in my constituency. Given that there isn't going to be a response time target for those amber calls, what assurances are you going to be able to give me today that that is not going to happen again, because those ambulances will be pulled out to deal with the red calls and, therefore, people who need them won't get an ambulance because they're not coded as red in Torfaen?

Ac yn olaf, ar y galwadau melyn, pryder arbennig i mi, yn amlwg ar wahân i'r problemau cyffredinol gydag amseroedd ymateb yn Nhorfaen, yw bod ambiwlansys yn gyson wedi cael eu tynnu allan o Dorfaen i Ysbyty Brenhinol Gwent ac ysbyty Neville Hall, felly mae hi wedi bod yn anodd iawn, iawn i ailganolbwyntio adnoddau fel bod gennym ambiwlans ar gael pan fydd pobl ei angen yn fy etholaeth i. O ystyried nad oes targed amser ymateb i fod ar gyfer y galwadau melyn hyn, pa sicrwydd ydych chi'n mynd i allu ei roi i mi heddiw nad yw hynny'n mynd i ddigwydd eto, oherwydd bydd yr ambiwlansys hynny yn cael eu tynnu allan i ymdrin â'r galwadau coch ac, felly, ni fydd pobl sydd ag angen ambiwlans yn cael un oherwydd nad ydynt wedi eu nodi fel bod yn alwad coch yn Nhorfaen?

14:50 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Okay, thank you for the series of questions. I'm pleased to note there has been further progress on response times, with a series of months of consistent, incremental improvement. Again, the point about today's announcement and the announcement I made in July is that we're actually focusing on outcomes for patients and the quality of care they receive, rather than just being obsessed about the time target.

Iawn, diolch i chi am y gyfres o gwestiynau. Rwy'n falch o nodi y bu cynnydd pellach o ran amseroedd ymateb, gyda chyfres o fisoedd o welliant cyson, cynyddol. Unwaith eto, y pwynt am gyhoeddiad heddiw a'r cyhoeddiad a wnes i ym mis Gorffennaf yw ein bod yn canolbwyntio mewn gwirionedd ar ganlyniadau ar gyfer cleifion ac ansawdd y gofal y maent yn ei dderbyn, yn hytrach na dim ond bod ag obsesiwn ynglŷn â'r targed amser.

On the all-Wales pilot, we're making the decision on the basis of the advice we've had, and the advice has been to have an all-Wales move. There had been a series of different, smaller pilots in a range of health board areas, and the one that I referred to earlier that's led to the green categorisation of calls, but also should help with your final point about ambulances and how they're able to serve different local communities—. We found within that pilot, run in the Cwm Taf health board area, it made a really big difference to the way that those resources were used and planned, and it meant that people in that area had access to a service where, previously, you would see a drag down of ambulance resource, more towards the south, wherever there's a larger hospital. It affects different parts of Wales, and I recognise that some Valleys communities, in particular, were affected by that. So, it's absolutely in my mind, but in the mind of the clinicians that have given us this advice as well.

O ran cynllun prawf Cymru gyfan, rydym yn gwneud y penderfyniad ar sail y cyngor a gawsom, a'r cyngor oedd i symud at gynllun Cymru gyfan. Bu cyfres o wahanol gynlluniau prawf llai mewn amrywiaeth o ardaloedd byrddau iechyd, a'r un y cyfeiriais ato yn gynharach sydd wedi arwain at gategoreiddio galwadau fel bod yn rhai gwyrdd, ond dylai hefyd helpu gyda'ch pwynt olaf am ambiwlansys a sut maent yn gallu gwasanaethu gwahanol gymunedau lleol—.Gwelsom o fewn y cynllun prawf hwnnw, a gynhaliwyd yn ardal bwrdd iechyd Cwm Taf, ei fod yn gwneud gwahaniaeth mawr iawn i'r modd yr oedd yr adnoddau hynny yn cael eu defnyddio a'u cynllunio, ac roedd yn golygu bod gwasanaeth ar gael i bobl yn yr ardal honno lle y byddech, yn flaenorol, wedi gweld yr adnoddau ambiwlans yn cael eu llusgo i lawr yn fwy tuag at y de, lle bynnag y mae ysbyty mwy o faint. Mae'n effeithio ar wahanol rannau o Gymru, ac rwyf yn cydnabod bod rhai cymunedau yn y Cymoedd, yn arbennig, wedi eu heffeithio gan hynny. Felly, mae hyn yn bendant yn fy meddwl i ac ym meddwl y clinigwyr sydd wedi rhoi'r cyngor hwn i ni hefyd.

So, I think that those aspects help to inform what should be an all-Wales pilot, and it's helpful to link this to the points you make about the English pilots. The two pilots covered more than 10 million people in England, and in terms of the size of the pilots that are there, I do not think it would have been sensible or feasible to have run a pilot in one particular part of Wales. That was the advice we were given: to run the all-Wales pilots. We've accepted that. We'll have 12 months. There'll be a proper evaluation, so Members will see the evaluation. It will be published. There'll be no hiding of what's happened, and if there are more things we could and should do at the end of those 12 months to improve the quality of care delivered, then I certainly won't be afraid to do that.

Felly, credaf fod yr agweddau hynny o gymorth i lywio'r hyn a ddylai fod yn gynllun prawf ar gyfer Cymru gyfan, ac mae'n ddefnyddiol cysylltu hyn â'r pwyntiau yr ydych yn eu gwneud am y cynlluniau prawf yn Lloegr. Roedd y ddau gynllun prawf yn cynnwys mwy na 10 miliwn o bobl yn Lloegr, ac o ran maint y cynlluniau prawf sydd yno, nid wyf yn credu y byddai wedi bod yn synhwyrol nac yn ymarferol i fod wedi cynnal cynllun prawf mewn un rhan benodol o Gymru. Dyna oedd y cyngor a roddwyd: i gynnal y cynlluniau prawf Cymru gyfan. Rydym wedi derbyn hynny. Bydd gennym 12 mis. Bydd gwerthusiad priodol, felly bydd yr Aelodau yn gweld y gwerthusiad. Bydd yn cael ei gyhoeddi. Ni fydd unrhyw guddio o ran yr hyn a ddigwyddodd, ac os oes mwy o bethau y gallem ac y dylem eu gwneud ar ddiwedd y 12 mis hynny i wella ansawdd y gofal a ddarperir, yna yn sicr ni fydd ofn gwneud hynny arnaf.

*Daeth Rhodri Glyn Thomas i'r Gadair.*

*Rhodri Glyn Thomas took the Chair.*

## Vaughan Gething Bywgraffiad Biography

So, I can give some reassurance about what's in the mind of the Government and in terms of what we're looking for in terms of the improvement we expect to see. But this absolutely will be based on the very best evidence and advice to improve outcomes for people.

Felly, gallaf roi rhywfaint o sicrwydd am yr hyn sydd ym meddwl y Llywodraeth ac am yr hyn yr ydym yn chwilio amdano o ran y gwelliant yr ydym yn disgwyl ei weld. Ond bydd hyn yn gwbl seiliedig ar y dystiolaeth a'r cyngor gorau un i wella canlyniadau i bobl.

14:52

## Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Llefarydd Plaid Cymru, Elin Jones.

Plaid Cymru spokesperson, Elin Jones.

14:52 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Diolch, Lywydd dros dro. Diolch i'r Dirprwy Weinidog am ei ddatganiad. Fel mae dau Aelod o'r Cynulliad yma wedi sôn eisoes, mae perfformiad eich Llywodraeth chi wedi bod yn weddol o drychinebus ar yr ambiwlansys yn cyrraedd y targed ŷch chi fel Llywodraeth wedi bod yn ymrwymedig iddo dros y pedair blynedd diwethaf yma. Felly, yng nghyd-destun y perfformiad gwael yna, rwy'n siŵr nad ydych chi'n synnu bod yna rywfaint o sinigiaeth yn bodoli taw'ch ateb chi i hynny yw gollwng y targed yn llwyr ar gyfer pob galwad ambiwlans, oni bai am y galwadau mwyaf brys—y rhai coch hynny. Y prynhawn yma, y cwestiwn cyntaf i'r Prif Weinidog oedd a oedd eich Llywodraeth chi yn gollwng targedau ar TGAU mewn addysg oherwydd methiant i gwrdd â'r targedau yna. Nawr, o fewn awr a hanner i hynny, rydym ni'n trafod methiant eich Llywodraeth chi i gwrdd â thargedau a'ch bod chi'n gollwng y targedau hynny eto.

Thank you, temporary Presiding Officer, and I thank the Deputy Minister for his statement. As two Assembly Members have already mentioned, the performance of your Government has been relatively disastrous in terms of ambulances achieving the targets that you, as a Government, have been committed to over the past four years. So, in the context of that poor performance, I'm sure you won't be surprised that there is some cynicism that your solution to that is to drop the target outright for all ambulance calls apart from the most urgent red category calls. This afternoon, the first question to the First Minister was on your Government dropping education targets on GCSEs because of a failure in attaining those targets, and now, within an hour and a half, we're discussing your Government's failure in attaining targets and, once again, you are dropping those targets.

Nawr, mae'ch datganiad chi, wrth gwrs, yn sôn am yr astudiaeth yna sydd yn dweud bod yr ymateb ambiwlans o fewn union wyth muned ddim yn gwneud y gwahaniaeth 'outcome' pwysig yna mewn 95 y cant o achosion. Mae hynny'n wir, wrth gwrs, am yr union amser o wyth muned, a bach iawn o wahaniaeth 'outcome' sydd yna rhwng saith muned a naw muned. Ond, mae yna wahaniaeth 'outcome', wrth gwrs, yn bosib rhwng saith muned a 27 muned, neu 47 muned. O fis Hydref ymlaen, yr hyn ŷch chi wedi'i gyhoeddi yw na fydd yna darged amser ateb ambiwlans i alwadau ambr o gwbl, sef i unrhyw berson sydd o bosib yn dioddef strôc, 'haemorrhage' neu 'aortic aneurysm' yn ymdorri. NI fydd gan eich Llywodraeth chi bellach ddim targed ymateb ambiwlans, ac mae hwnnw'n gam sylweddol, mawr i chi i'w gymryd, Weinidog. Yn y cwestiynau ŷch chi wedi'u cael hyd yn hyn hefyd, nid ydych chi wedi rhoi dim arweiniad inni fel Siambr—hyd yn oed os ydych chi'n ymwrthod rhag gosod targed i'r gwasanaeth ambiwlans, nid ydych chi wedi rhoi unrhyw arweiniad inni i feddwl beth yw'r cyfartaledd amser aros am ambiwlans y byddech chi'n credu y byddai'n dderbyniol i bawb sydd yn cwympo o fewn y categori ambr yna.

Now, your statement, of course, does mention the study that states that the ambulance response time within exactly eight minutes doesn't make that difference in outcome in 95 per cent of cases. That is true in relation to the exact eight-minute timing and there'll be very little difference in outcomes between seven minutes and nine minutes, of course, but there is an outcome difference possible between seven minutes and 27 minutes or 47 minutes. From October onwards, what you have announced is that there will be no ambulance response time target for amber calls, so that, for any individual who may have suffered stroke, haemorrhage or, aortic aneurism. Your Government will no longer have any target for ambulance response times and that's a significant step for you to take, Minister. In the questions that you have faced this afternoon, as of yet, you've given us no guidance as a Chamber, even if you are rejecting setting targets for the ambulance service, you haven't given us any idea of the average waiting time that you think would be acceptable for all of those who fall within that amber category.

Rydych chi wedi cyfeirio yn eich datganiad chi at y ffaith bod yna beilots o'r math yma eisoes yn gweithredu yn Lloegr, lle maen nhw wedi gwahaniaethu rhwng galwadau coch a rhai ambr. Ond, yn Lloegr, maen nhw wedi gosod targed o 19 munud ar gyfer categorïau'r galwadau sydd ddim yn rhai coch. Felly, pam ŷch chi wedi penderfynu peidio rhoi targed I hynny? O beidio penderfynu rhoi targed, pa ddisgwyliad amser ar gyfartaledd sydd gennych chi? Rwy'n credu bod y bobl sy'n mynd I fod yn gwneud y galwadau hynny â rhyw fath o hawl I ddisgwyl rhyw arweiniad oddi wrth y Llywodraeth ar beth sy'n ddisgwyliedig ai peidio.

You did refer in your statement to the fact that a pilot of this kind is already operational in England, where they have differentiated between the red and amber category calls. But, in England, according to my understanding, they have set a target of 19 minutes for the calls that don't fall within the red category. Therefore, why have you decided not to create those targets? In deciding not to create that target, what expectation do you have in terms of these average response times? I think that the people who will be making those calls have some right to expect some guidance from the Government on what is expected or not.

Mae fy nghwestiwn olaf yn gysylltiedig â'r cwestiwn a ofynnwyd gan Lynne Neagle, sef y mater yma sy'n berthnasol i ardaloedd y mae Lynne Neagle yn eu cynrychioli, ac i finnau hefyd mewn ardal wledig, sef y ffaith bod cymaint o ambiwlansys a siffts ambiwlansys yn ffeindio'u hunain allan o'u hardal eu hunain yn ymateb i alwadau sydd ymhell o'u hardal, gan hala'u siffts i gyd, efallai, o gwmpas rhai o'n canolfannau mwy trefol ni. Mae hynny'n broblematig mewn ardaloedd gwledig. Rwyf i ar ddeall bod Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf wedi rhedeg peilot ar gadw mwy o ambiwlansys yn lleol o fewn ardal y bwrdd iechyd hwnnw. Fe fyddwn i wedi gobeithio, efallai, y byddech chi wedi gallu cyhoeddi i ni heddiw eich bwriad chi i sicrhau bod yna well arweiniad i'r gwasanaeth ambiwlans er mwyn iddo sicrhau bod y siffts ambiwlans hynny'n gwasanaethu'r ardaloedd y maen nhw'n cael eu lleoli ynddyn nhw.

The final question is related to the question that you were asked by Lynne Neagle, which is this issue that relates to areas such as the one represented by Lynne Neagle, but also to myself, representing a rural area, namely the fact that so many ambulances and ambulance shifts find themselves out of their own area, responding to calls that are long distances from their own areas and sending all their shifts, perhaps, around some of our more urban areas. That is problematic in rural areas. I am given to understand that the Cwm Taf Local Health Board has run a pilot on retaining more ambulances locally within that health board area. I would have hoped that perhaps you could have announced today your intention to ensure that there will be better guidance for the ambulance service to ensure that those ambulance shifts do serve the areas in which they are located.

14:56

## Vaughan Gething Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you for the series of questions. I note your opening in referring to disastrous performance. I think this is exactly one of the big challenges that we're trying to move forward from. If we simply talk about response times and do not try to measure, assess and describe what good clinical care looks like, and then how we assess whether that is being provided, we'll continue to talk about the blunt instrument of an eight-minute response that is inappropriate for the great majority of ambulance and emergency calls, and we'll not properly scrutinise the service or properly recognise the quality of care that is being delivered. This is about moving on to an appropriate set of targets, and there'll be more scrutiny, with more information being provided. We have not just the history of people recognising and lining up to say that the eight-minute response time target for the current categories of calls does not make sense, does not optimise best patient outcomes, and does not make the best use of resources, but what we now have is up-to-date clinical advice—the best available advice, not just about the deficiencies of the old target, but advice on an improved system for the emergency ambulance service. In the suggestions that you make, following on from Darren Millar, about wanting to have a new response time target plucked from the air that is not sustained or supported by the best available clinical advice, that's exactly what I'm not doing. I make no apologies for doing that. I am responding to and acting upon the very best clinical evidence and advice available. If opposition politicians want to have a different system that rejects that clinical advice, that is a matter for you. I do not believe that a responsible person in this position would simply set aside that advice and try to amend a new system that is explicitly designed to improve outcomes for patients.

Diolch i chi am y gyfres o gwestiynau. Nodaf eich sylwadau agoriadol gan gyfeirio at berfformiad trychinebus. Rwy'n credu bod hon yn union un o'r heriau mawr yr ydym yn ceisio symud ymlaen oddi wrthi. Os ydym ni ddim ond yn siarad am amseroedd ymateb a heb fod yn ceisio mesur, asesu a disgrifio yr hyn sy'n ofal clinigol da, ac yna sut yr ydym yn asesu pa un a yw hwnnw'n cael ei ddarparu, byddwn yn parhau i siarad am yr ymateb mewn wyth munud nad yw'n dweud yr holl stori ac sy'n amhriodol i'r mwyafrif helaeth o alwadau ambiwlans a galwadau brys, ac ni fyddwn yn craffu ar y gwasanaeth yn briodol nac yn cydnabod yn briodol ansawdd y gofal sy'n cael ei ddarparu. Mae hyn yn ymwneud â symud ymlaen at gyfres briodol o dargedau, a bydd mwy o graffu, a mwy o wybodaeth yn cael ei darparu. Nid dim ond hanes o bobl sydd gennym yn cydnabod ac yn dod yn rhesi i ddweud nad oedd y targed amser ymateb wyth munud ar gyfer y categorïau presennol o alwadau yn gwneud synnwyr, nad yw'n sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i gleifion, ac nad yw'n gwneud y defnydd gorau o adnoddau, ond yr hyn sydd gennym bellach yw cyngor clinigol cyfredol—y cyngor clinigol gorau sydd ar gael, nid yn unig am ddiffygion yr hen darged, ond cyngor am system well ar gyfer y gwasanaeth ambiwlans brys. Yn yr awgrymiadau a wnewch, yn dilyn ymlaen o eiriau Darren Millar, ynglŷn â bod eisiau cael targed amser ymateb newydd sydd wedi'i dynnu o'r awyr nad yw wedi ei gynnal na'i gefnogi gan y cyngor clinigol gorau sydd ar gael, dyna'n union beth nad wyf i'n ei wneud. Nid wyf yn ymddiheuro am wneud hynny. Rwy'n ymateb i ac yn gweithredu ar sail y dystiolaeth a'r cyngor clinigol gorau sydd ar gael. Os yw gwleidyddion y gwrthbleidiau yn dymuno cael system wahanol sy'n gwrthod y cyngor clinigol hwnnw, mae hynny'n fater i chi. Nid wyf yn credu y byddai person cyfrifol yn y sefyllfa hon yn rhoi'r cyngor hwnnw i'r naill ochr ac yn ceisio diwygio system newydd sydd wedi'i chynllunio'n benodol i wella canlyniadau i gleifion.

The point, surely, is: do we have a system of understanding how ambulance resources are used, and how they're scrutinised, that is good for politicians or good for patients? In making a choice about what is good for patients, I recognise there will be criticism of me as a politician. I don't shy away from that, but this is the right thing to do, and it is an evidence-based approach and the very best approach for the ambulance service and the people that it serves. We need to get away from the old system where, if somebody turns up at seven minutes and 59 seconds, and if that person has a poor experience or if they pass away, that's still a success in the current way that the ambulance service is measured. Eight minutes and a second, regardless of whether they save that person's life, is seen as a failure. That is a crazy way to assess, measure and scrutinise the ambulance service, and that is what we are moving away from. I'm proud to be doing that, not because it's good for me, not because I think there's a different way to do things, and not because it's convenient for me, but it's because we have the best clinical evidence and advice on what to do to improve the system for patients in Wales.

Y pwynt, 'does bosib, yw: a oes gennym system o ddeall sut y caiff adnoddau ambiwlans eu defnyddio, a sut y cânt eu craffu, sy'n dda i wleidyddion neu'n dda i gleifion? Wrth wneud dewis ynghylch yr hyn sy'n dda i gleifion, rwy'n cydnabod y caf i fy meirniadu fel gwleidydd. Dydw i ddim yn cilio oddi wrth hynny, ond dyma'r peth iawn i'w wneud, ac mae'n ddull sy'n seiliedig ar dystiolaeth a hwn yw'r dull gorau ar gyfer y gwasanaeth ambiwlans a'r bobl y mae'n eu gwasanaethu. Mae angen i ni symud i ffwrdd o'r hen system lle, os oes rhywun yn cyrraedd ar ôl saith munud a 59 eiliad, ac os yw'r person hwnnw yn cael profiad gwael neu os yw'n marw, mae hynny'n dal i fod yn llwyddiant yn y ffordd bresennol o fesur y gwasanaeth ambiwlans. Ar ôl wyth munud ac un eiliad, hyd yn oed os ydynt yn achub bywyd y person hwnnw, ystyrir hynny'n fethiant. Mae honno'n ffordd hurt o asesu, mesur a chraffu ar y gwasanaeth ambiwlans, a dyna beth yr ydym yn symud i ffwrdd oddi wrtho. Rwy'n falch o fod yn gwneud hynny, nid am ei fod yn dda i mi, nid am fy mod yn meddwl bod yna ffordd wahanol i wneud pethau, ac nid am ei fod yn gyfleus i mi, ond oherwydd bod gennym y dystiolaeth a'r cyngor clinigol gorau ar beth i'w wneud i wella'r system ar gyfer cleifion yng Nghymru.

That's why we'll continue to publish response times so that people will know and will see how quickly ambulances arrive. The indicator will be published every quarter on 25 different areas of practice, quality and safety, so that people will be able to see what quality of care is being delivered. I expect to be asked questions about that and to be scrutinised upon that. I expect the committee to take an interest and Members in this Chamber. I look forward to that more intelligent and grown-up conversation about what the ambulance service really does do and what it should do, which is to save people's lives and give people a good quality of care wherever they need it: the right person at the right time, delivering the right care.

Dyna pam y byddwn yn parhau i gyhoeddi amseroedd ymateb er mwyn i bobl wybod a gweld pa mor gyflym y mae ambiwlansys yn cyrraedd. Bydd y dangosydd yn cael ei gyhoeddi bob chwarter ar 25 o wahanol feysydd o arfer, ansawdd a diogelwch, er mwyn i bobl allu gweld beth yw ansawdd y gofal sy'n cael ei ddarparu. Rwyf yn disgwyl i bobl ofyn cwestiynau am hynny a chael fy nghraffu ar hynny. Rwyf yn disgwyl i'r pwyllgor gymryd diddordeb ac Aelodau yn y Siambr hon. Edrychaf ymlaen at y sgwrs fwy deallus ac aeddfed honno am yr hyn y mae'r gwasanaeth ambiwlans yn ei wneud mewn gwirionedd a'r hyn y dylai ei wneud, sef achub bywydau pobl a rhoi gofal o ansawdd da i bobl lle bynnag y maent ei angen: y person iawn ar yr adeg iawn, yn darparu'r gofal iawn.

15:00

## Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol, Kirsty Williams.

The leader of the Liberal Democrats, Kirsty Williams.

15:00 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, acting Deputy Presiding Officer; thank you, Minister. It would, of course, be a very foolish person that believed that time alone was the be-all and end-all of a successful ambulance service. Of course, getting to a call within eight minutes, to be followed by inadequate treatment by the paramedic, is not a service. But, even you—even you, Deputy Minister—would have to admit that a timely response is a key element of a successful emergency paramedic service. To say that time doesn't count at all is simply not appropriate. Could you advise me, in setting—. Given that you have said today that red calls are those that are patients who are likely to die if they do not receive help within minutes, could you explain whether it is the clinical advice of the ambulance trust that has led you to set a target that, in those cases, you only expect an ambulance to get there within eight minutes 65 per cent of the time? Let's be clear, even in this jiggery-pokery around the targets, you are still only expecting a category A red call—your new red call—to be got to within eight minutes 65 per cent of the time, when in England, it's 75 percent. So, have you set that target on the basis of clinical advice? Also, can I ask you: when do you expect that all red calls—because remember, in your words, these are people who are likely to die if they do not get help within minutes—in Wales will be answered within eight minutes?

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd dros dro; diolch i chi, Weinidog. Person ffôl iawn, wrth gwrs, fyddai'n credu mai amser yn unig oedd yr unig faen prawf ar gyfer gwasanaeth ambiwlans llwyddiannus. Yn amlwg nid yw cyrraedd galwad o fewn wyth munud, ac yna cael triniaeth annigonol gan y parafeddyg, yn wasanaeth. Ond, byddech chi hyd yn oed—hyd yn oed chi, Ddirprwy Weinidog—yn gorfod cyfaddef bod ymateb prydlon yn elfen allweddol o wasanaeth parafeddygol brys llwyddiannus. Mae dweud nad yw amser yn cyfrif o gwbl, yn syml, yn amhriodol. Allech chi roi cyngor i mi, wrth osod—. Gan eich bod wedi dweud heddiw mai galwadau coch yw'r rhai ar gyfer cleifion sy'n debygol o farw os nad ydynt yn derbyn cymorth o fewn munudau, a allech chi egluro ai cyngor clinigol yr ymddiriedolaeth ambiwlans sydd wedi eich arwain at osod targed yr ydych chi, yn yr achosion hynny, ond yn disgwyl i ambiwlans gyrraedd yno o fewn wyth munud 65 y cant o'r amser? Gadewch i ni fod yn glir, hyd yn oed wrth chwarae o gwmpas â'r targedau hyn, rydych yn dal ond yn disgwyl i ambiwlansys gyrraedd galwad goch categori A—eich galwad goch newydd—o fewn wyth munud 65 y cant o'r amser, tra yn Lloegr, mae'n 75 y cant. Felly, a ydych chi wedi gosod y targed hwnnw ar sail cyngor clinigol? Hefyd, gaf i ofyn i chi: pryd ydych chi'n disgwyl i bob galwad goch—oherwydd cofiwch, yn eich geiriau chi, mae'r rhain yn bobl sydd yn debygol o farw os nad ydynt yn cael cymorth o fewn munudau—gael eu hateb o fewn wyth munud yng Nghymru?

Can I then move on to the issue of amber targets? I am massively concerned for those people who will find themselves within a matter of—well, I appreciate that they will get an extra 120 seconds to make the decision. I am very concerned about those people who will find themselves allocated as an amber call. You have set no expectations whatsoever for those people to receive help. So, let's think about the kind of thing that could happen. You could be the now infamous Swansea rugby player with a broken leg on a rugby field, and there are no targets now for when the ambulance will get to you, because you are not likely to die of your broken leg. So, you could be half an hour; you could be three-quarters of an hour; you could be an hour; or you could be two hours, lying on the floor with a broken leg. But that's okay because the ambulance will get to you at some point at some time. You could be a woman in labour; you could be a woman in labour. Generally speaking, thank goodness, we live in a society where women don't die in labour. The ambulance could get to you within 15 minutes, half an hour, or three-quarters of an hour. But it's okay: the Welsh Government has no expectations whatsoever of when an ambulance is going to get to you. Let's be clear: across the border, 75 per cent of category A red 1 calls are to be met within eight minutes; 75 per cent of category A red 2 calls are to be met within eight minutes; and C calls within 19 minutes. There is an expectation. All other calls are then subject to locally agreed and published targets. But we are not to have any of that in Wales whatsoever: no locally agreed and published targets; no targets for amber. Will you justify your decision? Could you publish the evidence that you have received from the ambulance trust that states there is no need to have targets for anything else other than the red calls? Could you explain to me the system by which you expect greater scrutiny to exist when we don't have any targets for amber calls at all? How are we supposed to have an understanding of whether the service is performing appropriately?

A gaf i wedyn symud ymlaen at fater y targedau melyn? Rwy'n pryderu'n aruthrol am y bobl hynny a fydd yn canfod eu hunain o fewn mater o—wel, yr wyf yn gwerthfawrogi y byddant yn cael 120 eiliad ychwanegol i wneud y penderfyniad. Rwyf yn bryderus iawn am y bobl hynny a fydd yn canfod eu hunain wedi eu neilltuo fel galwad melyn. Nid ydych wedi gosod unrhyw ddisgwyliadau o gwbl i'r bobl hynny gael help. Felly, gadewch i ni ystyried y math o beth a allai ddigwydd. Gallech fod y chwaraewr rygbi o Abertawe sydd bellach yn enwog, â'i goes wedi ei thorri ar gae rygbi, ac nid oes unrhyw dargedau bellach ar gyfer pryd y bydd yr ambiwlans yn eich cyrraedd, oherwydd nid ydych yn debygol o farw o ganlyniad i dorri eich coes. Felly, gallech fod yn aros am hanner awr; gallech fod yn aros am dri chwarter awr; gallech fod yn aros am awr; neu fe allech chi fod yn aros am ddwy awr, yn gorwedd ar y llawr wedi torri'ch coes. Ond mae hynny'n iawn oherwydd bydd yr ambiwlans yn eich cyrraedd ryw bryd ar ryw adeg. Gallech fod yn fenyw ar fin cael babi; gallech fod yn fenyw ar fin cael babi. Yn gyffredinol, diolch byth, rydym yn byw mewn cymdeithas lle nad yw menywod yn marw wrth esgor. Gallai'r ambiwlans eich cyrraedd o fewn 15 munud, hanner awr, neu dri chwarter awr. Ond mae'n iawn: nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw ddisgwyliadau o gwbl o ran pryd y bydd yr ambiwlans yn eich cyrraedd chi. Gadewch i ni fod yn glir: dros y ffin, mae 75 y cant o alwadau coch 1 categori A i gael eu bodloni o fewn wyth munud; mae 75 y cant o'r galwadau coch 2 categori A i'w bodloni o fewn wyth munud; a galwadau C o fewn 19 munud. Mae disgwyliad yn bodoli. Bydd pob galwad arall wedyn yn destun targedau y cytunwyd arnynt ac a gyhoeddwyd yn lleol. Ond nid ydym am gael dim o hyn yng Nghymru o gwbl: dim targedau y cytunwyd arnynt ac a gyhoeddwyd yn lleol; dim targedau ar gyfer y galwadau melyn. A wnewch chi gyfiawnhau eich penderfyniad? A wnewch chi gyhoeddi'r dystiolaeth yr ydych wedi ei chael gan yr ymddiriedolaeth ambiwlans sy'n datgan nad oes angen cael targedau ar gyfer unrhyw beth arall ar wahân i'r galwadau coch? A allwch chi egluro i mi y system sy'n golygu eich bod yn disgwyl y bydd mwy o graffu pan nad oes gennym unrhyw dargedau ar gyfer galwadau melyn o gwbl? Sut ydym ni i fod i wybod a yw'r gwasanaeth yn perfformio'n briodol?

Could you also take this opportunity to say, if you were presented with any evidence—any evidence at all—that calls were being downgraded from red to amber when it became obvious that the eight-minute target was not going to be reached, that you would see that as a serious professional breach, and you would expect organisations to react accordingly if there was any evidence brought before you that calls were being downgraded? If you could confirm that, I'd be very grateful and very reassured.

A allech chi hefyd achub ar y cyfle hwn i ddweud, pe byddech yn derbyn unrhyw dystiolaeth—unrhyw dystiolaeth o gwbl—a oedd yn dangos bod galwadau yn cael eu hisraddio o goch i felyn wrth iddi ddod yn amlwg nad oedd yr ambiwlans yn mynd i gyrraedd o fewn y targed o wyth munud, y byddech yn ystyried hynny yn fethiant proffesiynol difrifol, ac y byddech yn disgwyl i sefydliadau ymateb yn briodol pe byddai unrhyw dystiolaeth yn dod ger eich bron bod galwadau yn cael eu hisraddio? Os gwnewch chi gadarnhau hynny, byddwn yn ddiolchgar iawn ac yn dawel iawn fy meddwl.

Finally, you will, I'm sure, appreciate that many of the problems associated with the dire ambulance response times that people in Wales have put up with for years are not as a consequence of the ambulance organisation; they are as a consequence of lost ambulance hours—ambulances and paramedics being stuck outside A&E departments, or, indeed, being stuck inside A&E departments, unable to discharge their patients. What analysis are you carrying out on the current state of lost ambulance hours, and, as part of your new regime of super-duper transparency, openness and the ability to see how things are performing, will you now publish, on a regular basis, lost ambulance hours at A&E departments?

Yn olaf, byddwch, rwy'n siŵr, yn sylweddoli nad yw llawer o'r problemau sy'n gysylltiedig â'r amseroedd ymateb sobr o sâl gan ambiwlansys, y mae pobl yng Nghymru wedi bod yn eu goddef ers blynyddoedd, o ganlyniad i drefniadaeth ambiwlans; maent o ganlyniad i golli oriau ambiwlans—gan fod ambiwlansys a pharafeddygon yn cael eu cadw y tu allan i adrannau damweiniau ac achosion brys, neu, yn wir, yn cael eu cadw y tu mewn i adrannau damweiniau ac achosion brys, yn methu â rhyddhau eu cleifion. Pa ddadansoddiad ydych chi'n ei gynnal ar gyflwr presennol yr oriau ambiwlans a gollwyd, ac, fel rhan o'ch trefn newydd o fod yn gwbl dryloyw ac agored a bod yn gallu gweld sut y mae pethau yn perfformio, a fyddwch yn cyhoeddi bellach, ar sail reolaidd, yr oriau ambiwlans sy'n cael eu colli mewn adrannau damweiniau ac achosion brys?

15:06

## Vaughan Gething Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Can I thank the Member for the series of questions? This is, if you like, re-rehearsing one of the central points about the change that we announced in July that is being taken forward at the start of October. What is the place of the time of the response in measuring and understanding the quality of the service being provided, the quality of care being provided, compared to the other clinical indicators and outcomes? The advice we've received, which I've acted upon, deals with the category of calls where an eight-minute response is appropriate. That is a different group of calls from the ones we currently send an eight-minute response to; it is a much more appropriate use of the significant and specialist emergency ambulance resource. Now, that in itself should mean that more people that need that level of care more promptly will receive it, and I expect that, when the information is published on the timeliness of response for red, amber and green, that people will, of course, be able to scrutinise us. The suggestion that we will be hiding away and not publishing that information is simply not correct. When that information is provided and published, people will be able to see what the average response time is, how many people are being seen within a certain time. What I am not going to do is absent any advice—or not just any advice for what an appropriate time to set it is, but what would be the benefit to the patient of setting a new target for amber calls. I am not going to make up on the hoof—regardless of the insistence of opposition Members that I do so. I'm not going to make up a new response time target for that amber category of calls. There is no evidence it would be the best thing to do for the service or for the patients that the service is actually there for.

A gaf i ddiolch i'r Aelod am y gyfres o gwestiynau? Mae hyn, os mynnwch, yn ail-adrodd un o'r pwyntiau canolog am y newid a gyhoeddwyd gennym ym mis Gorffennaf, sy'n cael ei weithredu ddechrau mis Hydref. Beth yw lle amser yr ymateb o ran mesur a deall ansawdd y gwasanaeth a ddarperir, ansawdd y gofal sy'n cael ei ddarparu, o'i gymharu â'r dangosyddion a'r canlyniadau clinigol eraill? Mae'r cyngor a gawsom ni, yr wyf wedi gweithredu ar ei sail, yn ymdrin â'r categori o alwadau lle y mae ymateb wyth munud yn briodol. Mae hwn yn grŵp o alwadau gwahanol i'r rhai yr ydym ar hyn o bryd yn anfon ymateb wyth munud iddynt; mae'n ddefnydd llawer mwy priodol o'r adnoddau ambiwlans brys sylweddol ac arbenigol. Dylai hynny ynddo'i hun olygu bod mwy o bobl y mae angen y lefel honno o ofal yn fwy prydlon arnynt dderbyn hynny, ac yr wyf yn disgwyl, pan fydd y wybodaeth yn cael ei chyhoeddi ar brydlondeb yr ymateb i alwadau coch, melyn a gwyrdd, y bydd pobl, wrth gwrs , yn gallu craffu arnom. Nid yw'r awgrym y byddwn yn cuddio ac na fyddwn yn cyhoeddi'r wybodaeth honno yn gywir o gwbl. Pan fydd y wybodaeth honno yn cael ei darparu a'i chyhoeddi, bydd pobl yn gallu gweld beth yw'r amser ymateb cyfartalog, faint o bobl sy'n cael eu gweld o fewn amser penodol. Yr hyn nad wyf yn mynd i'w wneud yw peidio â chymryd sylw o unrhyw gyngor—neu nid unrhyw fath o gyngor am yr hyn sy'n amser priodol i'w osod, ond yr hyn a fyddai o fudd i'r claf i osod targed newydd ar gyfer galwadau melyn. Nid wyf yn mynd i osod targed heb unrhyw ystyriaeth—hyd yn oed os yw Aelodau'r wrthblaid yn mynnu fy mod yn gwneud hynny. Nid wyf yn mynd i osod targed amser ymateb newydd ar gyfer y categori melyn hwnnw o alwadau. Nid oes unrhyw dystiolaeth mai hynny fyddai'r peth gorau i'w wneud er lles y gwasanaeth nac er lles y cleifion y mae'r gwasanaeth yno ar eu cyfer mewn gwirionedd.

In terms of being able to understand, not just how quickly people turn up on an amber call, which will still be under blue-light conditions, but the quality of care being provided, you say, 'How will we be able to scrutinise it?' Well, every quarter, 25 different indicators about the quality of care being provided will be published. There will be much more scrutiny. I expect to face many more questions about the quality of care being provided by the ambulance service, and what level of variability is or isn't around that, and every quarter that will be there, available, front and centre, for people in this place and for citizens of Wales to look at and to understand what is the quality of service, are we seeing improvements, is that making a difference to patient outcomes. Because that, after all, is the point about making this change. This change is about improving outcomes for individuals, for people who need that service at various points in time. I go back again, and I'm more than happy to reiterate, that this is about getting the right care, in the right place, at the right time.

O ran bod yn gallu deall, nid dim ond pa mor gyflym y mae pobl yn cyrraedd galwad melyn, a bydd hyn yn dal i fod o dan amodau golau glas, ond ansawdd y gofal sy'n cael ei ddarparu, yr ydych yn dweud, 'Sut y byddwn yn gallu craffu ar hyn?' Wel, bob chwarter, bydd 25 o wahanol ddangosyddion am ansawdd y gofal a ddarperir yn cael eu cyhoeddi. Bydd llawer mwy o graffu. Rwyf yn disgwyl wynebu llawer mwy o gwestiynau am ansawdd y gofal sy'n cael ei ddarparu gan y gwasanaeth ambiwlans, a pha lefel o amrywioldeb sy'n bodoli neu nad yw'n bodoli o amgylch hynny, a phob chwarter bydd hynny yno, ar gael, yn amlwg, i bobl yn y lle hwn ac i ddinasyddion Cymru edrych arno a deall beth yw ansawdd y gwasanaeth, a ydym yn gweld gwelliannau, a yw'n gwneud gwahaniaeth i ganlyniadau cleifion? Oherwydd hynny, wedi'r cyfan, yw'r pwynt o wneud y newid hwn. Mae'r newid hwn yn ymwneud â gwella canlyniadau i unigolion, i bobl sydd angen y gwasanaeth hwnnw ar wahanol adegau mewn amser. Rwy'n mynd yn ôl eto, ac rwy'n fwy na hapus i ailadrodd, bod hyn yn ymwneud â chael y gofal iawn, yn y lle iawn, ar yr adeg iawn.

On one of the final points you made, I recognise what you say about ambulance hours, and it's a subject that is something that I certainly look at and scrutinise. I expect that, when I return to the committee, for your further review of the emergency ambulance service, I'll have more to say and information to provide about ambulance hours. But I think I do want to deal with the point about reassurance on the downgrade of red to amber. The training that is being provided across the ambulance trust and health boards to deliver the new system needs to ensure that the system is delivered smoothly and honestly. I do not expect, and I would not tolerate, red calls being downgraded to amber, simply to avoid there being a target. Just in the case where we publish information that, frankly, makes it difficult to answer questions now about the current target and the way that it is dealt with—but we publish honestly that information—there will be honest and transparent information about what happens with red calls and amber calls and how they're categorised. So, that's certainly my expectation. I'm interested in improvements for patients; I'm not interested in gaming the system simply to try and manufacture or lever advantage that leaves aside the whole point about why this service exists and who it serves.

Ynglŷn ag un o'r pwyntiau olaf a wnaethoch, yr wyf yn cydnabod yr hyn a ddywedwch am oriau ambiwlans, ac mae'n bwnc sydd yn rhywbeth yr wyf i yn sicr yn edrych ac yn craffu arno. Pan fyddaf yn dychwelyd i'r pwyllgor, rwyf yn disgwyl, ar gyfer eich adolygiad pellach o'r gwasanaeth ambiwlans brys, y bydd gennyf fwy i'w ddweud a gwybodaeth i'w rhoi am oriau ambiwlans. Ond rwy'n credu fy mod i eisiau ymdrin â'r pwynt am sicrwydd ar israddio o goch i felyn. Mae angen i'r hyfforddiant sy'n cael ei ddarparu ym mhob rhan o'r ymddiriedolaeth ambiwlans a'r byrddau iechyd i gyflwyno'r system newydd sicrhau bod y system yn cael ei chyflwyno mewn modd didrafferth a gonest. Nid wyf yn disgwyl, ac ni fyddwn yn goddef, galwadau coch yn cael eu hisraddio i rai melyn, dim ond er mwyn osgoi sefyllfa lle y ceir targed. Fel yn yr achos lle rydym yn cyhoeddi gwybodaeth sydd, a dweud y gwir, yn ei gwneud yn anodd i ateb cwestiynau yn awr am y targed presennol a'r ffordd yr ymdrinnir ag ef—ond rydym yn cyhoeddi'r wybodaeth honno yn onest—bydd gwybodaeth onest a thryloyw ynghylch yr hyn sy'n digwydd gyda galwadau coch a galwadau melyn a sut y cânt eu categoreiddio. Felly, dyna yn sicr yr wyf yn ei ddisgwyl. Mae gen i ddiddordeb mewn gwelliannau i gleifion; nid oes gen i ddiddordeb mewn chwarae'r system dim ond i geisio creu neu ysgogi mantais sy'n rhoi o'r neilltu yr holl bwynt ynghylch pam y mae'r gwasanaeth hwn yn bodoli a phwy y mae'n eu gwasanaethu.

15:09

## Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rydym ni eisoes wedi mynd y tu hwnt i'r amser ar gyfer y datganiad yma, ac mae llefarydd y Ceidwadwyr wedi cael cyfle i ofyn cyfres o gwestiynau, felly a gaf i ofyn i Suzy Davies ofyn cwestiwn penodol i'r Dirprwy Weinidog?

We have already gone beyond the time allocated to this item, and the spokesperson for the Conservatives has had an opportunity to ask a series of questions, so may I ask Suzy Davies to ask a specific question to the Deputy Minister?

15:10

## Suzy Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch yn fawr, Lywydd dros dro.

Thank you, temporary Presiding Officer.

Just one short question, Deputy Minister. This is about the role of co-responders in your pilot. The existence of this service in rural areas like Gower in my region is significant and life-saving. It was a matter of concern some years ago that the number of serious call categories that they were able to respond to was reduced from 115 to just five. I'd like to think that the expertise of these life-savers will not be lost as a result of your plans. Bearing in mind that the red category is going to be so narrowly defined, will you confirm whether co-responders will be able to respond to those? Thank you.

Dim ond un cwestiwn byr, Ddirprwy Weinidog. Mae hyn yn ymwneud â swyddogaeth cyd-ymatebwyr yn eich cynllun prawf. Mae bodolaeth y gwasanaeth hwn mewn ardaloedd gwledig fel y Gŵyr, yn fy rhanbarth i, yn bwysig ac yn achub bywydau. Roedd yn fater o bryder rai blynyddoedd yn ôl fod nifer y categorïau galwadau difrifol yr oeddynt wedi gallu ymateb iddynt wedi lleihau o 115 i ddim ond pump. Hoffwn i gredu na fydd arbenigedd y bobl hyn sy'n achub bywydau yn cael eu colli o ganlyniad i'ch cynlluniau. O gofio bod diffiniad mor gul yn mynd i fod ar gyfer y categori coch, a wnewch chi gadarnhau a fydd cyd-ymatebwyr yn gallu ymateb i'r rheini? Diolch yn fawr.

15:10

## Vaughan Gething Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for the questions. We expect to see the continuation of co-responder schemes. We continue to have constructive conversations with the Minister for Public Services and the fire service about other parts of the public sector helping with first responses, and equally, the community first responder scheme, which actually is significantly successful in Powys, and helps to significantly improve patient outcomes. So, this is, again, about providing the right response at the right time, and co-responders and community first responders are definitely part of what we expect to see continue.

Diolch am y cwestiynau. Rydym yn disgwyl gweld y cynlluniau cyd-ymatebwyr yn parhau. Rydym yn parhau i gael sgyrsiau adeiladol gyda'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus a'r gwasanaeth tân am rannau eraill o'r sector cyhoeddus yn helpu gydag ymatebion cyntaf, ac yn yr un modd, y cynllun ymatebwyr cyntaf cymunedol, sydd mewn gwirionedd yn llwyddiannus iawn ym Mhowys, ac mae'n helpu i wella canlyniadau i gleifion yn sylweddol. Felly, mae hyn, unwaith eto, yn ymwneud â darparu'r ymateb iawn ar yr adeg iawn, ac mae cyd-ymatebwyr ac ymatebwyr cyntaf cymunedol yn bendant yn rhan o'r hyn yr ydym yn disgwyl ei weld yn parhau.

15:11

## Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch yn fawr iawn, Weinidog.

Thank you very much, Minister.

15:11

# 4. Datganiad: Datblygu Arfer Proffesiynol drwy'r Fargen Newydd

# 4. Statement: Developing Professional Practice through the New Deal

Senedd.tv Fideo Video

## Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography

Galwaf ar y Gweinidog Addysg a Sgiliau, Huw Lewis.

I call on the Minister for Education and Skills, Huw Lewis.

15:11

## Huw Lewis Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Addysg a Sgiliau / The Minister for Education and Skills*

Diolch, Lywydd dros dro.

Thank you, temporary Presiding Officer.

I have previously set out the driving purpose of the new deal—to support and equip a highly skilled and professional education workforce to provide the very best teaching to our learners and establish a high-status profession. I would like to report on the progress already made and outline further work planned over the coming months.

Rwyf wedi nodi o'r blaen y diben ysgogol y tu ôl i'r fargen newydd—i gefnogi ac arfogi gweithlu addysg hynod fedrus a phroffesiynol i ddarparu'r addysg gorau posibl i'n dysgwyr a sefydlu proffesiwn uchel ei statws. Hoffwn gyflwyno adroddiad ar y cynnydd a wnaed eisoes ac amlinellu'r gwaith pellach sydd wedi'i gynllunio dros y misoedd nesaf.

Many of our most effective schools are already leading the professional development of others in partnership with their consortia. I want to build upon this work and so at the end of last term, and in partnership with the consortia, we asked for expressions of interest from schools who wish to become part of a national network of pioneer schools. Some of these pioneers will lead the development of the new curriculum, whilst others will develop and facilitate professional learning as part of the new deal. The selection process is under way and I will be announcing the participating schools towards the end of October.

Mae llawer o'n hysgolion mwyaf effeithiol eisoes yn arwain datblygiad proffesiynol eraill mewn partneriaeth â'u consortia. Rwyf am ddatblygu'r gwaith hwn ac felly ar ddiwedd y tymor diwethaf, ac mewn partneriaeth â'r consortia, gwnaethom ofyn am ddatganiadau o ddiddordeb gan ysgolion sy'n dymuno bod yn rhan o rwydwaith genedlaethol o ysgolion arloesi. Bydd rhai o'r arloeswyr hyn yn arwain datblygiad y cwricwlwm newydd, tra bydd eraill yn datblygu ac yn hwyluso dysgu proffesiynol yn rhan o'r fargen newydd. Mae'r broses ddethol wedi cychwyn a byddaf yn cyhoeddi pa ysgolion fydd yn cymryd rhan tua diwedd mis Hydref.

I announced in March that I had asked the Education Workforce Council to lead on the development of a professional learning passport to support practitioners to reflect on their professional learning needs and experiences and to facilitate career progression. I am pleased that the first phase of this exciting development was launched earlier this month and is available to all practitioners on the Education Workforce Council website. Based on the views of practitioners and stakeholders, and building on their experience of the prototype version, the EWC will further develop and refine the passport. This will ensure the final version of the passport provides maximum benefit for practitioners when it's launched in September 2016. This is an example of positioning the tools for professional learning where they need to be—in the hands of the profession.

Cyhoeddais ym mis Mawrth fy mod wedi gofyn i Gyngor y Gweithlu Addysg arwain y gwaith o ddatblygu pasbort dysgu proffesiynol i gefnogi ymarferwyr i fyfyrio ar eu hanghenion a'u profiadau dysgu proffesiynol ac i hwyluso dilyniant gyrfa. Rwy'n falch bod cam cyntaf y datblygiad cyffrous hwn wedi'i lansio yn gynharach y mis hwn ac mae ar gael i'r holl ymarferwyr ar wefan Cyngor y Gweithlu Addysg. Yn seiliedig ar farn ymarferwyr a rhanddeiliaid, a chan ddatblygu eu profiad o'r fersiwn prototeip, bydd Cyngor y Gweithlu Addysg yn datblygu ac yn mireinio'r pasbort ymhellach. Bydd hyn yn sicrhau bod fersiwn derfynol y pasbort yn rhoi'r budd mwyaf i ymarferwyr pan gaiff ei lansio ym mis Medi 2016. Mae hwn yn enghraifft o leoli'r offer ar gyfer dysgu proffesiynol yn lle mae angen iddynt fod—yn nwylo'r proffesiwn.

During recent months, government and regional consortia have been working together to identify the professional development opportunities currently available across Wales, share expertise, and to identify gaps in provision. I want to move quickly towards a position where we can establish a national framework of high-quality professional learning, co-ordinated by the consortia, that will be available for all practitioners and leaders wherever they work in Wales. This framework will support clear career pathways so that practitioners can take increasing responsibility for their own professional learning. We will consult practitioners and stakeholders about the shape the career development pathways and the framework of professional learning take during the autumn term.

Yn ystod y misoedd diwethaf, mae consortia llywodraeth a rhanbarthol wedi bod yn gweithio gyda'i gilydd i nodi cyfleoedd datblygu proffesiynol sydd ar gael ar hyn o bryd ledled Cymru, rhannu arbenigedd, a nodi bylchau yn y ddarpariaeth. Rwyf am symud yn gyflym tuag at sefyllfa lle y gallwn sefydlu fframwaith cenedlaethol o ddysgu proffesiynol o ansawdd uchel, wedi'i gydgysylltu gan y consortia, a fydd ar gael ar gyfer yr holl ymarferwyr a'r arweinyddion ble bynnag y maent yn gweithio yng Nghymru. Bydd y fframwaith hwn yn cefnogi llwybrau gyrfa clir er mwyn i ymarferwyr allu cymryd cyfrifoldeb cynyddol am eu dysgu proffesiynol eu hunain. Byddwn yn ymgynghori ag ymarferwyr a rhanddeiliaid am ffurf y llwybrau datblygu gyrfa a'r fframwaith dysgu proffesiynol yn ystod tymor yr hydref.

In the meantime, provision continues to be strengthened. From this September two consortia are rolling out new pathfinder induction programmes, which will explore the potential for more school-centred provision to address the needs of those newly qualified teachers who are employed as short-term supply teachers. There has been a steady flow of resources being made available on Learning Wales to enable schools in Wales to share best practice on the provision they are making with their staff for effective professional learning.

Yn y cyfamser, mae'r ddarpariaeth yn parhau i gael ei chryfhau. O fis Medi eleni mae dau gonsortiwm yn cyflwyno rhaglenni sefydlu braenaru newydd, a fydd yn edrych ar y potensial ar gyfer mwy o ddarpariaeth mewn ysgolion i fynd i'r afael ag anghenion yr athrawon hynny sydd newydd gymhwyso ac sy'n cael eu cyflogi fel athrawon cyflenwi tymor byr. Cafwyd llif cyson o adnoddau ar Dysgu Cymru i alluogi ysgolion yng Nghymru i rannu arfer gorau yn eu darpariaeth gyda'u staff ar gyfer dysgu proffesiynol effeithiol.

We have put in place a legislative framework of performance management and school development planning that places the development of practitioners at the core of our school improvement work. All schools must have a staff development plan as part of their school development plan from this month onwards. Unions and employers are currently working with us in social partnership to develop guidance on how this can best be harnessed to support practitioners, schools and colleges. This will help ensure there is a shared understanding of the entitlement to high quality professional learning and a shared commitment to make it happen.

Rydym wedi sefydlu fframwaith deddfwriaethol o reoli perfformiad a chynllunio datblygiad ysgolion sy'n rhoi datblygiad ymarferwyr wrth wraidd ein gwaith gwella ysgolion. Mae'n rhaid i bob ysgol gael cynllun datblygu staff yn rhan o'u cynllun datblygu ysgol o'r mis hwn ymlaen. Mae undebau a chyflogwyr yn gweithio gyda ni ar hyn o bryd mewn partneriaeth gymdeithasol i ddatblygu canllawiau ar y modd gorau o ddefnyddio hyn i gefnogi ymarferwyr, ysgolion a cholegau. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod dealltwriaeth gyffredin o'r hawl i ddysgu proffesiynol o ansawdd uchel ac ymrwymiad ar y cyd i wneud i hynny ddigwydd.

The professional standards are being revised so that they form a coherent framework for the education workforce and inform and inspire professional practice as we move towards the new curriculum. The expert group I commissioned has completed early work to review the professional standards in other countries and apply the lessons learned to suggest a common architecture for standards across the education workforce here in Wales. For professional standards to have real impact they need to resonate with the daily experience of practitioners. This will only happen if practitioners have an active role in their development. So, this term, there will be structured opportunities for practitioners to take part in the development of the new standards framework. The first of these will take place next week when the national leadership development board will be hosting a seminar of leading practitioners and other key stakeholders with the involvement of Professor Graham Donaldson and Professor John Furlong. Together, they will help develop the vision for future teaching and leadership capacity, which will underpin revised professional standards. Formal consultation on the standards will begin early in 2016.

Mae'r safonau proffesiynol yn cael eu hadolygu fel eu bod yn ffurfio fframwaith cydlynol ar gyfer y gweithlu addysg ac yn llywio ac yn ysbrydoli ymarfer proffesiynol wrth i ni symud tuag at y cwricwlwm newydd. Mae’r grŵp arbenigol a gomisiynwyd gennyf wedi cwblhau gwaith cynnar i adolygu'r safonau proffesiynol mewn gwledydd eraill a defnyddio'r gwersi a ddysgwyd i awgrymu trefn gyffredin ar gyfer safonau ar draws y gweithlu addysg yma yng Nghymru. Er mwyn i safonau proffesiynol gael effaith wirioneddol mae angen iddynt gyd-daro â phrofiad dyddiol ymarferwyr. Ni fydd hyn ond yn digwydd os bydd gan ymarferwyr swyddogaeth weithredol yn eu datblygiad. Felly, y tymor hwn, bydd cyfleoedd strwythuredig i ymarferwyr gymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu fframwaith safonau newydd. Bydd y cyntaf o'r rhain yn digwydd yr wythnos nesaf pan fydd y bwrdd datblygu arweinyddiaeth cenedlaethol yn cynnal seminar o ymarferwyr blaenllaw a rhanddeiliaid allweddol eraill gyda chyfranogiad yr Athro Graham Donaldson a'r Athro John Furlong. Gyda'i gilydd, byddant yn helpu i ddatblygu'r weledigaeth ar gyfer addysgu yn y dyfodol a gallu arweinyddiaeth, a fydd yn sail i’r safonau proffesiynol a adolygwyd. Bydd ymgynghoriad ffurfiol ar y safonau yn cychwyn yn gynnar yn 2016.

When I made my statement on initial teacher training and education in June, I made no secret of my ambitions for the Education Workforce Council having an enhanced role in the provision of career-long professional learning. If we are to place ownership and responsibility for raising standards and for developing and enhancing practice in the hands of the education professionals, it is right for us to debate whether it is appropriate for Government to retain the key levers of change or whether we should pass these on to the profession. Over the coming months, I will be seeking the views of those in the education system in Wales about whether we should develop and enhance the role of the Education Workforce Council into a professional body that more closely mirrors that of other professions. This could involve setting standards for entry to the profession, financing, accrediting and supporting a range of professional learning as well as its current role in registration and discipline of professionals.

Pan gyflwynais fy natganiad ar hyfforddiant ac addysg gychwynnol athrawon ym mis Mehefin, wnes i ddim celu’r ffaith mai fy uchelgais yw i Gyngor y Gweithlu Addysg gael mwy o swyddogaeth wrth ddarparu dysgu proffesiynol gydol gyrfa. Os ydym am roi perchnogaeth a chyfrifoldeb am godi safonau ac ar gyfer datblygu a gwella arfer yn nwylo’r gweithwyr addysg proffesiynol, mae'n iawn inni drafod pa un a yw'n briodol i'r Llywodraeth gadw'r dulliau allweddol o newid neu a ddylem drosglwyddo’r rhain ymlaen i'r proffesiwn. Dros y misoedd nesaf, byddaf yn ceisio barn y rhai sydd yn y system addysg yng Nghymru ynghylch pa un a ddylem ddatblygu a gwella swyddogaeth Cyngor y Gweithlu Addysg i fod yn gorff proffesiynol sy'n debycach i rai mewn proffesiynau eraill. Gallai hyn olygu gosod safonau ar gyfer mynediad i'r proffesiwn, ariannu, achredu a chefnogi ystod o ddysgu proffesiynol yn ogystal â'i swyddogaeth bresennol o ran cofrestru a disgyblu gweithwyr proffesiynol.

It is clear we are moving into a new and exciting phase in Wales, which places practitioners in the driving seat. I remain convinced that this approach will deliver the improvements we seek to learner outcomes by investing in the development of a skilled and committed professional workforce.

Mae'n amlwg ein bod yn symud i gyfnod newydd a chyffrous yng Nghymru, sy'n gosod ymarferwyr wrth y llyw. Yr wyf yn dal yn argyhoeddedig y bydd y dull hwn yn cyflwyno'r gwelliannau yr ydym yn ceisio eu sicrhau i ganlyniadau dysgwyr drwy fuddsoddi mewn datblygu gweithlu proffesiynol medrus ac ymroddedig.

15:18

## Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Llefarydd y Ceidwadwyr, Angela Burns.

Conservative spokesperson, Angela Burns.

15:18

## Angela Burns Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch. Minister, thank you very much for bringing forward your statement today. I will, at the outset, say that I and my party obviously agree with you wholeheartedly that teachers need better access to continuing professional development—not just for themselves, but to raise overall the standards in the teaching profession and to restore that profession into the centre of our society and to give it the status that it rightly and belatedly deserves.

Diolch. Weinidog, diolch yn fawr iawn am gyflwyno eich datganiad heddiw. Byddaf, ar y cychwyn, yn dweud fy mod i a fy mhlaid yn amlwg yn cytuno â chi i'r carn bod angen gwell mynediad at ddatblygiad proffesiynol parhaus ar athrawon—nid ar gyfer eu hunain yn unig, ond i godi’r safonau yn y proffesiwn addysgu yn gyffredinol ac i roi’r proffesiwn hwnnw yn ôl wrth wraidd ein cymdeithas a rhoi’r statws priodol y mae'n ei haeddu iddo, ac mae’n hen bryd i ni wneud hynny.

I do have a couple of questions, though, from your statement. The first, Minister, is that you make no mention of funding. I would just like clarification to understand where the funding for this programme is coming from. Is it already there within the regional consortia, or are you bringing it forward from another department? If so, which department might it be coming from? I'd be interested in understanding the overall cost of this initiative.

Mae gennyf un neu ddau o gwestiynau, fodd bynnag, o'ch datganiad. Y cyntaf, Weinidog, yw nad ydych yn sôn am gyllid o gwbl. Byddwn yn hoffi cael eglurhad i ddeall o ble y mae'r cyllid ar gyfer y rhaglen hon yn dod. A yw yno eisoes o fewn y consortia rhanbarthol, neu a ydych chi'n ei gyflwyno o adran arall? Os felly, o ba adran y gallai fod yn dod? Byddai gennyf ddiddordeb mewn deall cost gyffredinol y fenter hon.

You go on to talk about the fact that you and the consortia look to identify gaps in provision. I would be interested to understand what you might have found whilst you were doing that and what has been put in place to fill those gaps. You talk about the building of a national framework of high quality professional learning. I wonder how long you think it might take to put that into place, given, I have to say, the regional consortia's rather dismal track record on getting up and running as an initiative in all but name for the first couple of years. We really need to see this going forward at great pace.

Aethoch ymlaen i sôn am y ffaith eich bod chi a'r consortia yn bwriadu nodi bylchau yn y ddarpariaeth. Byddai gennyf ddiddordeb mewn deall yr hyn y gallech fod wedi ei ganfod tra'r oeddech yn gwneud hynny a'r hyn sydd wedi'i roi ar waith i lenwi'r bylchau hynny. Rydych yn sôn am ddatblygu fframwaith cenedlaethol o ddysgu proffesiynol o ansawdd uchel. Tybed pa mor hir ydych chi'n credu y gallai ei gymryd i roi hynny ar waith, o ystyried, mae'n rhaid i mi ddweud, hanes braidd yn wantan y consortia rhanbarthol o fod wedi eu sefydlu a gweithredu fel menter ym mhob agwedd heblaw mewn enw am y ddwy flynedd gyntaf. Mae gwir angen gweld hyn yn symud ymlaen yn gyflym iawn.

You mention in one of the paragraphs that you want to put forward a legislative framework for performance management, and you talk about ensuring that teachers have a right to training opportunities. I'd like to know, Minister, how you are actually going to deal with that tricky issue. I know, for example, of schools that use their INSET days for whole-school training and, quite often, especially in a primary setting, if their school is forced to close, for example because of inclement weather, they will actually sacrifice an INSET day in order to make sure that they do not suffer any adverse consequences from being closed. Junior teachers—teachers who are, perhaps, on the bottom rungs and are just beginning to climb up, who are not professional leaders, nor wildly experienced—seem to have a great deal of difficulty in trying to access training, because the schools don't have the bandwidth to free them up. So, Minister, I wonder how you're actually going to be able to deal with this. It may be great having a fantastic continuing professional development scheme in place, but if no-one can take part in it, then it's of absolutely no use at all.

Rydych yn sôn yn un o'r paragraffau eich bod yn dymuno cyflwyno fframwaith deddfwriaethol ar gyfer rheoli perfformiad, ac yr ydych yn sôn am sicrhau bod gan athrawon yr hawl i gyfleoedd hyfforddi. Hoffwn i wybod, Weinidog, sut yr ydych mewn gwirionedd yn mynd i ymdrin â'r mater anodd hwnnw. Rwyf yn gwybod, er enghraifft, am ysgolion sy'n defnyddio eu diwrnodau HMS ar gyfer hyfforddiant i'r ysgol gyfan ac, yn aml, yn enwedig mewn lleoliad cynradd, os yw eu hysgol yn cael ei gorfodi i gau, er enghraifft oherwydd tywydd garw, byddant, mewn gwirionedd yn aberthu diwrnod HMS er mwyn gwneud yn siŵr nad ydynt yn dioddef unrhyw ganlyniadau anffafriol o ganlyniad i fod wedi cau. Mae'n ymddangos bod athrawon iau—athrawon sydd, efallai, ar y gris isaf ac ond yn dechrau dringo i fyny, nad ydynt yn arweinyddion proffesiynol, ac nad oes ganddynt fawr o brofiad—yn cael llawer iawn o anhawster wrth geisio cael hyfforddiant, gan nad oes gan yr ysgolion y capasiti i'w rhyddhau. Felly, Weinidog, tybed sut ydych chi'n mynd i allu ymdrin â hyn mewn gwirionedd. Efallai ei bod yn wych cael cynllun datblygiad proffesiynol parhaus ardderchog wedi'i sefydlu, ond os na all unrhyw un gymryd rhan ynddo, yna nid yw o unrhyw ddefnydd o gwbl.

Could you also go on, Minister, just to tell us what the pathfinder induction programmes will actually entail? You mentioned that two consortia are taking that forward. Now, of course, we also know that a couple of consortia have had serious issues in the past with being able to attract good enough people to just man their general staff positions, let alone taking forward new initiatives like this. Can you please tell us if the four regional consortia are now all fully up and running, if they are fully staffed, and will they all be in a position to be able to take forward this pathfinder induction programme exercise?

A wnewch chi hefyd, Weinidog, ddweud wrthym beth fydd cynnwys y rhaglenni sefydlu braenaru mewn gwirionedd? Soniasoch fod dau gonsortiwm yn bwrw ymlaen â hynny. Wrth gwrs, rydym hefyd yn gwybod bod un neu ddau o'r consortia wedi cael problemau difrifol yn y gorffennol o ran gallu denu pobl ddigon da i'w swyddi staff cyffredinol, heb sôn am ddatblygu mentrau newydd fel hyn. A allwch chi ddweud wrthym a yw pob un o'r pedwar consortia rhanbarthol bellach yn gwbl weithredol, a ydynt wedi'u staffio'n llawn, ac a fyddant i gyd mewn sefyllfa i allu datblygu'r ymarfer rhaglen sefydlu braenaru hwn?

Your penultimate paragraph cheers me, although I do find it utterly frustrating, because I think I am right to say that all the parties—all the opposition parties—here in the Assembly did urge you to take more firm action on continuing professional development during the Education (Wales) Bill Plenary sessions and committee sessions. We all said that it was really important to get proper training in place for teachers. Whilst I welcome this, you are really late to the party on it, and I wonder what you'll be able to do to concretely prove to us that you'll be able to move this forward and embed this in the locus of teaching within Wales.

Mae eich paragraff olaf ond un yn codi fy nghalon, er fy mod yn ei weld yn gwbl rwystredig, oherwydd credaf fy mod yn iawn i ddweud bod yr holl bleidiau—yr holl wrthbleidiau—yma yn y Cynulliad wedi'ch annog chi i gymryd camau mwy cadarn ar ddatblygiad proffesiynol parhaus yn ystod Cyfarfodydd Llawn a sesiynau pwyllgor Bil Addysg (Cymru). Roeddem i gyd yn dweud ei bod yn bwysig iawn i gael hyfforddiant priodol ar waith ar gyfer athrawon. Er fy mod yn croesawu hyn, rydych wir yn hwyr yn gwneud hyn, a tybed beth y byddwch yn gallu ei wneud i brofi'n gadarn i ni y byddwch yn gallu symud hyn yn ei flaen a'i ymgorffori ym maes addysgu yng Nghymru.

Finally, Minister, I would just like to make the comment that we understand that one of the reasons why you're introducing the changes to CPD is to prepare Welsh teachers for curriculum changes proposed by Professor Donaldson's report. Now, I'm sure the Minister will be aware of the Scottish First Minister's comments not very long ago that education in Scotland is not good enough, and I want to know if you are looking at a lessons-learnt exercise to ensure that we take the best out of what Professor Donaldson did in Scotland and bring it forward to Wales before we embark on this to ensure that we are following absolutely the correct path, because I think another seismic change in education is something the industry, the teachers and the students simply could not take.

Yn olaf, Weinidog, hoffwn nodi ein bod yn deall mai un o'r rhesymau pam yr ydych yn cyflwyno'r newidiadau i ddatblygiad proffesiynol parhaus yw i baratoi athrawon Cymru ar gyfer y newidiadau cwricwlwm a gynigiwyd gan adroddiad yr Athro Donaldson. Nawr, rwy'n siŵr y bydd y Gweinidog yn ymwybodol o sylwadau Prif Weinidog yr Alban yn gymharol ddiweddar, nad yw addysg yn yr Alban yn ddigon da, ac rwyf eisiau gwybod os ydych chi'n edrych ar ymarfer gwersi a ddysgwyd er mwyn sicrhau ein bod yn cymryd y gorau o'r hyn a wnaeth yr Athro Donaldson yn yr Alban a chyflwyno hynny yng Nghymru cyn i ni ddechrau ar hyn er mwyn sicrhau ein bod yn dilyn y llwybr hollol gywir, oherwydd credaf nad yw newid aruthrol arall ym maes addysg yn rhywbeth y gall y diwydiant, yr athrawon na'r myfyrwyr ymdopi ag ef.

15:23

## Huw Lewis Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Could I thank Angela Burns for those points and questions, and most particularly thank her for her wholehearted agreement with the fundamentals, at least, behind the changes that I've been describing today? First of all, in terms of finance, the new deal—and I have said this before—is not about new money; it's about schools and colleges, and practitioners making best use of the funding that is already in the system, and of course the funding is really quite considerable. The new deal is not about having more money, nor, at this point in time at least, is it about having more time; it's about looking at what is already being done well. There are examples of outstanding best practice across Wales, and it is about, through the co-ordination of the consortia, making sure that that best practice becomes normal practice everywhere throughout the system. This doesn't need new funding, in my view. It's about ensuring that professional learning is properly planned, and we have a legislative basis now for the responsibility for that lying with the headteacher and the governors. The school must have a development plan. Within that development plan, there must be a staff development plan. Within that, the individual professional will carry their professional learning passport, which is a safeguard for that professional, describing the next steps in their professional development, as well as a safeguard for the school and for the headteacher to ensure that each and every professional has forward momentum in terms of their professional development. That will be lodged with the workforce council, and will be the property of the professional themselves.

A gaf i ddiolch i Angela Burns am y pwyntiau a'r cwestiynau yna, ac rwyf yn diolch yn arbennig iddi am gytuno'n llwyr â'r hanfodion, o leiaf, y tu ôl i'r newidiadau yr wyf i wedi bod yn eu disgrifio heddiw? Yn gyntaf oll, o ran cyllid, nid yw'r fargen newydd—ac rwyf wedi dweud hyn eisoes—yn ymwneud ag arian newydd; mae'n ymwneud ag ysgolion a cholegau, ac ymarferwyr yn gwneud y defnydd gorau o'r cyllid sydd eisoes yn y system, ac wrth gwrs mae'r cyllid yn eithaf sylweddol mewn gwirionedd. Nid yw'r cytundeb newydd yn ymwneud â chael mwy o arian, ac nid yw ychwaith, ar hyn o bryd o leiaf, yn ymwneud â chael mwy o amser; mae'n ymwneud ag edrych ar yr hyn sydd eisoes yn cael ei wneud yn dda. Ceir enghreifftiau o arfer gorau rhagorol ledled Cymru, ac mae a wnelo, trwy gydlynu'r consortia, a sicrhau bod arfer gorau yn dod yn arfer cyffredin ym mhob man ym mhob rhan o'r system. Nid oes angen cyllid newydd ar gyfer hyn, yn fy marn i. Mae'n ymwneud â sicrhau bod dysgu proffesiynol yn cael ei gynllunio'n iawn, ac mae gennym sail ddeddfwriaethol bellach i'r cyfrifoldeb am hynny fod yn gorwedd gyda'r pennaeth a'r llywodraethwyr. Mae'n rhaid i'r ysgol gael cynllun datblygu. O fewn y cynllun datblygu, mae'n rhaid cael cynllun datblygu staff. O fewn hynny, bydd y gweithiwr proffesiynol unigol yn cario eu pasbort dysgu proffesiynol, sydd yn fesur diogelu ar gyfer y gweithiwr proffesiynol hwnnw, gan ddisgrifio'r camau nesaf yn ei ddatblygiad proffesiynol, yn ogystal ag yn fodd o ddiogelu ar gyfer yr ysgol ac i'r pennaeth sicrhau bod gan bob gweithiwr proffesiynol fomentwm ymlaen o ran ei ddatblygiad proffesiynol. Bydd hwn yn cael ei gofrestru gyda chyngor y gweithlu, a bydd yn eiddo i'r gweithiwr proffesiynol ei hunan.

Angela Burns asked about the identification of gaps. Of course, no doubt, if we asked two dozen professionals we would find two dozen slightly different answers in terms of what are the gaps in professional development up and down the country. Certainly, professional development historically within the United Kingdom, not just within Wales, has been far too sporadic, patchy and variable in quality, but clearly, in my view, one of the strategic gaps that we do need to address, and I will be addressing as a matter of priority, is that gap in support for those professionals wishing to make the leap to headteacher posts. I think there are a lot of deputy headteachers, for instance, across the country that are staying put in those deputy roles because they perceive that the chasm between the professional demands on them where they are and where they would be if they became a head is too much, quite often, for some people to be contemplating, given the kind of support networks that are out there at the moment. I think we need to address that rapidly, and there will be an expansion of 50 per cent, incidentally, in the numbers being taken through the headship qualification over the course of this year.

Gofynnodd Angela Burns am nodi bylchau. Wrth gwrs, yn ddiau, os byddwn yn gofyn i ddau ddwsin o weithwyr proffesiynol byddem yn cael dau ddwsin o atebion ychydig yn wahanol o ran beth yw'r bylchau mewn datblygiad proffesiynol ar hyd a lled y wlad. Yn sicr, mae datblygiad proffesiynol yn hanesyddol yn y Deyrnas Unedig, nid yn unig yng Nghymru, wedi bod yn llawer rhy ysbeidiol, anghyson ac amrywiol o ran ansawdd, ond yn amlwg, yn fy marn i, un o'r bylchau strategol y mae angen i ni fynd i'r afael ag ef, a byddaf yn mynd i'r afael ag ef fel mater o flaenoriaeth, yw'r bwlch hwnnw yn y gefnogaeth i'r gweithwyr proffesiynol hynny sydd am wneud y naid i swyddi penaethiaid. Rwy'n credu bod llawer o ddirprwy benaethiaid, er enghraifft, ledled y wlad sydd yn aros yn y swyddi hynny oherwydd eu bod yn credu bod y gagendor rhwng y gofynion proffesiynol arnynt o ran lle y maent a lle y byddent pe byddent yn dod yn bennaeth yn ormodol, yn aml, i rai pobl ystyried gwneud hynny, o gofio'r math o rwydweithiau cymorth sydd ar gael ar hyn o bryd. Rwy'n credu bod angen rhoi sylw i hynny yn gyflym, a bydd ymestyniad o 50 y cant, gyda llaw, yn y niferoedd sy'n cael eu harwain drwy'r cymhwyster pennaeth yn ystod y flwyddyn hon.

How long will this take to get up and running? Well, of course, it is up and running in those areas that I've described that already do best practice. What I am offering the profession is a legal basis for this—everyone's clear about their responsibilities now in law—offering the professionals a passport lodged with their own professional organisation, so that each individual knows where they stand and each headteacher as a leader in their school knows where each and every professional is in terms of their professional development. The politician, I think, can only go so far. The job of the politician is to make sure the resources are there, the structures are there and that obstacles are cleared from the path of the professionals. The essence of the new deal upfront, right from the very beginning, is to say that politicians cannot deliver all of this. It is and must be the creature of the professional. This must belong to the teaching profession. It must be owned by them. And so, in terms of how long it will take to complete the new deal, well, I don't think we will ever complete the new deal because the process of professional development should continue on an ongoing basis right throughout a professional's career.

Pa mor hir fydd hyn yn ei gymryd i'w sefydlu a'i weithredu? Wel, wrth gwrs, mae eisoes wedi ei sefydlu a'i weithredu yn yr ardaloedd hynny yr wyf wedi eu disgrifio sydd eisoes yn gwneud arfer gorau. Yr hyn yr wyf yn ei gynnig i'r proffesiwn yw sail gyfreithiol ar gyfer hyn—mae pawb yn glir ynghylch eu cyfrifoldebau o dan y gyfraith bellach—cynnig pasbort i'r gweithwyr proffesiynol sydd wedi ei gofrestru gyda'u sefydliad proffesiynol eu hunain, fel bod pob unigolyn yn gwybod ble maent yn sefyll a phob pennaeth fel arweinydd yn ei ysgol yn gwybod beth yw sefyllfa pob gweithiwr proffesiynol o ran ei ddatblygiad proffesiynol. Ni all y gwleidydd, yn fy marn i, ond mynd ran o'r ffordd. Gwaith y gwleidydd yw sicrhau bod yr adnoddau ar gael, bod strwythurau ar gael, a bod rhwystrau yn cael eu clirio o lwybr y gweithwyr proffesiynol. Hanfod y fargen newydd yn y dechrau, o'r cychwyn cyntaf, yw dweud na all gwleidyddion gyflawni hyn i gyd. Mae'n eiddo i'r gweithiwr proffesiynol a rhaid iddi fod felly. Mae'n rhaid i hyn fod yn eiddo i'r proffesiwn addysgu. Rhaid i'r proffesiwn ei berchnogi. Ac felly, o ran pa mor hir y bydd yn ei gymryd i gwblhau'r fargen newydd, wel, nid wyf yn credu y byddwn ni byth yn cwblhau'r fargen newydd oherwydd dylai'r broses o ddatblygiad proffesiynol barhau ar sail barhaus trwy gydol gyrfa gweithiwr proffesiynol.

She's quite right to draw attention to the word 'entitlement' that I used within my statement, and I've talked about the professional learning passport as a way of ensuring that that entitlement is delivered, and the responsibility too on the school to make sure that there's a staff development plan that can be scrutinised; that is there.

Mae hi'n hollol iawn i dynnu sylw at y gair 'hawl' a ddefnyddiais yn fy natganiad, ac yr wyf wedi siarad am y pasbort dysgu proffesiynol fel ffordd o sicrhau bod yr hawl hwnnw yn cael ei ddarparu, a'r cyfrifoldeb hefyd ar yr ysgol i wneud yn siŵr bod yna gynllun datblygu staff y gellir craffu arno; mae hynny ar gael.

In terms of INSET days and time set aside, of course, my hands are bound to some extent by the fact that terms and conditions of teachers remain non-devolved. I have stated that I would welcome consideration of devolving those powers so that I can work in social partnership with the teaching professionals in Wales to look at ways in which we can more flexibly offer time within the academic year to make sure that each and every professional can access that entitlement that we've talked about.

O ran diwrnodau HMS ac amser wedi'i neilltuo, wrth gwrs, mae fy nwylo yn rhwym i ryw raddau gan y ffaith fod telerau ac amodau athrawon yn parhau i fod heb eu datganoli. Yr wyf wedi dweud y byddwn yn croesawu'r ystyriaeth o ddatganoli'r pwerau hynny fel y gallaf weithio mewn partneriaeth gymdeithasol gyda'r gweithwyr addysgu proffesiynol yng Nghymru i edrych ar ffyrdd y gallwn gynnig amser yn fwy hyblyg o fewn y flwyddyn academaidd i wneud yn siŵr bod pob un gweithiwr proffesiynol yn gallu cael yr hawl hwnnw yr ydym wedi sôn amdano.

She's quite right to say that the new deal has been in large part about the curriculum change that we're about to go through, but it's not only that. School improvement right across the board, even if we were not changing our curriculum, and even if everything else was standing still within the system—although I don't think you can ever really stand still within an education system—. The level of professional development that has been on offer in the past, in my view, has been inadequate. In terms of international measures, it surely has been found wanting in terms of several measures, and we are not offering our professionals, or haven't offered our professionals, what they need and deserve in order to be the very best that they can be and to discover their true professional strength in each and every school.

Mae hi'n hollol iawn i ddweud bod y fargen newydd wedi ymwneud i raddau helaeth â'r newid yn y cwricwlwm yr ydym ar fin mynd drwyddo, ond nid hynny'n unig. Mae gwella ysgolion ym mhob rhan o'r system, hyd yn oed pe na fyddem yn newid ein cwricwlwm, a hyd yn oed pe byddai popeth arall yn sefyll yn llonydd o fewn y system—er nid wyf yn credu eich bod yn gallu sefyll yn llonydd mewn system addysg mewn gwirionedd—. Mae lefel y datblygiad proffesiynol sydd wedi bod ar gael yn y gorffennol, yn fy marn i, wedi bod yn annigonol. O ran mesurau rhyngwladol, mae'n sicr wedi ei ganfod fel bod yn annigonol mewn sawl mesur, ac nid ydym yn cynnig i'n gweithwyr proffesiynol, neu nid ydym wedi cynnig i'n gweithwyr proffesiynol, yr hyn y maent ei angen a'r hyn y maent yn ei haeddu er mwyn bod y gorau y gallant fod ac i ddarganfod eu cryfder proffesiynol gwirioneddol ym mhob un ysgol.

So, yes, it's about curriculum change, but it is also about a new type of teaching profession, with higher standards, our expectations of them being higher and public respect for them also being higher. And I think that's where everybody wants to be; it's where the profession deserves to be and it's what our young people deserve in terms of the profession that serves them.

Felly, ydy, mae hyn yn ymwneud â'r newid yn y cwricwlwm, ond mae hefyd yn ymwneud â math newydd o broffesiwn addysgu, gyda safonau uwch, ein disgwyliadau ohonynt yn uwch a pharch y cyhoedd tuag atynt hefyd yn uwch. Ac rwyf yn credu mai dyna lle y mae pawb eisiau bod; dyna lle y mae'r proffesiwn yn haeddu bod a dyna y mae ein pobl ifanc yn ei haeddu o ran y proffesiwn sy'n eu gwasanaethu.

Of course, we do learn lessons from Scotland and Professor Donaldson, as you know, still lives in Scotland, I believe. He was closely involved with the curriculum for excellence in Scotland, but that is not the only place we learn lessons from. There are parallels with the experience that Scotland went through just a little while ago, but I am always very keen to ensure officials are keeping an eye on developments right across the United Kingdom, Europe and further afield.

Wrth gwrs, rydym yn dysgu gwersi o'r Alban ac mae'r Athro Donaldson, fel y gwyddoch, yn dal i fyw yn yr Alban, rwy'n credu. Roedd yn ymwneud yn agos â'r cwricwlwm ar gyfer rhagoriaeth yn yr Alban, ond nid dyna'r unig le yr ydym yn dysgu gwersi oddi wrtho. Mae tebygrwydd i'r profiad a gafodd yr Alban ychydig amser yn ôl, ond yr wyf bob amser yn awyddus iawn i sicrhau bod swyddogion yn cadw llygad ar ddatblygiadau ledled y Deyrnas Unedig, Ewrop a thu hwnt.

15:31

## Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rydym eisoes wedi cymryd dwy ran o dair o'r amser sydd wedi'i ddynodi ar gyfer y datganiad yma ac mae yna dri eto i ofyn cwestiynau. Jeff Cuthbert.

We have already taken two thirds of the time allocated for this statement and there are three more to ask questions. Jeff Cuthbert.

15:32

## Jeff Cuthbert Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, acting Llywydd. Minister, can I thank you for your statement today and put on record my support for the steps you are taking to improve the professional development opportunities available to education professionals here in Wales? I know that in my constituency of Caerphilly we saw some very encouraging GCSE and A-level results this summer and I fully support the new deal in helping us build on the new momentum we are seeing in Welsh education to further improve teaching and learning in the classroom over the next few years.

Diolch, Lywydd dros dro. Weinidog, a gaf i ddiolch i chi am eich datganiad heddiw a chofnodi fy nghefnogaeth i'r camau yr ydych yn eu cymryd i wella'r cyfleoedd datblygiad proffesiynol sydd ar gael i weithwyr addysg proffesiynol yma yng Nghymru? Gwn ein bod yn fy etholaeth i yng Nghaerffili wedi gweld canlyniadau TGAU a Safon Uwch calonogol iawn yn ystod yr haf ac rwy'n llwyr gefnogi'r fargen newydd o ran ein helpu i adeiladu ar y momentwm newydd yr ydym yn ei weld mewn addysg yng Nghymru i wella'r addysgu a'r dysgu ymhellach yn yr ystafell ddosbarth yn ystod y blynyddoedd nesaf.

Just two very quick points from me. One is in regard to engagement with the profession itself. Education, trade unions and their members make it very clear their support for the social partnership approach that you are developing here in Wales to education policy. In particular, I wondered if you could say a little more about how you are engaging effectively with the workforce here in Wales to ensure that the new deal is providing the most effective, up-to-date and relevant professional development possible to practitioners at, as we used to say when I was in school, the chalk face.

Dim ond un neu ddau bwynt cyflym iawn oddi wrthyf i. Mae un ynglŷn ag ymgysylltu â'r proffesiwn ei hun. Mae’r maes addysg, undebau llafur a'u haelodau yn ei gwneud yn glir iawn eu bod yn cefnogi'r dull partneriaeth gymdeithasol yr ydych chi’n ei ddatblygu yma yng Nghymru ar gyfer polisi addysg. Yn benodol, tybed a wnewch chi ddweud ychydig mwy am sut yr ydych yn ymgysylltu'n effeithiol â’r gweithlu yma yng Nghymru i sicrhau bod y fargen newydd yn darparu'r datblygiad proffesiynol mwyaf effeithiol, cyfredol a pherthnasol posibl i ymarferwyr ar, fel yr oeddwn yn arfer ei ddweud pan oeddwn yn yr ysgol, yr wyneb sialc.

Further education is a very important aspect of learning. So, secondly, please clarify about the application of the principles and the benefits of the new deal to the further education sector.

Mae addysg bellach yn agwedd bwysig iawn o ddysgu. Felly, yn ail, os gwelwch yn dda a wnewch chi egluro’r defnydd o'r egwyddorion a manteision y fargen newydd i'r sector addysg bellach.

15:33 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can I thank Jeff Cuthbert? Yes, of course, I expect to see increased collaboration between all the key partners that are players in these important reforms—the consortia, the workforce council themselves, Estyn indeed, and the workforce unions. Everyone knows what works. We have a pretty good idea of where the outstanding practice is, and only by all those actors in the drama working together can we make sure that that outstanding practice becomes normal practice right throughout the country. One of my early actions was to establish a new deal partnership group; essentially, a social partnership between my officials, trade unions and employers, and that group is already developing guidance for schools and colleges on how an entitlement to professional learning can be met for all practitioners, for instance. So, that’s currently what they’re working on.

A gaf i ddiolch i Jeff Cuthbert? Ydw, wrth gwrs, yr wyf yn disgwyl gweld mwy o gydweithio rhwng yr holl bartneriaid allweddol sy'n rhan o’r diwygiadau pwysig hyn—y consortia, cyngor y gweithlu ei hun, Estyn yn wir, a'r undebau gweithlu. Mae pawb yn gwybod beth sy'n gweithio. Mae gennym syniad eithaf da o lle mae'r arfer ragorol, a dim ond trwy sicrhau bod yr holl actorion hynny yn y ddrama yn gweithio gyda'i gilydd y gallwn wneud yn siŵr bod yr arfer rhagorol hwn yn dod yn arfer cyffredin ar hyd a lled y wlad. Un o fy nghamau gweithredu cynnar oedd sefydlu grŵp partneriaeth ar gyfer y fargen newydd; yn y bôn, partneriaeth gymdeithasol rhwng fy swyddogion, undebau llafur a chyflogwyr, ac mae’r grŵp hwnnw eisoes yn datblygu canllawiau i ysgolion a cholegau ar sut y gellir sicrhau hawl i ddysgu proffesiynol ar gyfer pob ymarferydd, er enghraifft. Felly, dyna beth y maent yn gweithio arno ar hyn o bryd.

A new deal consortium group was also established, which includes officials responsible for the new deal and operational leads from the consortia, and the aims of that group are to ensure that all practitioners have access to that high-quality professional development and that all professional learning is of worth and of sufficient quality so that it enables practitioners to refine their practice throughout their career. Of course, the FE sector is an equal partner in all this. The principles of effective professional learning hold true for all education practitioners, and I would expect FEIs to consider how the professional learning model can be applied in the context of developing their workforce, and they’re very much on board, and a part of that wider partnership.

Sefydlwyd grŵp consortiwm bargen newydd hefyd, sy'n cynnwys y swyddogion sy'n gyfrifol am y fargen newydd ac arweinwyr gweithredol o’r consortia, ac amcanion y grŵp hwnnw yw sicrhau bod pob ymarferydd yn cael cyfle i ddilyn datblygiad proffesiynol o ansawdd uchel a bod yr holl ddysgu proffesiynol o werth ac ansawdd digonol fel ei fod yn galluogi ymarferwyr i fireinio eu hymarfer drwy gydol eu gyrfa. Wrth gwrs, mae'r sector addysg bellach yn bartner cyfartal yn hyn i gyd. Mae egwyddorion dysgu proffesiynol effeithiol ar gyfer yr holl ymarferwyr addysg mewn gwirionedd, a byddwn yn disgwyl i sefydliadau addysg bellach ystyried sut y gall y model dysgu proffesiynol gael ei gymhwyso yng nghyd-destun datblygu eu gweithlu, ac maent yn sicr o blaid gwneud hynny, ac yn rhan o’r bartneriaeth ehangach honno.

15:35 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Llefarydd Plaid Cymru, Simon Thomas.

Plaid Cymru spokesperson, Simon Thomas.

15:35 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Diolch, Ddirprwy Lywydd dros dro. Mae Plaid Cymru yn credu'n gryf y dylai fod gan y proffesiwn addysgiadol safonau wedi eu cytuno gan y proffesiwn ei hun, wedi eu harwain gan y proffesiwn, a bod datblygu proffesiynol yn rhan hanfodol o'r ddarpariaeth ar gyfer athrawon a chynorthwywyr dosbarth, a phobl sy'n gweithio yn y maes, ac y dylai fod yna hawl—ac yn fwy na hawl, hyd yn oed, dylai fod yna orfodaeth, i raddau—i gadw lan gyda datblygiad proffesiynol. Ac, i'r graddau y mae datganiad heddiw gan y Gweinidog yn ein symud ni tuag at y nod yna, rwy'n croesawu'r hyn sydd ganddo i'w ddweud, ond mae yna ddau neu dri chwestiwn yn aros.

Thank you, temporary Deputy Presiding Officer. Plaid Cymru strongly believes that the education profession should have standards agreed by the profession itself, led by the profession itself, and that continuous professional development is a crucial part of the provision for teachers, classroom assistants and people working in this area, and that there should be a right, even a requirement to a certain extent, to keep up with professional development. And, to the extent that the Minister's statement today moves us towards that aim, I welcome what the Minister has had to say, but two or three questions remain.

Mae'n rhaid gofyn yn gyntaf i'r Gweinidog a all e esbonio mwy am y ffordd y mae'r proffesiwn yn mynd i arwain a gosod safonau. Soniodd am y digwyddiadau a fydd yn digwydd yn yr hydref yma, a soniodd y bydd safonau yn cael eu hymgynghori arnyn nhw yn gynnar yn y flwyddyn newydd. Ond, ym mha ffordd—ym mha ddulliau—y bydd y partneriaid, nid jest ond yn rhan o'r broses, ond yn arwain ac yn gosod y nod? Mae'n amlwg bod gan Gyngor y Gweithlu Addysg newydd rôl hanfodol i'w chwarae yn hwn. Ac, fel y dywedodd Angela Burns, mae'n eironig bod y math o weledigaeth a oedd gen i—ac, rwy'n meddwl, gan bleidiau eraill hefyd—o'r cyngor yma wedi cael ei gwrthod gan y Gweinidog ar y pryd, wrth i ni drafod y Bil, ac sydd nawr wedi dod i realaeth. Rwy'n croesawu hynny, ond rwy'n ofni—wel, yn hytrach nag ofni, rwy'n gofyn i'r Gweinidog pa drafodaethau, felly, y mae'n eu cael gyda Chyngor y Gweithlu Addysg newydd a'r undebau i wirio bod y cyngor yn addas o hyd ar gyfer y pwrpas mwy eang yma.

I must ask the Minister first if he could explain in greater detail how the profession is going to lead and set standards. He mentioned the events this autumn, and he mentioned that standards will be consulted upon early in the new year. But, how—in what way—will partners not only be a part of the process, but lead the process and set standards? It's clear that the new Education Workforce Council has a crucial role to play in this. And, as Angela Burns said, it is ironic that the kind of vision that I had, and other parties had, of this council was rejected by the Minister at that time, as we discussed the Bill, but it has now come to pass. I welcome that, but I do fear—or, rather, I would ask what discussions the Minister is having with the new Education Workforce Council and the unions to ensure that the council is still fit for purpose in terms of this wider aim.

Rwy'n poeni'n arbennig bod aelodau'r cyngor wedi eu penodi yn uniongyrchol gan y Gweinidog, lle rwyf i o'r farn y dylai fod y proffesiwn ei hun yn arwain ar faes datblygu proffesiynol. Rwyf hefyd yn ofni a ydyw'r cyngor wedi ei ariannu a'i gyllido'n ddigonol. Os edrychwch chi ar yr arian sydd wedi ei neilltuo ar gyfer y fargen newydd, mae tua, rwy'n credu, £40 y pen fesul athro neu fesul gweithiwr addysg. Nid yw'n swnio'n llawer i fi i gynnal y math o weledigaeth y mae'r Gweinidog wedi ei gosod heddiw.

I am particularly concerned that council members are directly appointed by the Minister, where I am of the view that the profession itself should lead on CPD. I also fear that the council is not sufficiently funded. If you look at the funding allocated for the new deal, then it is in the region of £40 per capita, per teacher or worker in this area. It doesn't sound much in terms of the kind of vision that the Minister has set out today.

Un o'r pethau eraill sydd ar goll o'r datganiad, neu sydd ddim wedi ei esbonio'n llawn yn y datganiad, yw yr hyn fydd yn digwydd i athrawon cyflenwi a'r hyn sy'n digwydd i athrawon newydd i wneud yn siŵr bod y ddau set yna o athrawon, sydd wedi cael eu hepgor yn y gorffennol o ddatblygiad proffesiynol, yn cael eu diwallu o ran eu hanghenion. Fe soniodd y Gweinidog fod dau gonsortiwm yn edrych ar ddulliau newydd o gynnwys athrawon newydd, ac rwy'n croesawu hynny, ond mae yna bedwar consortiwm yng Nghymru ac mae eisiau gwneud yn siŵr bod yna ddynesiad cenedlaethol tuag at athrawon newydd ac athrawon cyflenwi. Felly, byddwn i'n hoffi clywed ychydig mwy gan y Gweinidog ar hynny.

One of the other things that's missing from the statement, or isn't fully explained by the statement, is what will happen to supply teachers and what happens to new teachers in order to ensure that the needs of these two sets of teachers, who have been left behind in terms of CPD in the past, are actually met. The Minister mentioned that two consortia are looking at new ways of including new teachers, and I welcome that, but there are four consortia in Wales and we must ensure that we have a national approach in terms of new teachers and supply teachers. So, I would like to hear more from the Minister on that issue.

Y cwestiwn mawr arall, ac fe soniodd y Gweinidog amdano wrth ateb—rwy'n credu taw i Angela Burns oedd e, ond wrth ateb, beth bynnag—yw'r ffaith nad yw amodau a chyflogau athrawon wedi eu datganoli, wrth gwrs. Byddwn i'n gwerthfawrogi diweddariad gan y Gweinidog ynglŷn ag unrhyw drafodaethau sy'n digwydd yn nhermau deddfwriaeth newydd, a symud tuag at ddull newydd o ddatganoli, a dull newydd o gynnal cyfansoddiad y lle hwn; ydy cyflogau ac amodau athrawon yn rhan o hynny? Peth da yw darparu ar gyfer hyfforddiant a datblygu proffesiynol, ond un o'r pethau sy'n tanseilio morâl y proffesiwn, ac athrawon hefyd, yw baich gwaith, a'r ffaith eu bod yn gorfod delio â gwahanol dargedau a gwahanol ddisgwyliadau sydd yn cael eu gosod, ar hyn o bryd, ar lefel Cymru a Lloegr, ac nid yw hynny bellach yn addas, gan fod Lloegr mor wahanol, mor wahanol, o ran ei natur i Gymru.

The other major question I have, and the Minister mentioned this when responding to questions from Angela Burns, I believe, and that is the fact that teachers' pay and conditions are non-devolved, of course. I would appreciate an update from the Minister on any negotiations that may be ongoing in terms of new legislation, and moving towards a new approach of devolving and developing the constitution of this place; are teachers' pay and conditions part of those negotiations? It's excellent that we provide for training and professional development, but one of the things that undermines the morale of the profession, and teachers too, is the workload, and the fact that they have to deal with different targets and expectations set at an England and Wales level at present, and that is no longer appropriate, when England is so different in terms of its nature to Wales.

A oes gan y Gweinidog ragor i'w ddweud hefyd am y radd Meistr mewn ymarfer addysgiadol? Mae yna adroddiadau brith ynglŷn â llwyddiant y radd hon. Roedd i fod yn rhan o'r ateb gan y Llywodraeth tuag at y diffyg datblygiad proffesiynol, yn enwedig ymysg athrawon newydd, ond rwy'n clywed bod yna ddiffygion yn y system, yn enwedig wrth ganfod a chynnal y system mentora tu fewn i'r Meistr. Byddem ni'n hoffi clywed beth yw'r sefyllfa ddiweddaraf ar ran hynny.

Does the Minister have anything else to say on the Master's in educational practice degree? We have had numerous reports on the success of this course. It was to be part of the solution from Government in terms of the absence of CPD, particularly among new teachers, but I hear that there are deficiencies in the system, particularly in maintaining the mentoring system within the Master's degree, so I would like to have an update on that.

Mae'r cwestiwn olaf oll ynglŷn â datblygu hyfforddiant athrawon tu fewn i golegau. Wrth gwrs, fe gawsom ni adroddiad cynhwysfawr iawn gan yr Athro Furlong, ond nid ydym wedi clywed llawer ers hynny ynglŷn â'r gwelliannau sydd eu hangen, ac sydd wedi cael eu cydnabod gan y Gweinidog sydd eu hangen, ar gyfer gwella ymarfer dysgu, ac, yn benodol, ar gyfer gwella sgiliau athrawon o flaen y dosbarth, a sgiliau athrawon ar gyfer cau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng y plant mwyaf difreintiedig a'r gweddill. Rwy'n gobeithio bod modd i'r Gweinidog ateb rhai o'r cwestiynau yna a gwneud hynny ar sail y ffaith fy mod i eisiau gweld yr un peth yn digwydd ag y mae ef wedi'i osod yn y datganiad yma.

The very last question is on the development of teacher training within colleges. Of course, we received a very comprehensive report from Professor Furlong, but we haven't heard much since then on the improvements that are needed, and that the Minister himself has recognised are needed, in order to improve teacher training and specifically to improve teachers' skills in the classroom setting and teachers' skills in closing the attainment gap between the most disadvantaged children and the others. I do hope that the Minister will be able to respond to some of those questions and will do that on the basis that I want to see the same thing happen as he has set out in today's statement.

15:40 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Could I thank Simon Thomas for those comments? I share his view that professionals must take ownership of this entire process. In fact, it must be their process over time, if it is to be as successful as we would want it to be. In terms of how that is led and how that is delivered, well, I have described the social partnership arrangements that we are working through at the moment. These are quite novel—new ways of working. This has never really happened before within our system, and I am very pleased thus far with the way that partners are getting together with a positive mentality about pushing things forward: employers, trade unions and Government working together as one in terms of an agreed set of priorities for the future.

A gaf i ddiolch i Simon Thomas am y sylwadau yna? Yr wyf yn rhannu ei farn bod yn rhaid i weithwyr proffesiynol berchnogi'r broses gyfan hon. Yn wir, mae'n rhaid iddi fod eu proses nhw dros amser, os yw i fod mor llwyddiannus ag y byddem yn dymuno iddi fod. O ran sut y caiff hyn ei harwain a sut y caiff ei ddarparu, wel, rwyf wedi disgrifio'r trefniadau partneriaeth gymdeithasol yr ydym yn gweithio drwyddynt ar hyn o bryd. Mae'r rhain yn ffyrdd eithaf gwreiddiol—newydd o weithio. Nid yw hyn erioed wedi digwydd o'r blaen mewn gwirionedd yn ein system ni, ac rwyf yn falch iawn hyd yma â'r ffordd y mae partneriaid yn dod ynghyd gyda meddylfryd cadarnhaol am wthio pethau ymlaen: cyflogwyr, undebau llafur a'r Llywodraeth yn gweithio gyda'i gilydd fel un ar gyfer cyfres o flaenoriaethau y cytunwyd arnynt ar gyfer y dyfodol.

I’ve also described how, over time, I would see the inheritor body of the workforce council—whether it continues to be called the workforce council; I don’t see any reason, really, to change the name—evolving into a body that goes beyond regulation and discipline in terms of the duties it takes on board and becomes that professional organisation that drives improvement, that oversees quality, that makes demands of its members but also demands respect for its members too. I don’t think that can be simply legislated for overnight. Again, that kind of organisation—. We needed the workforce council to come into legal being, if you like, and that was what the Bill was all about. I don’t think that you can simply legislate to have that kind of capacity—that kind of transformation of relationships within the system—simply appear overnight. It has to be worked for. I think the evolution of this system is a realistic approach towards making sure that trust is maintained in the system, that shocks to the system, which, of course, I’m sure Simon Thomas and others would have complained about, ‘Another almighty reform within the education system,’ and so on, and the trade unions would have said much the same—. I think this way forward, where there is constant dialogue between the partners involved, is more sustainable and is more likely to inspire trust, and trust is very important in terms of the relationship between all the partners involved.

Rwyf wedi disgrifio hefyd sut, dros amser, y byddwn yn gweld y corff a fyddai’n etifeddu gwaith cyngor y gweithlu—pa un a fydd yn parhau i gael ei alw yn gyngor y gweithlu ai peidio; nid wyf yn gweld unrhyw reswm, i newid yr enw, mewn gwirionedd—yn esblygu i fod yn gorff sy'n mynd y tu hwnt i reoleiddio a disgyblu o ran y dyletswyddau y mae'n eu hysgwyddo ac yn dod yn sefydliad proffesiynol sy'n sbarduno gwelliant, goruchwylio ansawdd, gwneud galwadau ar ei aelodau, ond hefyd yn mynnu parch at ei aelodau hefyd. Nid wyf yn meddwl y gellir deddfu ar gyfer hyn dros nos. Unwaith eto, mae’r math hwnnw o sefydliad—.Roedd angen i gyngor y gweithlu ddod i fodolaeth gyfreithiol, os mynnwch chi, a dyna oedd diben y Bil. Nid wyf yn credu y gallwch ddeddfu i gael y math hwnnw o gapasiti—y math hwnnw o weddnewidiad o berthnasoedd o fewn y system—i ymddangos dros nos. Mae'n rhaid gweithio ar hynny. Rwy'n meddwl bod esblygiad y system hon yn ddull realistig o wneud yn siŵr bod ffydd yn cael ei gynnal yn y system, bod y sioc i'r system, a fyddai Simon Thomas ac eraill, rwy'n siŵr, wedi cwyno amdano, 'Diwygio enfawr eto o fewn y system addysg' ac yn y blaen, a byddai’r undebau llafur wedi dweud rhywbeth tebyg—. Rwy'n credu bod y ffordd hon ymlaen, lle mae deialog cyson rhwng y partneriaid sy'n cymryd rhan, yn fwy cynaliadwy ac yn fwy tebygol o ennyn ffydd, ac mae ffydd yn bwysig iawn o ran y berthynas rhwng yr holl bartneriaid sydd ynghlwm.

He’s right that there’s insufficient money. I’ve said this myself and I’ve said it publicly; I’ve said it to the trade unions and anyone else who is prepared to listen: if we’re going to have world-class continuous professional development, overseen and quality controlled by the workforce council in the future, then there has to be a new attitude towards how this is funded. And, of course, there are many professions out there, from lawyers to physiotherapists, who rise to this challenge and, of course, there is a challenge implicit in what I’m saying here for the teaching professionals themselves in terms of the logic that follows. If we want the highest quality, if we want the best in the world, the Welsh Government will be there—the Welsh Government will be a partner in this process—but there is simply insufficient funding in the system as it stands. So, the question is there. Employers, professionals themselves and Government will have to step up to that challenge: all three, the professionals included.

Mae'n iawn i ddweud nad oes digon o arian. Rydw i wedi dweud hyn fy hun ac rwyf wedi dweud hynny’n gyhoeddus; Rwyf wedi dweud hynny wrth yr undebau llafur ac unrhyw un arall sy'n barod i wrando: os ydym yn mynd i gael datblygiad proffesiynol parhaus o’r radd flaenaf, y bydd cyngor y gweithlu yn ei oruchwylio ac yn rheoli ei ansawdd yn y dyfodol, yna mae'n rhaid cael agwedd newydd tuag at sut y mae hyn yn cael ei ariannu. Ac, wrth gwrs, mae llawer o broffesiynau allan yna, o gyfreithwyr i ffisiotherapyddion, sy'n codi i'r her hon ac, wrth gwrs, mae her yn rhan annatod o’r hyn rwy'n ei ddweud yma ar gyfer y gweithwyr addysgu proffesiynol eu hunain o ran y rhesymeg sy'n dilyn. Os ydym am gael y safon uchaf, os ydym am gael y gorau yn y byd, bydd Llywodraeth Cymru yno—bydd Llywodraeth Cymru yn bartner yn y broses—ond yn syml nid oes digon o arian yn y system fel ag y mae. Felly, mae’r cwestiwn yn bodoli. Bydd yn rhaid i gyflogwyr, y gweithwyr proffesiynol eu hunain a'r Llywodraeth godi i’r sialens: y tri ohonynt, gan gynnwys y gweithwyr proffesiynol.

Supply teachers are included. Of course, they will have their professional passport, but he is right to say that the dead hand of Whitehall remains there in terms of the pay and conditions. I can’t give him an update on where the negotiations are in terms of the Wales Bill and where we might be with pay and conditions; I’m afraid that’s happening somewhat above my pay grade at the moment and is somewhere in the communications between Whitehall and the First Minister’s office, I imagine. But I will be able to give an update—well, I’m sure the First Minister will give an update very shortly in terms of what that Wales Bill means for us, but he is right to say, and I agree with him on this, and this is very important, that this England-and-Wales model of the management of the profession and their pay and conditions is becoming increasingly unsustainable.

Mae athrawon cyflenwi wedi eu cynnwys. Wrth gwrs, bydd ganddynt hwythau eu pasbort proffesiynol, ond mae'n iawn i ddweud bod dylanwad Whitehall yn parhau i fod yno o ran tâl ac amodau. Ni allaf roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddo am sefyllfa’r trafodaethau ar Fil Cymru a lle y gallem fod o ran cyflog ac amodau; rwy'n ofni bod hynny'n digwydd ychydig yn uwch na fy ngradd cyflog i ar hyn o bryd ac mae yn rhywle yn y cyfathrebu rhwng Whitehall a swyddfa'r Prif Weinidog, mae’n siŵr. Ond byddaf yn gallu rhoi diweddariad—wel, rwy'n siŵr y bydd y Prif Weinidog yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf yn fuan iawn o ran yr hyn y mae Bil Cymru yn ei olygu i ni, ond mae'n iawn i ddweud, ac yr wyf yn cytuno ag ef ar hyn, ac mae hyn yn bwysig iawn, bod y model Cymru a Lloegr hwn o reoli’r proffesiwn a’i gyflog a’i amodau yn dod yn fwyfwy anghynaladwy.

The fragmented nature of the system in England now already bears scant resemblance to the way things are run in Wales, and certainly does not represent a model that we would wish to emulate in any way at all—well, I can't think of any way, anyway. So, logic, in my mind, in terms of what is best for our pupils, best for our schools and best for our professionals, is that we are allowed to get on with developing and moulding a system that suits the Welsh educational setup: that, surely, is what devolution is all about.

Mae natur dameidiog y system yn Lloegr eisoes yn anhebyg iawn i'r ffordd y mae pethau'n cael eu gweithredu yng Nghymru, ac yn sicr nid yw'n cynrychioli model y byddem ni yn dymuno ei efelychu mewn unrhyw ffordd o gwbl—wel, ni allaf feddwl am unrhyw ffordd, beth bynnag. Felly, yn fy marn i, o ran yr hyn sydd orau i'n disgyblion, sydd orau ar gyfer ein hysgolion ac sydd orau ar gyfer ein gweithwyr proffesiynol, yw ein bod yn cael mynd ati i ddatblygu a llunio system sy'n addas i'r drefn addysgol yng Nghymru: a dyna, siawns, yw diben datganoli.

The Master's, of course, is still being delivered. There were some issues around mentoring. My understanding is that the problems were around staffing and mentoring, which were due, I think, to a large number of unforeseen health problems among some mentors and so on, but I will write to him with an update—my understanding is that those shortfalls have been met. The Master's, of course, is something else that will need to evolve as we talk about what Furlong means, which brings me to his last point. I will be making further announcements regarding follow-through on John Furlong's equally important report—it's of equal importance to the new deal—very shortly; I anticipate next month.

Mae'r cwrs Meistr, wrth gwrs, yn dal i gael ei ddarparu. Roedd rhai materion yn ymwneud â mentora. Fy nealltwriaeth i yw bod y problemau yn ymwneud â staffio a mentora, a oedd, rwy'n meddwl, o ganlyniad i nifer fawr o broblemau iechyd annisgwyl ymysg rhai mentoriaid ac yn y blaen, ond byddaf yn ysgrifennu ato gyda'r wybodaeth ddiweddaraf—fy nealltwriaeth i yw bod y diffygion hynny wedi'u bodloni. Mae'r cwrs Meistr, wrth gwrs, yn rhywbeth arall y bydd angen i ni ei ddatblygu wrth i ni siarad am yr hyn y mae Furlong yn ei olygu, sy'n dod â mi at ei bwynt olaf. Byddaf yn gwneud cyhoeddiadau pellach ynghylch gwaith dilynol ar adroddiad John Furlong, sydd yr un mor bwysig—yr un mor bwysig i'r fargen newydd—yn fuan iawn; rwy'n rhagweld mai'r mis nesaf fydd hynny.

15:47

## Rhodri Glyn Thomas [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Unwaith eto, rŷm ni wedi mynd y tu hwnt i'r amser sydd wedi'i ddynodi ar gyfer y datganiad hwn ond mae yna un llefarydd i ofyn cwestiynau eto, ac nid oes modd i'w ddal ef yn gyfrifol am y ffaith ein bod wedi mynd y tu hwnt i'r amser—Aled Roberts, llefarydd y Democratiaid Rhyddfrydol.

Once more, we've gone beyond the time allocated for this statement but there is one spokesperson left to ask questions, and there's no way to hold him responsible for the fact that we've gone beyond the time—Aled Roberts, the spokesperson for the Liberal Democrats.

15:47

## Aled Roberts [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Diolch, Ddirprwy Lywydd dros dro. Rwy'n siŵr y gwnaf gymryd eich cyfarwyddyd chi.

Thank you, temporary Deputy Presiding Officer. I'm sure I'll take your guidance.

A gaf i jest ofyn yn fras, Weinidog, rydych chi wedi sôn, wedi cyfaddef, i ryw raddau, bod—. Nid wyf yn meddwl bod unrhyw un o'r gwrthbleidiau'n anghytuno efo'r bwriad yma bod y proffesiwn yn gyfrifol am ffordd ymlaen ac yn gyfrifol am safonau a, hwyrach, ein bod ni fel gwleidyddion yn camu'n ôl, i ryw raddau. Ond, wrth wneud hynny, wrth gwrs, rydych chi wedi dweud bydd yna gost i hynny. A gaf i ofyn ichi, wrth i chi ddweud y prynhawn yma eich bod chi'n bwriadu bod y pasbort electronig yma yn cael ei gyflwyno'n llawn erbyn mis Medi 2016, os yw'r gost o redeg y pasbort yna'n flynyddol, rŵan, wedi cael ei asesu?

May I just ask briefly, Minister, you have mentioned, admitted, to some extent—. I don't think that any of the opposition parties disagree with this intention that the profession is responsible for the way forward and responsible for standards, and that, perhaps, we as politicians should step back, to some extent. But, in doing so, of course, you have said that there will be a cost to that. May I ask you, as you say this afternoon that you intend to have this electronic passport in place by September 2016, if the cost of implementing this passport on an annual basis, now, has been assessed?

Wrth symud ymlaen i'r cyngor neu ba gorff bynnag fydd yno yn y dyfodol yn derbyn cyfrifoldeb dros y proffesiwn a safonau'r proffesiwn a datblygiad proffesiynol, rydych chi wedi sôn y bydd yna drafodaethau rhwng yr undebau, cyflogwyr a'r Llywodraeth dros y misoedd sydd i ddod. Mae'n debyg mai'r prif rwystr i unrhyw gytundeb, i ryw raddau, ydy'r gost, os ydych chi'n trosglwyddo'r gost i'r athrawon unigol. A ydy'r holl waith yna wedi'i gwblhau, wrth gofio, wrth gwrs, bod y ffioedd ar hyn o bryd, i ryw raddau, yn cael eu derbyn gan y cynghorau? Os oes yna godiad sylweddol o ran y gost i'r athrawon, a ydych chi wedi trafod, hwyrach, efo'r Gweinidog Cyllid, os bydd yna drefniadau dros dro am gyfnod i ysgwyddo rhan o'r baich o ran y Llywodraeth?

In moving forward to the council or whatever body will be there in the future taking responsibility for the profession and the professional standards and CPD, you've mentioned that there will be discussions between the unions, employers and the Government over the next few months. It seems that the main barrier to any arrangement, to some extent, is the cost, if you transfer the cost to the individual teachers. Has all of that work been completed, given, of course, that the fees at the moment, to some extent, are received by the councils? If there is a substantial increase in terms of costs to the teachers, have you discussed, perhaps, with the finance Minister, whether there will be temporary arrangements for a period to shoulder part of that burden in terms of the Government?

Rydych chi hefyd wedi dweud bod y consortia, neu ddau o'r consortia, yn cwblhau gwaith o ran trefniadau ar gyfer athrawon newydd. Mae'r pwyllgor plant, wrth gwrs, wedi bod yn poeni'n fawr am y sefyllfa wrth i'r athrawon newydd yna fod yn gyfrifol am lawer iawn o'r swyddi cyflenwol. A allwch ddweud wrthym ni pa gonsortia sydd yn cyflwyno'r rhaglenni yna ac a ydy'r ddwy raglen yn union yr un fath neu a fyddwch chi fel Llywodraeth yn asesu llwyddiant y ddwy raglen wahanol? A ydych chi'n bwriadu y bydd yna amserlen benodol i gael cyflwyno'r trefniadau newydd yna ar gyfer athrawon cyflenwi o fewn hyn a hyn o amser?

You've also said that the consortia, or two of the consortia, are completing work in terms of arrangements for new teachers. The children committee, of course, has been very concerned about the situation as those new teachers become responsible for many of the supply roles. Can you tell us which consortia are introducing these programmes and are the two programmes exactly the same or will you as a Government be assessing the success of the two different programmes? Do you intend to have a specific timetable for introducing those new arrangements for supply teachers within such and such a time?

Rwy'n croesawu beth rydych chi wedi dweud prynhawn yma ynglŷn â phrifathrawon. Mae gennyf brofiad yn f'ardal i o ddirprwyon nid eu bod nhw ddim yn awyddus i gael swyddi fel prifathrawon, ond eu bod nhw ddim yn gallu mynd ar y cwrs, ac, o achos hynny—. Mae yna bolisi o fewn rhai cynghorau, heb y cymhwyster yna, eich bod chi ddim hyd yn oed yn gallu ceisio am swydd prifathro.

I do welcome what you said this afternoon regarding headteachers. I have experience in my own area of deputy heads who aren't not keen to go on to be headteachers, but can't go on the course, and, as a result of that—. There's a policy within some councils that, without that qualification, you can't even try for the post of headteacher.

Hefyd, a gaf i ofyn ichi a ydy'r cyfarwyddyd yma o ran y canllawiau newydd o ran cynlluniau datblygu staff—a ydy'r cynghorau wedi ysgrifennu at y cyrff llywodraethol? Mi oedd gennyf gyfarfod o gorff llywodraethol wythnos diwethaf adref, ac roeddem ni'n trafod cynllun datblygu'r ysgol, ond nid oeddwn i'n ymwybodol tan heddiw bod yna ganllawiau newydd yn eu lle ar gyfer datblygu staff. Felly, hwyrach bod yna angen i'r Llywodraeth wneud yn siŵr bod y neges yna yn cael ei gyflwyno i'r ysgolion unigol er mwyn i lywodraethwyr—os ydych chi'n dweud eu bod nhw'n gyfrifol—dderbyn y cyfrifoldeb yna.

Also, may I ask you if this guidance relating to the new guidelines on staff development plans—have the councils written to the governing bodies? I had a meeting of a governing body last week back home, and we were discussing the school's development plan, but I hadn't been aware until today that new guidelines are in place for developing staff. So, perhaps there is a need for the Government to ensure that that message is conveyed to individual schools in order for governors—if you say they're responsible—to take that responsibility.

15:51

## Huw Lewis Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Could I thank Aled Roberts for those points? I think he's quite right, and I think there is a consensus emerging within Wales, politically and in other places, about the need for politicians, over time, to step back—I think that was the phrase that Aled Roberts used. I think that's quite right. I think the key body of people that needs to be energised and enabled if school improvement is—. If our system is to become a self-improving system, the key body of people does not consist of politicians; it consists of teaching professionals. I am reminded, actually, of an interview that I heard once with the Finnish education Minister, who, with very typical Scandinavian bluntness, once commented that it was fantastic being education Minister in Finland, because there wasn't very much to do. I'd look forward to that. [Laughter.] I don't know if I'll live quite long enough to see it, but I think you get the thrust of my meaning.

A gaf i ddiolch i Aled Roberts am y pwyntiau yna? Rwy'n credu ei fod yn hollol iawn, ac yr wyf yn meddwl bod consensws yn dod i'r amlwg o fewn Cymru, yn wleidyddol ac mewn mannau eraill, am yr angen i wleidyddion, dros amser, gamu'n ôl—rwy'n meddwl mai dyna'r ymadrodd a defnyddiodd Aled Roberts. Rwy'n credu bod hynny'n hollol iawn. Rwy'n meddwl bod y corff allweddol o bobl y mae angen rhoi'r egni a'r gallu iddynt os ydym am wella ysgolion—.Os yw ein system am fod yn drefn hunan-wella, nid yw'r corff allweddol o bobl yn cynnwys gwleidyddion; mae'n cynnwys gweithwyr addysgu proffesiynol. Yn wir, caf fy atgoffa o gyfweliad a glywais unwaith gyda Gweinidog Addysg y Ffindir, a ddywedodd unwaith, yn ei fodd di-flewyn ar dafod sy'n nodweddiadol iawn o'r gwledydd Sgandinafaidd, ei bod yn wych i fod yn Weinidog Addysg yn y Ffindir gan nad oedd llawer iawn i'w wneud. Byddwn yn edrych ymlaen at hynny. [Chwerthin.] Nid wyf yn gwybod os byddaf yn byw yn ddigon hir i weld hynny, ond rwy'n meddwl eich bod yn deall yr hyn yr oeddwn yn ei olygu.

In terms of the passport, and I'll say this in relation to your comments about the workforce council and resources, there is no more resource. The Welsh Conservatives' colleagues in Whitehall have seen to that. There is no more resource than that which already exists within the system. The passport itself is of minimal cost, really. It is, essentially, an electronic document that will be held by the workforce council and updated by the professional in consultation with their line management, with their headteacher, and there will be an oversight, then, through the consortia in terms of making sure that everyone is up to speed with all that. So, I wouldn't anticipate that there would be huge outlay there.

O ran y pasbort, byddwn yn dweud ynglŷn â'ch sylwadau am y cyngor a'r adnoddau gweithlu, nad oes mwy o adnoddau. Cydweithwyr y Ceidwadwyr Cymreig yn Whitehall sy'n gyfrifol am hynny. Nid oes mwy o adnoddau na'r hyn sydd eisoes yn bodoli yn y system. Mae'r pasbort ei hun yn gost isel, mewn gwirionedd. Yn ei hanfod, mae'n ddogfen electronig a fydd yn cael ei gynnal gan gyngor y gweithlu a'i ddiweddaru gan y gweithiwr proffesiynol mewn ymgynghoriad â'i reolwyr llinell, gyda'i bennaeth, a bydd goruchwyliaeth, wedyn, drwy'r consortia o ran gwneud yn siŵr bod pawb yn deall hyn i gyd. Felly, ni fyddwn yn rhagweld y byddai gwariant enfawr yn hynny o beth.

But you're quite right to say that, when it comes to the generality of a step change in the quality of provision of CPD, well, we are, in all likelihood, talking about very different levels of resource. I've asked officials to begin modelling, roughly, in outline, what that might mean in terms of contributions from Government, perhaps from local government and consortia, and from the professionals as well, and what kind of models of co-financing we could begin to talk about through social partnership. Now, a great deal depends upon the attitude of the professional bodies here. A system, perhaps, that is a pooling of resource through the workforce council, a system that is on a sliding scale according to the seniority and pay packet of the professional, so that headteachers, of course, would be paying a little more than newly qualified teachers, would seem reasonable, but these things remain to be discussed, and I do not have any intention of imposing a model without having proper discussion first. But I have asked officials to begin to, in outline, draw up some alternative models for initial consideration. Those will shortly be available, and I will be keeping them a state secret.

Ond rydych yn hollol iawn i ddweud, pan geir newid sylweddol cyffredinol mewn ansawdd darpariaeth datblygiad proffesiynol parhaus, wel, rydym ni, yn ôl pob tebyg, yn siarad am lefelau gwahanol iawn o adnoddau. Rwyf wedi gofyn i swyddogion ddechrau modelu, yn fras, fel amlinelliad, yr hyn y gallai ei olygu o ran y cyfraniadau gan y Llywodraeth, efallai gan lywodraeth leol a chonsortia, a chan y gweithwyr proffesiynol hefyd, a pha fath o fodelau o gyd-ariannu y gallem ddechrau eu trafod trwy bartneriaeth gymdeithasol. Nawr, mae llawer iawn yn dibynnu ar agwedd y cyrff proffesiynol yn hyn o beth. Mae system, efallai, sy'n cyfuno adnoddau trwy gyngor y gweithlu, system sydd ar raddfa amrywiol yn ôl statws a chyflog y gweithiwr proffesiynol, fel bod penaethiaid, wrth gwrs, yn talu ychydig yn fwy nag athrawon sydd newydd gymhwyso, yn ymddangos yn rhesymol, ond nid ydym wedi trafod y pethau hyn eto, ac nid oes gennyf unrhyw fwriad o orfodi model heb gael trafodaeth briodol i ddechrau. Ond rwyf wedi gofyn i swyddogion ddechrau llunio rhai modelau amgen yn fras ar gyfer ystyriaeth gychwynnol. Bydd y rheini ar gael yn fuan, a byddaf yn eu cadw'n gwbl gyfrinachol.

In terms of his comments around governing bodies, I'm very concerned about that. I should have thought, through the normal newsletters and updates, that governing bodies should be up to speed with that. I'll ask my officials to investigate. I hope it's an isolated case, and I will write to him once I get to the bottom of what's going on there.

O ran ei sylwadau am gyrff llywodraethu, rwy'n bryderus iawn am hynny. Byddwn i'n meddwl, trwy'r cylchlythyrau a diweddariadau arferol, y dylai cyrff llywodraethu fod yn ymwybodol o hyn. Byddaf yn gofyn i'm swyddogion ymchwilio. Rwy'n gobeithio mai achos unigol yn unig yw hwn, a byddaf yn ysgrifennu ato, ar ôl i mi fynd at wraidd yr hyn sy'n digwydd yn y fan yna.

15:55

### Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch yn fawr iawn, Weinidog.

Thank you very much, Minister.

15:55

## 5. Datganiad: Gweithlu'r Gwasanaethau Cyhoeddus

## 5. Statement: Public Service Workforce

Senedd.tv Fideo Video

### Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography

Datganiad gan y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus, gweithlu'r gwasanaethau cyhoeddus—y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus, Leighton Andrews.

A statement by the Minister for Public Services, public service workforce. I call on the Minister for Public Services, Leighton Andrews.

15:55

### Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus / The Minister for Public Services*

Diolch, Ddirprwy Lywydd dros dro.

Thank you, temporary Deputy Presiding Officer.

This Government recognises that strong public services rely on committed public servants with the right skills and support to deliver them.

Mae'r Llywodraeth hon yn cydnabod bod gwasanaethau cyhoeddus cryf yn dibynnu ar weision cyhoeddus ymroddedig sydd â'r sgiliau a'r gefnogaeth briodol i'w cyflawni.

There are important challenges to address in protecting and improving our public services against a backdrop of the UK Government's austerity measures. But the challenges do not only come from austerity. The changing needs and expectations of our citizens and new technologies also mean that public services continue to evolve and reform. By working in social partnership with employers and trade unions through the Public Service Workforce Partnership Council we are ensuring that reform provides opportunities for workforce development as well as seeking to provide future security for our valued public service workforce. The Welsh Government has an agenda for developing and supporting the public service workforce to maximise its contribution to the delivery of devolved public services.

Mae heriau pwysig i fynd i'r afael â nhw wrth ddiogelu a gwella ein gwasanaethau cyhoeddus yn erbyn cefndir o fesurau cyni Llywodraeth y DU. Ond nid yw'r heriau yn dod o ganlyniad i'r mesurau cyni yn unig. Mae'r ffaith bod anghenion a disgwyliadau ein dinasyddion yn newid a thechnolegau newydd hefyd yn golygu bod gwasanaethau cyhoeddus yn parhau i esblygu a diwygio. Trwy weithio mewn partneriaeth gymdeithasol â chyflogwyr ac undebau llafur drwy Gyngor Partneriaeth y Gweithlu Gwasanaethau Cyhoeddus rydym yn sicrhau diwygiadau sy'n darparu cyfleoedd ar gyfer datblygu'r gweithlu yn ogystal â cheisio darparu diogelwch ar gyfer y dyfodol i'n gweithlu gwasanaethau cyhoeddus a werthfawrogir. Mae gan Lywodraeth Cymru agenda ar gyfer datblygu a chefnogi'r gweithlu gwasanaethau cyhoeddus i wneud cymaint o gyfraniad â phosib tuag at ddarparu gwasanaethau cyhoeddus datganoledig.

As one part of this, on 24 March I announced I would be setting up a non-statutory Public Services Staff Commission. I subsequently announced that Gill Lewis had been appointed as chair. Joining Gill are Sally Ellis, Margaret Foster, Graham Jones, Martin Mansfield and Harry Thomas—five well-respected and able individuals in their fields. We have also appointed the staff commission chief executive, following an open external recruitment exercise. Alison Phillips, currently deputy commissioner at the older people's commissioner for Wales, will start shortly.

Fel un rhan o hyn, ar 24 Mawrth, cyhoeddais y byddwn yn sefydlu Comisiwn Staff Gwasanaethau Cyhoeddus anstatudol. Yn dilyn hynny cyhoeddais fod Gill Lewis wedi ei phenodi yn gadeirydd. Yn ymuno â Gill mae Sally Ellis, Margaret Foster, Graham Jones, Martin Mansfield a Harry Thomas—pum unigolyn medrus ac uchel eu parch yn eu meysydd. Rydym hefyd wedi penodi prif weithredwr y comisiwn staff, yn dilyn ymarfer recriwtio allanol agored. Bydd Alison Phillips, sy'n ddirprwy gomisiynydd yn swyddfa'r comisiynydd pobl hŷn yng Nghymru ar hyn o bryd, yn dechrau cyn bo hir.

The staff commission will hold its first meeting with the Workforce Partnership Council next month to discuss its work programme. Clearly, the reforms for local government mean there are critical workforce matters for the commission to consider. I believe local authority employers, employees and unions will welcome the authoritative advice the commission can offer. However, the strategic priorities to deliver our vision for transformational change and improving public services relate to matters that go beyond local government, so the staff commission will be equally important in advising and supporting change in other parts of our public sector.

Bydd y comisiwn staff yn cynnal ei gyfarfod cyntaf gyda Chyngor Partneriaeth y Gweithlu fis nesaf i drafod ei raglen waith. Yn amlwg, mae'r diwygiadau i lywodraeth leol yn golygu bod materion gweithlu allweddol i'r comisiwn eu hystyried. Credaf y bydd cyflogwyr awdurdod lleol, gweithwyr ac undebau yn croesawu'r cyngor awdurdodol y gall y comisiwn ei gynnig. Fodd bynnag, mae'r blaenoriaethau strategol i gyflawni ein gweledigaeth ar gyfer newid trawsnewidiol a gwella gwasanaethau cyhoeddus yn ymwneud â materion sy'n mynd y tu hwnt i lywodraeth leol, felly bydd y comisiwn staff yr un mor bwysig wrth gynghori a chefnogi newid mewn rhannau eraill o'n sector cyhoeddus.

The commission's role will be to develop advice on workforce issues that require action and resolution arising from public service reform, as well as a number of cross-public sector issues. As part of their work, I expect the commission to build on existing analysis, including the work conducted by the NHS workforce review.

Swyddogaeth y comisiwn fydd datblygu cyngor ar faterion y gweithlu sydd angen camau gweithredu a datrysiad yn codi o ddiwygio gwasanaethau cyhoeddus, yn ogystal â nifer o faterion ar draws y sector cyhoeddus. Yn rhan o'i waith, rwyf yn disgwyl i'r comisiwn adeiladu ar ddadansoddiad sydd eisoes yn bodoli, gan gynnwys y gwaith a wnaed gan yr adolygiad o weithlu'r GIG.

Public services are an integral part of all of our lives. They are not secured by diminishing the terms and conditions of people who deliver them. To support good services, therefore, we have been developing other important workforce matters in partnership with trade unions and public sector employers at the Workforce Partnership Council.

Mae gwasanaethau cyhoeddus yn rhan annatod o fywydau pob un ohonom. Nid ydynt yn cael eu sicrhau drwy waethygu telerau ac amodau'r bobl sy'n eu darparu. Er mwyn cefnogi gwasanaethau da, felly, rydym wedi bod yn datblygu materion gweithlu pwysig eraill mewn partneriaeth ag undebau llafur a chyflogwyr y sector cyhoeddus yng Nghyngor Partneriaeth y Gweithlu.

On 7 July I announced the publication of research into the use and impact of zero-hours contracts in devolved public services in a written statement. The research highlighted the varied circumstances in which zero-hours contracts are used across public services and highlights issues associated with their use that warrant further consideration and action.

Ar 7 Gorffennaf, cyhoeddais mewn datganiad ysgrifenedig y byddwn yn cyhoeddi ymchwil i'r defnydd o gontractau dim oriau a'u heffaith yn y gwasanaethau cyhoeddus datganoledig. Mae'r ymchwil yn tynnu sylw at yr amgylchiadau amrywiol lle mae contractau dim oriau yn cael eu defnyddio ym mhob rhan o'r gwasanaethau cyhoeddus ac yn amlygu materion sy'n gysylltiedig â'u defnydd sy'n haeddu ystyriaeth a gweithredu pellach.

I've asked the Public Services Staff Commission to develop guidance to address issues associated with the use of zero-hours contracts. This will set clear expectations on practices that we should expect of all public sector employers to ensure that zero-hours contracts are not used inappropriately. Alongside this, work is currently under way to issue procurement advice to set similar expectations for public service contractors. The Minister for Health and Social Services has initiated specific research on the impact of issues, including zero hours, in the context of social care, because of some of the particular implications for that sector.

Rwyf wedi gofyn i Gomisiwn Staff y Gwasanaethau Cyhoeddus ddatblygu canllawiau er mwyn ymdrin â materion sy'n gysylltiedig â'r defnydd o gontractau dim oriau. Bydd hyn yn gosod disgwyliadau clir ar arferion y dylem eu disgwyl gan bob cyflogwr yn y sector cyhoeddus i sicrhau nad yw contractau dim oriau yn cael eu defnyddio'n amhriodol. Ochr yn ochr â hyn, mae gwaith ar y gweill ar hyn o bryd i gyhoeddi cyngor am gaffael i osod disgwyliadau tebyg ar gyfer contractwyr gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cychwyn ymchwil penodol ar effaith materion, gan gynnwys dim oriau, yng nghyd-destun gofal cymdeithasol, oherwydd rhai o'r goblygiadau penodol ar gyfer y sector hwnnw.

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair.*

*The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair.*

## Leighton Andrews [Bywgraffiad] [Biography]

We know that statutory guidance issued by the Welsh Government does have a positive impact on matters affecting the workforce. Last year we re-issued the two-tier code with an accompanying procurement advice notice. Monitoring undertaken with the workforce partnership council since has shown that, generally, local authorities are implementing the code provisions within contracts.

Rydym yn gwybod bod y canllawiau statudol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn cael effaith gadarnhaol ar faterion sy'n effeithio ar y gweithlu. Y llynedd, ailgyhoeddwyd y cod dwy haen gyda hysbysiad cynghori ar gaffael yn cyd-fynd ag ef. Mae gwaith monitro a wnaed gyda chyngor partneriaeth y gweithlu ers hynny wedi dangos, yn gyffredinol, bod awdurdodau lleol yn gweithredu darpariaethau'r cod mewn contractau.

The Welsh Government continues to support the role of a living wage in alleviating problems caused by low wages as part of our tackling poverty agenda, encouraging employers in the public, third and private sector to pay a real living wage. The Welsh NHS implemented the living wage for all directly-employed employees from 1 January this year, which is not the case in England. Work undertaken shows that over 4,000 full-time equivalent workers benefitted directly from this increase. Our focus will remain the rate set by the Living Wage Foundation, and not the lower, alternative formulation proposed by the UK Government. We will continue to be true to our principles of fairness on pay, rejecting the UK Government's approach like we did on their flawed proposals for regional public sector pay. Over the coming months, we will continue to work in social partnership with public sector employers and trade unions to understand the costs of delivering a living wage for Welsh local government and to explore how the living wage may be applied consistently across local government in Wales.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi swyddogaeth cyflog byw i leddfu problemau a achosir gan gyflogau isel yn rhan o'n hagenda trechu tlodi, annog cyflogwyr yn y sector cyhoeddus, y trydydd sector a'r sector preifat i dalu cyflog byw gwirioneddol. Gweithredodd y GIG yng Nghymru y cyflog byw ar gyfer pob gweithiwr a gyflogir yn uniongyrchol o 1 Ionawr eleni ymlaen, ac nid yw hyn yn wir yn Lloegr. Dengys gwaith sydd wedi'i wneud bod dros 4,000 o weithwyr cyfwerth ag amser llawn yn elwa'n uniongyrchol ar y cynnydd hwn. Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar y gyfradd a bennir gan y Sefydliad Cyflog Byw, ac nid y fformiwla arall, is a gynigiwyd gan Lywodraeth y DU. Byddwn yn parhau i lynu at ein hegwyddorion cyflog teg, gan wrthod dull Llywodraeth y DU fel y gwnaethom ar eu cynigion diffygiol ar gyfer tâl sector cyhoeddus rhanbarthol. Dros y misoedd nesaf, byddwn yn parhau i weithio mewn partneriaeth gymdeithasol â chyflogwyr yn y sector cyhoeddus ac undebau llafur i ddeall costau darparu cyflog byw ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru ac i archwilio sut y gall y cyflog byw gael ei gymhwyso'n gyson ym mhob rhan o lywodraeth leol yng Nghymru.

One of the workforce partnership council's key priorities has been to make progress on strategic workforce planning and mobility across the devolved public sector. Work is under way to carry out a workforce planning exercise across all devolved public sector employers, which will support the future mobility of staff across the public sector and the development of appropriate, timely interventions. Approaches to workforce planning have to be flexible enough to respond to the evolving changes in service delivery, and to enable public sector workers to retain or develop their skills within the sector, even if this is with a new employer. Our overall aim is to retain skilled employees within Welsh public services, ensuring we make best use of the workforce to deliver quality services, even in the face of continued UK Government austerity.

Un o flaenoriaethau allweddol cyngor partneriaeth y gweithlu yw gwneud cynnydd o ran cynllunio'r gweithlu yn strategol a symudedd ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus datganoledig. Mae gwaith ar y gweill i gynnal ymarfer cynllunio'r gweithlu gyda holl gyflogwyr y sector cyhoeddus datganoledig, a fydd yn cefnogi symudedd staff yn y dyfodol ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus a datblygu ymyriadau amserol a phriodol. Mae'n rhaid i ddulliau o gynllunio'r gweithlu fod yn ddigon hyblyg i ymateb i'r newidiadau sy'n datblygu o ran darparu gwasanaethau, ac i alluogi gweithwyr y sector cyhoeddus i gadw neu ddatblygu eu sgiliau yn y sector, hyd yn oed os yw hyn gyda chyflogwr newydd. Ein nod cyffredinol yw cadw gweithwyr medrus yn y gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, gan sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o'r gweithlu i ddarparu gwasanaethau o safon, hyd yn oed yn wyneb mesurau cyni parhaus Llywodraeth y DU.

We reject the divisive approach taken by the UK Government, as exemplified by the Trade Union Bill they have brought forward. The First Minister has written to the Prime Minister to make clear that we believe this Bill will lead to more confrontational relationships between employers and workers, and ultimately undermine, rather than support, public services and the economy. We know there are no easy solutions to many of the issues facing our public services, and we recognise that it will not always be possible to deliver everything we want. However, I continue to believe our social partnership approach provides the best opportunity to ensure we are able to make best use of the talent and commitment we see day in, day out from our public service workforce.

Rydym yn gwrthod y dull ymrannol a gymerwyd gan Lywodraeth y DU, fel y dangosir gan y Bil Undebau Llafur y mae wedi ei gyflwyno. Mae Prif Weinidog Cymru wedi ysgrifennu at Brif Weinidog y DU i nodi'n glir ein bod yn credu y bydd y Bil hwn yn arwain at fwy o wrthdaro yn y berthynas rhwng cyflogwyr a gweithwyr, ac yn y pen draw yn tanseilio, yn hytrach na chefnogi, y gwasanaethau cyhoeddus a'r economi. Rydym yn gwybod nad oes unrhyw atebion hawdd i lawer o'r materion sy'n wynebu ein gwasanaethau cyhoeddus, ac rydym yn cydnabod na fydd yn bosibl cyflawni popeth yr ydym ei eisiau bob amser. Fodd bynnag, yr wyf yn dal i gredu bod ein dull partneriaeth gymdeithasol yn rhoi'r cyfle gorau i sicrhau ein bod yn gallu gwneud y defnydd gorau o'r doniau a'r ymroddiad a welwn ddydd ar ôl dydd gan ein gweithlu yn y gwasanaethau cyhoeddus.

16:03

## Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I would like to thank the Minister for his statement here today. However, I would like to raise a few points. You mentioned the reforms to local government. I would just like to remind you that those reforms—particularly your imposed map for local authority mergers—have not been agreed by any democratic mandate. Currently, I must advise you that our local authorities—many of their staff and members—remain very concerned amid the chaos that you yourself have created in this regard.

Hoffwn ddiolch i'r Gweinidog am ei ddatganiad yma heddiw. Fodd bynnag, hoffwn godi ambell bwynt. Soniasoch am y diwygiadau i lywodraeth leol. Hoffwn eich atgoffa nad yw'r diwygiadau hyn—yn enwedig y map yr ydych wedi ei orfodi ar gyfer uno awdurdodau lleol—wedi eu cytuno gan unrhyw fandad democrataidd. Ar hyn o bryd, mae'n rhaid i mi eich hysbysu bod ein hawdurdodau lleol—llawer o'u staff a'u haelodau—yn dal yn bryderus iawn yng nghanol yr anhrefn yr ydych chi eich hun wedi ei greu yn hyn o beth.

There are a number of questions I would like to ask regarding the Public Services Staff Commission. How will the commission be accountable, and to whom? How will the Welsh Government ensure transparency and political neutrality between the commission, public service workers and the Welsh Government? How will you clarify how the commission will be promoted to local staff, who are currently very concerned about their own employment?

Mae nifer o gwestiynau yr hoffwn eu gofyn ynghylch Comisiwn Staff y Gwasanaethau Cyhoeddus. Sut y bydd y comisiwn yn atebol, ac i bwy? Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau tryloywder a niwtraliaeth wleidyddol rhwng y comisiwn, gweithwyr yn y gwasanaethau cyhoeddus a Llywodraeth Cymru? Sut y byddwch yn egluro sut y bydd y comisiwn yn cael ei hyrwyddo i staff lleol, sy'n bryderus iawn am eu cyflogaeth eu hunain ar hyn o bryd?

We welcome your comments on zero-hours contracts, Minister, amid the hypocrisy of your own Government, when we know the First Minister's own local authority—a Labour-run council—has many zero-hour arrangements in place. The Welsh Conservatives are committed to tackling exploitative zero-hours contracts. However, we do hope that the commission will recognise that there are people for whom more flexible working patterns are beneficial. We hope that the commission will ensure that moves are not made to threaten those actually benefitting from these contracts.

Rydym yn croesawu eich sylwadau ar gontractau dim oriau, Weinidog, yng nghanol rhagrith eich Llywodraeth eich hun, pan ein bod yn gwybod bod gan awdurdod lleol y Prif Weinidog ei hun—cyngor a arweinir gan y Blaid Lafur—lawer o drefniadau dim oriau ar waith. Mae Ceidwadwyr Cymru yn ymrwymo i fynd i'r afael â chontractau dim oriau sy'n camfanteisio ar bobl. Fodd bynnag, rydym yn gobeithio y bydd y comisiwn yn cydnabod bod patrymau gwaith mwy hyblyg yn fuddiol i rai pobl. Rydym yn gobeithio y bydd y comisiwn yn sicrhau na fydd camau'n cael eu cymryd i fygwth amodau gwaith y bobl hynny sydd mewn gwirionedd yn elwa ar y contractau hyn.

You also mentioned the Trade Union Bill, which will balance the ability to strike with the right of millions to go about their daily lives without disruption at short notice and to vital public services. Now, tomorrow, the Welsh Conservative debate will be looking at your Government's record on public services. Do you not agree that ensuring a real and proper democratic mandate from union members for strike action will go some way to help protect service provision for the people of Wales?

Cyfeiriasoch hefyd at y Bil Undebau Llafur, a fydd yn cydbwyso'r gallu i streicio â hawl miliynau o bobl i fyw eu bywydau bob dydd heb fod tarfu arnynt ar fyr rybudd ac i gael gwasanaethau cyhoeddus hanfodol. Yfory, bydd dadl y Ceidwadwyr Cymreig yn edrych ar record eich Llywodraeth ar wasanaethau cyhoeddus. Onid ydych yn cytuno y bydd sicrhau mandad democrataidd gwirioneddol a phriodol gan aelodau undebau ar gyfer mynd ar streic yn mynd ran o'r ffordd i warchod y ddarpariaeth o wasanaethau i bobl Cymru?

Welsh Conservatives have long called for Wales to become the first living wage nation, and the Chancellor's initiative to implement a national living wage back in July is a clear message that this UK Government recognises hard work. The UK Government have implemented a clear strategy to move the UK towards a high-wage, low-tax economy, bold in backing the aspirations of working people, and many hard-working people right across Wales will now see their pay rise to £7.20 an hour this coming April, increasing to £9 by 2020. We welcome this wholeheartedly on behalf of the people of Wales.

Mae'r Ceidwadwyr Cymreig wedi galw ers amser i Gymru fod y genedl gyntaf i dalu cyflog byw, ac mae menter y Canghellor i weithredu cyflog byw cenedlaethol yn ôl ym mis Gorffennaf yn neges glir bod Llywodraeth y DU yn cydnabod gwaith caled. Mae Llywodraeth y DU wedi gweithredu strategaeth glir i symud y Deyrnas Unedig tuag at economi cyflog uchel, treth isel, gan fod yn feiddgar wrth gefnogi dyheadau pobl sy'n gweithio, a bydd llawer o bobl sy'n gweithio'n galed ar hyd a lled Cymru bellach yn gweld eu cyflog yn codi i £7.20 yr awr erbyn mis Ebrill nesaf, gan gynyddu i £9 erbyn 2020. Rydym yn croesawu hyn yn llwyr ar ran pobl Cymru.

16:06

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Well, if I can start with the question of the reforms to local government, there is no imposed map of local government; there is a map that has been published by the Welsh Government as its preferred map. That builds on the work that had previously been done by the Williams commission and, as we have said repeatedly in this Chamber, and indeed in committee, we will be consulting on that map alongside the second local government Bill later this year.

Wel, os caf ddechrau gyda'r cwestiwn am y diwygiadau i lywodraeth leol, nid oes map wedi ei orfodi o lywodraeth leol; mae map sydd wedi ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru fel y map y mae yn ei ffafrio. Mae hwn yn adeiladu ar y gwaith a wnaed yn flaenorol gan gomisiwn Williams ac, fel yr ydym wedi ei ddweud dro ar ôl tro yn y Siambr hon, ac yn wir yn y pwyllgor, byddwn yn ymgynghori ar y map hwnnw ochr yn ochr â'r ail Fil llywodraeth leol yn ddiweddarach eleni.

In respect of the Public Services Staff Commission, we've gone through an open public appointments process for the chair and for the members of the commission, and that's absolutely appropriate. The staff commission will be working with the workforce partnership council, and there will be discussions in the workforce partnership council, as I said, next month, which will help to shape the work programme for the staff commission. Clearly, the staff commission will also be able to look at what happened in the 1990s, with the previous staff commission there, and we've discussed that, of course, in committee. I think there are some valuable lessons to be learned from doing that. Local staff will, of course, be able to engage with the work of the commission through the meetings that it will be having, through their own representation, through recognised trade unions, so I don't think there are any issues there.

O ran Comisiwn Staff y Gwasanaethau Cyhoeddus, rydym wedi mynd trwy broses penodiadau cyhoeddus agored ar gyfer swydd y cadeirydd ac ar gyfer aelodau'r comisiwn, ac mae hynny'n gwbl briodol. Bydd y comisiwn staff yn gweithio gyda chyngor partneriaeth y gweithlu, a bydd trafodaethau yng nghyngor partneriaeth y gweithlu, fel y dywedais, fis nesaf, a fydd yn helpu i lunio'r rhaglen waith ar gyfer y comisiwn staff. Yn amlwg, bydd y comisiwn staff hefyd yn gallu edrych ar yr hyn a ddigwyddodd yn y 1990au, gyda'r comisiwn staff blaenorol yno, ac rydym wedi trafod hynny, wrth gwrs, yn y pwyllgor. Rwy'n meddwl bod rhai gwersi gwerthfawr i'w dysgu o wneud hynny. Bydd staff lleol, wrth gwrs, yn gallu ymgysylltu â gwaith y comisiwn drwy'r cyfarfodydd y bydd yn eu cynnal, trwy eu cynrychiolwyr eu hunain, trwy undebau llafur cydnabyddedig, felly nid wyf yn credu bod unrhyw faterion yn y fan yna.

I heard what she said in respect of zero-hours contracts. I made a fuller statement on that in the summer. We recognised in that statement that there are sometimes flexibilities where there is a need for more flexibility in the operation of certain contracts, but I do think that we have to be honest about the fact that there are many people currently who have conditions imposed upon them, and we want to regularise that situation.

Clywais yr hyn a ddywedodd hi ynglŷn â chontractau dim oriau. Gwneuthum ddatganiad llawnach am hynny yn yr haf. Roeddem yn cydnabod yn y datganiad hwnnw bod weithiau hyblygrwydd lle y mae angen mwy o hyblygrwydd wrth weithredu contractau penodol, ond rwy'n meddwl bod yn rhaid i ni fod yn onest am y ffaith bod llawer o bobl ar hyn o bryd y gorfodir amodau arnynt, ac rydym am unioni'r sefyllfa honno.

In respect of the Trade Union Bill, I am afraid I have to disagree wholeheartedly with her. That was a Bill, obviously, that was debated at length yesterday in the House of Commons. I'm very interested in the comments that have been made on the Trade Union Bill by, obviously, my own colleagues in the House of Commons, and elsewhere by trade unions, and, indeed, by the Conservative Member of Parliament, David Davis, who says,

O ran y Bil Undebau Llafur, mae arnaf ofn bod yn rhaid i mi anghytuno'n llwyr â hi. Roedd hwnnw yn Fil, yn amlwg, a gafodd ei drafod yn helaeth ddoe yn Nhŷ'r Cyffredin. Mae gen i ddiddordeb mawr yn y sylwadau a wnaed am y Bil Undebau Llafur, yn amlwg, gan fy nghydweithwyr fy hun yn Nhŷ'r Cyffredin, ac mewn mannau eraill gan undebau llafur, ac, yn wir, gan yr Aelod Seneddol Ceidwadol, David Davis, sy'n dweud:

'there are bits of it which look OTT, like requiring pickets to give their names to the police force. What is this? This isn't Franco's Britain, this is Queen Elizabeth II's Britain.'

mae darnau ohono sy'n ymddangos i fod dros ben llestri, fel ei gwneud yn ofynnol i bicedwyr roi eu henwau i'r heddlu. Beth yw hyn? Nid Prydain Franco yw hon, Prydain Y Frenhines Elizabeth II yw hi.

Those were the words of the Conservative MP David Davis. I should hasten to add that's not David Davies, the Member of Parliament for Monmouth; it's David Davis without the 'e' in his surname.

Dyna oedd geiriau'r AS Ceidwadol David Davis. Dylwn ychwanegu ar frys nad David Davies, yr Aelod Seneddol dros Sir Fynwy yw hwn ond David Davis heb yr 'e' yn ei gyfenw.

16:09 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch am y datganiad. Rydym ni ar yr ochr yma yn croesawu sefydlu Comisiwn Staff y Gwasanaethau Cyhoeddus, gan obeithio y bydd yn cyflawni gobeithion y Gweinidog. Mae yna gwestiynau yn codi o hyn, wrth gwrs. Mae'r comisiwn yno i gynghori, ac rwy'n cymryd mai cynghori'r Gweinidog y mae'r comisiwn yn wneud. A fydd y cyngor yma yn cael ei gyhoeddi, a fydd yn gyhoeddus, a hynny'n gyson? Wedi'r cwbl, rydych chi wedi sôn am y comisiwn yn cydgysylltu â staff ar hyd a lled Cymru. Mi fyddwn i'n disgwyl felly y byddai trafodaethau, ac yn sicr ganlyniadau'r trafodaethau hynny, yn cael eu gwneud yn gyhoeddus.

Thank you for the statement. We on this side welcome the establishment of the Public Services Staff Commission and we hope that it will achieve the Minister's ambitions. Questions do arise from this, of course. The commission is there to advise, and I presume that the commission will advise the Minister. Will this advice be published publicly, and on a regular basis? After all, you have mentioned the contact with staff across Wales. We would expect, therefore, that the discussions, and certainly the outcomes of those discussions, will be made public.

Rydych chi'n defnyddio'r dywediad yn y datganiad am yr angen am newid trawsffurfiannol yn ein gwasanaethau cyhoeddus, a bod hynny'n gwbl angenrheidiol. A allech esbonio sut y bydd gwaith y comisiwn yn arwain at y newid sylfaenol yma? Roedd comisiwn Williams, er enghraifft, yn nodi un gwendid o fewn llywodraeth leol, sef diffyg arweinyddiaeth gref. Beth ydych chi'n ei wneud i sicrhau bod y diffyg hwn yn cael sylw? A fydd yn rhan o waith y comisiwn?

You use the phrase in the statement about the need for transformational change in public services, and that that is completely necessary. Could you explain how the work of the commission will lead to this fundamental change? The Williams commission, for example, noted one weakness within local government, namely a lack of strong leadership. What are you doing to ensure that this deficiency is addressed? Will it be part of the commission's work?

O ran y cyflog byw a'r contractau 'zero-hours', wrth gwrs, mae Plaid Cymru wedi hyrwyddo a chefnogi cyflog byw ers y dechrau, ac rydym ni'n croesawu sylwadau'r Gweinidog. O ran gwireddu'r nod yma o fewn llywodraeth leol, sut mae'r Gweinidog yn disgwyl i gynghorau gyflawni hyn wrth wynebu'r toriadau llym sydd yn digwydd ar hyn o bryd? A ydy'r Llywodraeth wedi gwneud unrhyw amcangyfrif, er enghraifft, o gost cyflwyno'r cyflog byw yma o fewn llywodraeth leol? Os nad ydy hi, a ydy'r gwaith yma yn mynd yn ei flaen ar hyn o bryd? Rwy'n dweud hyn fel un sydd, wrth gwrs, yn bleidiol iawn I weld gweithwyr yn cael cyflog teg, ond rwyf hefyd yn ymwybodol ei fod yn digwydd mewn cyd-destun sydd—. Mae Cyngor Gwynedd, er enghraifft, fel llawer o gynghorau eraill hefyd, yn wynebu gwneud arbedion a thoriadau o £30 miliwn yn ei gyllideb, ac mae wynebu'r math yna o 'scale' o doriadau tra hefyd yn chwilio am ffyrdd o wella amodau gwaith y gweithwyr yn amlwg yn fwy na her. Byddwn i'n awgrymu ei fod bron yn amhosibl.

In terms of the living wage and zero-hours contracts, of course, Plaid Cymru has promoted and supported a living wage since the beginning, and we welcome the Minister's comments. In terms of implementing this aim within local government, how does the Minister expect councils to achieve this while facing big cuts, which are happening at the moment? Has the Government made any estimate regarding the cost of implementing the living wage within local government? If it hasn't, is that work being undertaken at the moment? I say this as one, of course, who is very supportive of seeing workers receiving a fair wage, but I'm also aware that it happens in the context—. Gwynedd Council, for example, like many other councils, are facing having to make savings and cuts of £30 million in their budgets, and facing that sort of scale of cuts, while also looking for ways of improving the terms and conditions of workers, certainly is more than a challenge. I would say that it's nearly impossible.

Yn olaf, mae cyfeiriad yma at weledigaeth y Llywodraeth Lafur o greu un gwasanaeth cyhoeddus Cymreig. Ond rwyf wedi clywed y weledigaeth yma yn cael ei datgan ers rhai blynyddoedd bellach, ac yn sicr, mae'n rhan o bolisi Plaid Cymru hefyd. Pa gynnydd sydd wedi bod yn y 12 mlynedd diwethaf yma ar gyflawni hyn? A oes amserlen gennych chi, Weinidog, ar gyfer gwireddu'r weledigaeth?

Finally, there is a reference here to the Labour Government's vision to create one public service for Wales. But I have heard this vision being stated for quite a number of years now, and certainly it is part of Plaid Cymru's policy as well. What progress has been made in the last 12 years on achieving this? Do you have a timetable, Minister, for implementing this vision?

16:12

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Can I thank the Plaid Cymru spokesperson for his comments and broad support for the work of the Public Services Staff Commission? Yes, there will be a role for the commission, obviously, in advising Ministers, but equally I think it's important to recognise that the commission will be setting the framework for discussions on the future of public services, particularly looking at local government reforms in the first instance, and we'll be doing that in co-operation with the workforce partnership council, where we have public-service employers and trade unions represented. He asked whether we would be public and transparent in respect of the work of the commission, and certainly that is what I intend to do. We will bring forward reports from the commission. We will certainly make available to Members the final terms of reference once those have been agreed by the commission and the workforce partnership council. I've already made available—taken out of the archives, in fact—the report of the 1990s staff commission, because I think it was relevant to the committee that was looking at the Local Government (Wales) Bill, and there were important lessons, as I've said, to be drawn from that.

A gaf i ddiolch i lefarydd Plaid Cymru am ei sylwadau a'i gefnogaeth gyffredinol i waith Comisiwn Staff y Gwasanaethau Cyhoeddus? Bydd, fe fydd swyddogaeth i'r comisiwn, yn amlwg, wrth gynghori Gweinidogion, ond yn yr un modd rwy'n credu ei bod yn bwysig cydnabod y bydd y comisiwn yn gosod y fframwaith ar gyfer trafodaethau ar ddyfodol gwasanaethau cyhoeddus, gan edrych yn arbennig ar ddiwygiadau llywodraeth leol i ddechrau, a byddwn yn gwneud hynny mewn cydweithrediad â chyngor partneriaeth y gweithlu, lle y mae gennym gynrychiolwyr cyflogwyr gwasanaeth cyhoeddus ac undebau llafur. Gofynnodd a fyddem yn gyhoeddus ac yn dryloyw o ran gwaith y comisiwn, ac yn sicr dyna yr wyf yn bwriadu ei wneud. Byddwn yn cyflwyno adroddiadau gan y comisiwn. Byddwn yn sicr yn sicrhau bod y cylch gorchwyl terfynol ar gael i'r Aelodau pan fyddant wedi eu cytuno gan y comisiwn a chyngor partneriaeth y gweithlu. Rwyf eisoes wedi sicrhau bod adroddiad y comisiwn staff o'r 1990au ar gael—wedi ei dynnu o'r archifau, mewn gwirionedd—oherwydd credaf ei fod yn berthnasol i'r pwyllgor a oedd yn edrych ar Fil Llywodraeth Leol (Cymru), ac yr oedd gwersi pwysig, fel yr wyf wedi dweud, i'w dysgu o hynny.

In respect of public service leadership, we have a number of initiatives under way presently to support the development of stronger public service leadership, including the public service leadership panel, which I created earlier this year. We have a public service leadership conference taking place this autumn. We have the work of our public service academy as well, which held a very successful summer school in June for public service workers from across Wales, from a variety of different backgrounds. I think that that programme of work is actually very well advanced.

O ran arweinyddiaeth gwasanaethau cyhoeddus, mae gennym nifer o fentrau ar y gweill ar hyn o bryd i gefnogi datblygiad arweinyddiaeth gryfach yn y gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys panel arweinyddiaeth y gwasanaethau cyhoeddus, a grëwyd gennyf yn gynharach eleni. Mae gennym gynhadledd arweinyddiaeth gwasanaethau cyhoeddus yn digwydd yn yr hydref. Mae gennym waith ein hacademi gwasanaethau cyhoeddus hefyd, a gynhaliodd ysgol haf lwyddiannus iawn ym mis Mehefin ar gyfer gweithwyr gwasanaethau cyhoeddus o bob cwr o Gymru, ac o amrywiaeth o wahanol gefndiroedd. Credaf fod y rhaglen waith honno mewn gwirionedd wedi ei datblygu yn dda iawn.

He asked about the living wage, and it is worth reminding the Chamber, of course, that the NHS has been a living wage employer since 1 January this year. He's right, of course, to draw attention to the difficult financial situation that is faced by local authorities, such as his own in Gwynedd, but, I would point out to him that the leader of RCT council has made it clear that he intends to make his council a living-wage employer and he intends to do that by this time next year. I think that other councils should probably beat a path to the door of the leader of RCT council, because I'm sure they can learn from the work that he is putting in place.

Gofynnodd am y cyflog byw, ac mae'n werth atgoffa'r Siambr, wrth gwrs, fod y GIG wedi bod yn gyflogwr cyflog byw ers 1 Ionawr eleni. Mae'n iawn, wrth gwrs, i dynnu sylw at y sefyllfa ariannol anodd y mae awdurdodau lleol yn ei hwynebu, fel yng Ngwynedd, ei awdurdod lleol ei hun, ond hoffwn ddweud wrtho bod arweinydd cyngor Rhondda Cynon Taf wedi ei gwneud yn glir ei fod yn bwriadu gwneud ei gyngor yn gyflogwr cyflog byw ac mae'n bwriadu gwneud hynny erbyn yr adeg hon y flwyddyn nesaf. Rwy'n credu y dylai cynghorau eraill ruthro i sgwrsio ag arweinydd cyngor Rhondda Cynon Taf, oherwydd rwy'n siwr y gallant ddysgu o'r gwaith y mae'n ei sefydlu.

In respect of the development of one Welsh public service, I think we have to move on this in stages. He will know from his time as Minister that there are complexities in this because of the different terms and conditions, the different employment contracts, the different relationships that exist within different parts of the public sector in Wales. We hope that, through the work on mobility, particularly—which will be undertaken by the Public Services Staff Commission, and is being taken forward already by my colleague the Deputy Minister for Skills and Technology, in conjunction with the public service employers and the trade unions—we can move forward on this. I think one of the first things we have to create is a sense of a one-public-service Wales culture and that is something to which our public service leadership conference in November will help to contribute.

O ran y gwaith o ddatblygu un gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru, rwyf yn credu bod yn rhaid i ni wneud hyn mewn camau. Bydd yn gwybod o'i amser fel Gweinidog bod cymhlethdodau yn hyn oherwydd y gwahanol delerau ac amodau, y gwahanol gontractau cyflogaeth, y perthnasoedd gwahanol sy'n bodoli mewn gwahanol rannau o'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Rydym yn gobeithio, drwy'r gwaith ar symudedd, yn arbennig—a fydd yn cael ei wneud gan Gomisiwn Staff y Gwasanaethau Cyhoeddus, ac sy'n cael ei ddatblygu eisoes gan fy nghydweithiwr y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg, ar y cyd â chyflogwyr y gwasanaethau cyhoeddus a'r undebau llafur—y gallwn symud ymlaen ar hyn. Rwy'n credu mai un o'r pethau cyntaf y mae'n rhaid i ni ei greu yw ymdeimlad o ddiwylliant un gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru ac mae hynny'n rhywbeth y bydd ein cynhadledd arweinyddiaeth gwasanaethau cyhoeddus ym mis Tachwedd yn helpu i gyfranu ato.

16:16 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can I also welcome the statement and welcome the establishment of the staff commission? I think it's an important development and one that will hopefully add value to the work of public services around Wales. Minister, I've only a couple of questions, particularly in relation to the work of the partnership council and the staff commission. You talk about developing advice on workforce issues that require action and resolution arising from public service reform as well as a number of cross-public sector issues. A large number of local authorities, of course, are outsourcing a number of their services and how those services are delivered, effectively taking those employees either out of the public sector or into the quasi-public sector, in the sense that, for example, Neath Port Talbot has transferred its residential homes to a housing association and those employees have seen their work terms and conditions reduced as a result of that particular action. I think that's going to become more common as local authorities try to come to terms with the changes in the finance that they have available to them as a result of cuts and austerity measures.

A gaf innau hefyd groesawu'r datganiad a chroesawu'r bwriad i sefydlu comisiwn staff? Rwy'n credu ei fod yn ddatblygiad pwysig ac yn un, gobeithio, a fydd yn ychwanegu gwerth at waith y gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru. Weinidog, dim ond un neu ddau o gwestiynau sydd gen i, yn benodol ynglŷn â gwaith y cyngor partneriaeth a'r comisiwn staff. Rydych yn sôn am ddatblygu cyngor ar faterion y gweithlu y mae angen camau gweithredu a datrysiad arnynt sy'n codi o'r diwygio yn y gwasanaethau cyhoeddus, yn ogystal â nifer o faterion ar draws y sector cyhoeddus. Mae nifer fawr o awdurdodau lleol, wrth gwrs, yn cael nifer o'u gwasanaethau o ffynhonnell allanol ac mae'r modd y mae'r gwasanaethau hynny yn cael eu darparu, gan gymryd y gweithwyr hynny naill ai allan o'r sector cyhoeddus neu i mewn i'r sector lled-gyhoeddus, yn yr ystyr bod, er enghraifft, Castell-nedd Port Talbot wedi trosglwyddo ei gartrefi preswyl i gymdeithas dai a'r gweithwyr hynny wedi gweld eu telerau a'u hamodau yn gostwng o ganlyniad i'r weithred benodol honno. Rwyf yn credu bod hynny yn mynd i ddod yn fwy cyffredin wrth i awdurdodau lleol geisio dod i delerau â'r newidiadau yn y cyllid sydd ar gael iddynt o ganlyniad i doriadau a mesurau cyni.

Can I ask, therefore, how does the staff commission work in relation to those particular employees? Will it have a remit to look at the terms and conditions of employees in those outsourced bodies, particularly if it's a housing association, for example, in terms of protecting their interests, and work with local authorities on how they can protect the interests of their staff if they are going to be outsourcing services in that way? Will the commission have any remit to make representations to Ministers on that particular issue in terms of changes that can be made, either to legislation or to guidance, to try to protect the terms and conditions of those particular staff?

A gaf i ofyn, felly, sut y mae gwaith y comisiwn staff yn berthnasol i'r gweithwyr penodol hynny? A fydd ganddo gylch gwaith a fydd yn edrych ar delerau ac amodau gweithwyr yn y cyrff allanol hynny, yn enwedig os mai cymdeithas dai ydyw, er enghraifft, o ran diogelu eu buddiannau, a gweithio gydag awdurdodau lleol ar sut y gallant ddiogelu buddiannau eu staff os ydynt yn mynd i ddefnyddio gwasanaethau allanol yn y modd hwn? A fydd gan y comisiwn unrhyw gylch gwaith i gyflwyno sylwadau i Weinidogion ar y mater penodol hwnnw o ran y newidiadau y gellir eu gwneud, naill ai i ddeddfwriaeth neu i ganllawiau, er mwyn ceisio amddiffyn telerau ac amodau y staff penodol hyn?

I noticed your reference to zero-hours contracts. I very much welcome the research that you have already commissioned and published; I think that's very useful. I'm a bit disappointed in terms of your reference to the specific research on zero-hours contracts in the context of social care, given that the Welsh Government had the opportunity to vote on amendments to the Social Services and Well-being (Wales) Bill on this particular issue and declined to do so. But, certainly, if this new research moves towards the position that was in that amendment, then that would be very welcome.

Sylwais ar eich cyfeiriad at gontractau dim oriau. Croesawaf yn fawr iawn y gwaith ymchwil yr ydych eisoes wedi ei gomisiynu a'i gyhoeddi; rwy'n credu bod hynny'n ddefnyddiol iawn. Rwyf braidd yn siomedig am eich cyfeiriad at y gwaith ymchwil penodol ar gontractau dim oriau yng nghyd-destun gofal cymdeithasol, o ystyried bod Llywodraeth Cymru wedi cael y cyfle i bleidleisio ar welliannau i Fil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ar y mater penodol hwn a'i bod wedi gwrthod gwneud hynny. Ond, yn sicr, os yw'r ymchwil newydd hwn yn symud tuag at y sefyllfa a oedd yn y gwelliant hwnnw, yna byddai croeso mawr i hynny.

I very much support what you're saying about the living wage. I think you're right that the living wage being offered by the UK Government is not sufficient and not a proper living wage. Although it is a step towards that particular objective, it does not deliver what independent assessors have determined is a proper living wage for employees. I think that that is something we need to address further over the coming months.

Rwy'n cefnogi yn fawr iawn yr hyn yr ydych yn ei ddweud am y cyflog byw. Yr wyf yn meddwl eich bod yn iawn nad oedd y cyflog byw a oedd yn cael ei gynnig gan Lywodraeth y DU yn ddigonol ac nad yw'n gyflog byw priodol. Ond mae'n gam tuag at y nod penodol hwnnw, nid yw'n cyflawni'r hyn y mae aseswyr annibynnol wedi penderfynu sy'n gyflog byw priodol i weithwyr. Credaf fod hynny'n rhywbeth y mae angen i ni fynd i'r afael ag ef eto dros y misoedd nesaf.

16:19

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Dirprwy Lywydd, can I thank the Liberal Democrats spokesperson for his support for what we are seeking to do in this statement? Let me start with the living wage—I'm glad he agrees with our interpretation of what is being offered by the UK Government and that he opts, as we do, for the real living wage. In respect of the work we're undertaking, I did say in the statement, of course—he asked about outsourcing matters such as that—that we reissued the two-tier code with an accompanying procurement advice note last year. As I said, again, in the statement, the monitoring that we've undertaken has shown that, generally, local authorities have been implementing the provisions of that code within their contract. So, I think, we've got a framework for addressing those issues, and I think it's been relatively successful. We have had to remind one or two local authorities about their obligations under the two-tier code since they signed up to it, but I think that's given us something in Wales that is not as resolutely followed in other parts of the United Kingdom.

Dirprwy Lywydd, a gaf i ddiolch i lefarydd y Democratiaid Rhyddfrydol am ei gefnogaeth i'r hyn yr ydym yn ceisio ei wneud yn y datganiad hwn? Gadewch i mi ddechrau gyda'r cyflog byw—rwy'n falch ei fod yn cytuno â'n dehongliad o'r hyn sy'n cael ei gynnig gan Lywodraeth y DU a'i fod yn dewis, fel yr ydym ninnau yn ei wneud, y cyflog byw gwirioneddol. O ran y gwaith yr ydym ni yn ei wneud, fe ddywedais yn y datganiad, wrth gwrs—gofynnodd am faterion defnyddio gwasanaethau allanol—ein bod wedi ailgyhoeddi'r cod dwy haen gyda nodyn cyngor caffael i gyd-fynd ag ef y llynedd. Fel y dywedais, unwaith eto, yn y datganiad, mae'r gwaith monitro rydym wedi ei wneud wedi dangos, yn gyffredinol, bod awdurdodau lleol wedi bod yn gweithredu darpariaethau'r cod hwnnw yn eu contract. Felly, yn fy marn i, mae gennym fframwaith ar gyfer mynd i'r afael â'r materion hynny, ac rwyf yn credu ei fod wedi bod yn gymharol llwyddiannus. Rydym wedi gorfod atgoffa un neu ddau o awdurdodau lleol am eu rhwymedigaethau o dan y cod dwy haen gan eu bod wedi cytuno iddo, ond credaf fod hynny wedi rhoi rhywbeth i ni yng Nghymru na ddilynir mor gadarn mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig.

In respect of the general work of the Public Services Staff Commission, I think it's early days. The chief executive has not yet started; she will be starting in a month or so. I've met the chair, and the members and the chair have their first meeting, I think, tomorrow, and so I think there is still time for us to shape the work that is undertaken. I'm very happy for Members to write to me with any observations they may have on that. There will be a full discussion at the workforce partnership council next October. I have to rebut the calumny from the Member in respect of the social services and well-being Bill; it's been very clear that our position in this Chamber is that we were not prepared to endanger that Bill with an amendment that we regarded could well take that Bill to a position where we would have to defend it in the Supreme Court. It could have been a question of competence, and it could have been under challenge.

O ran gwaith cyffredinol Comisiwn Staff y Gwasanaethau Cyhoeddus, mae'n gynnar yn y broses. Nid yw'r prif weithredwr wedi dechrau eto; bydd hi'n dechrau mewn mis neu ddau. Rwyf wedi cwrdd â'r cadeirydd a'r aelodau ac maent yn cynnal eu cyfarfod cyntaf yfory, rwyf yn credu, ac felly rwyf o'r farn bod amser o hyd i roi ffurf ar y gwaith sy'n cael ei wneud. Rwy'n hapus iawn i Aelodau ysgrifennu ataf gydag unrhyw sylwadau sydd ganddynt ar hynny. Bydd trafodaeth lawn yng nghyngor partneriaeth y gweithlu fis Hydref nesaf. Mae'n rhaid i mi wrth-ddweud y camgyhuddiad gan yr Aelod o ran y Bil gwasanaethau cymdeithasol a llesiant; mae wedi bod yn amlwg iawn mai ein safbwynt yn y Siambr hon yw nad ydym yn barod i beryglu'r Bil hwnnw gyda gwelliant yr oeddem o'r farn y gallai fynd â'r Bil hwnnw i sefyllfa lle byddai'n rhaid i ni ei amddiffyn yn y Goruchaf Lys. Gallai fod yn fater o gymhwysedd, a gallai fod wedi cael ei herio.

16:21

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch yn fawr, Weinidog.

16:21

## 6. Datganiad: Cartrefi i Boblogaeth sy'n Heneiddio

## 6. Statement: Housing an Ageing Population

Senedd.tv Fideo Video

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

We now move to item 6, which is a statement by the Minister for Communities and Tackling Poverty on housing an ageing population. I call Lesley Griffiths.

Symudwn yn awr at eitem 6, sy'n ddatganiad gan y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi ar roi tai i boblogaeth sy'n heneiddio. Galwaf ar Lesley Griffiths.

16:21

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty*

Today, I am making this important statement for two reasons. Firstly, to draw attention to a report from one of the work streams of the national partnership forum, the ministerial advisory forum on ageing. The report is entitled 'Housing Issues for Older People and Housing Role in Health and Social Care', a copy of which has been shared with Members. The second reason is to update Members on action we are taking as a Government to respond to some of the challenges highlighted in the forum's report and the next steps.

Heddiw, rwy'n gwneud y datganiad pwysig hwn am ddau reswm. Yn gyntaf, i dynnu sylw at adroddiad gan un o ffrydiau gwaith y fforwm partneriaeth cenedlaethol, fforwm cynghori'r Gweinidog ar heneiddio. Teitl yr adroddiad yw 'Materion Tai ar gyfer Pobl Hŷn a Swyddogaeth Tai mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol', ac mae copi ohono wedi ei rannu gydag Aelodau. Yr ail reswm yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau am y camau yr ydym yn eu cymryd fel Llywodraeth i ymateb i rai o'r heriau y tynnwyd sylw atynt yn adroddiad y fforwm a'r camau nesaf.

The national partnership forum is made up of older people and organisations working with and for older people. It is well placed to advise Government on the needs of older people and to support the delivery of the strategy for older people in Wales. I thank the forum for this report, which gives us an insight into the very broad housing issues affecting older people. Ageing, and its implications for the way we live our lives, is something most of us can identify with—either directly or through the experience of family and friends.

Mae'r fforwm partneriaeth cenedlaethol yn cynnwys pobl hŷn a sefydliadau sy'n gweithio gyda phobl hŷn ac ar eu rhan. Mae mewn sefyllfa dda i gynghori'r Llywodraeth ar anghenion pobl hŷn ac i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r strategaeth ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru. Diolchaf i'r fforwm am yr adroddiad hwn, sy'n rhoi darlun i ni o'r materion tai eang iawn sy'n effeithio ar bobl hŷn. Mae heneiddio, a'i oblygiadau ar gyfer y ffordd yr ydym yn byw ein bywydau, yn rhywbeth y gall y rhan fwyaf ohonom uniaethu ag ef - naill ai'n uniongyrchol neu drwy brofiad teulu a ffrindiau.

What is the scale of the challenge? One in three babies born in the UK in 2013 are expected to celebrate their hundredth birthday. The proportion of older people in Wales is the highest amongst the UK nations, and this will continue to be the case for the next 20 years. By 2026, nearly a quarter of the population of Wales will be aged 65 years and over and nearly one in 20 people over 85 years. The number of older people with complex health needs, such as dementia, is also projected to rise. Against this backdrop, the forum raises a number of vital issues. It points to the need for a more coherent housing strategy for older people. People need to be supported to stay in their own homes. There should be an attractive choice of houses and accommodation to suit the diverse needs of older people. There also needs to be timely information and advice services to help people find the right solution for them.

Pa mor fawr yw’r her? Disgwylir y bydd un o bob tri o'r babanod a anwyd yn y DU yn 2013 yn dathlu ei ben-blwydd yn gant oed. Yng Nghymru mae'r gyfran uchaf o bobl hŷn ymhlith gwledydd y DU, a bydd hyn yn parhau i fod yn wir am yr 20 mlynedd nesaf. Erbyn 2026, bydd bron i chwarter poblogaeth Cymru yn 65 oed neu'n hŷn a bydd bron i un o bob 20 o bobl yn hŷn na 85 oed. Rhagwelir y bydd nifer y bobl hŷn ag anghenion iechyd cymhleth, fel dementia, yn codi hefyd. Gan ystyried hyn oll, mae'r fforwm yn codi nifer o faterion hollbwysig. Mae'n tynnu sylw at yr angen am strategaeth tai fwy cydlynol ar gyfer pobl hŷn. Mae angen i bobl gael eu cefnogi i aros yn eu cartrefi eu hunain. Dylai fod dewis deniadol o dai a llety i fodloni anghenion amrywiol pobl hŷn. Mae angen gwasanaethau gwybodaeth a chyngor amserol hefyd i helpu pobl i ddod o hyd i'r ateb cywir iddyn nhw.

I know many local authorities and many public organisations are grappling with the challenges of an ageing population now, and have been for some time. It is only right the Welsh Government provides leadership and policy direction. The Welsh Government’s strategy for older people already sets out some of the key steps that need to be taken to safeguard the social, environmental and financial interests of our older generation. Our White Paper ‘Homes for Wales’ in 2012 set out this Government’s commitment to the effectiveness of the whole housing system, including improving the quality of homes and increasing the supply and choice of housing. The Housing (Wales) Act 2014 further underlines this Government’s commitment to improving the supply, quality and standards of housing in Wales right across the board.

Rwy'n gwybod bod llawer o awdurdodau lleol a llawer o sefydliadau cyhoeddus yn mynd i'r afael â heriau poblogaeth sy'n heneiddio ar hyn o bryd, ac wedi bod yn gwneud hynny ers peth amser. Mae’n gwbl briodol bod Lywodraeth Cymru yn darparu cyfeiriad o ran arweinyddiaeth a pholisi. Mae strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer pobl hŷn eisoes yn nodi rhai o'r camau allweddol y mae angen eu cymryd i ddiogelu buddiannau cymdeithasol, amgylcheddol ac ariannol ein cenhedlaeth hŷn. Nododd ein Papur Gwyn 'Cartrefi i Gymru' yn 2012 ymrwymiad y Llywodraeth hon i effeithiolrwydd y system dai yn ei chyfanrwydd, gan gynnwys gwella ansawdd cartrefi a chynyddu'r cyflenwad a'r dewis o dai. Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn tanlinellu ymhellach ymrwymiad y Llywodraeth hon i wella pob agwedd ar gyflenwad, ansawdd a safonau tai yng Nghymru.

Within this broader context, our ageing population will have some specific needs. This is why I am considering establishing an expert group, which will run for a time-limited period to advise the Government in 2016 on its future policy approach to housing an ageing population. I will keep Members informed regarding this issue.

O fewn y cyd-destun ehangach hwn, bydd gan ein poblogaeth sy'n heneiddio rai anghenion penodol. Dyna pam yr wyf yn ystyried sefydlu grŵp arbenigol, a fydd yn gweithredu am gyfnod penodol, i gynghori'r Llywodraeth yn 2016 ar ei agwedd o ran polisi ar gyfer y dyfodol ynglŷn â darparu tai i boblogaeth sy'n heneiddio. Byddaf yn sicrhau bod yr Aelodau yn cael y wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â'r mater hwn.

Such a group would enable us to pool together the knowledge and experiences of key individuals involved in the planning and delivery of housing and related services. Local authorities, housing associations, house builders, third sector organisations, and our partners in health and social services will all need to be involved. I want to draw on the collective expertise of such a group to ensure housing does play its rightful part in ensuring Wales is a great place to grow old.

Byddai grŵp o'r fath yn ein galluogi i rannu gwybodaeth a phrofiadau unigolion allweddol sy'n ymwneud â chynllunio a darparu tai a gwasanaethau cysylltiedig. Bydd angen i bob awdurdod lleol, cymdeithasau tai, adeiladwyr tai, sefydliadau'r trydydd sector, a'n partneriaid ym maes iechyd a gwasanaethau cymdeithasol gymryd rhan hefyd. Rwyf am fanteisio ar arbenigedd cyfunol grŵp o'r fath i sicrhau y bydd tai yn rhan briodol o sicrhau bod Cymru yn lle gwych i heneiddio ynddo.

There has been progress in other areas, too. Since 2002, with the support of £161 million from Welsh Government, 37 extra-care schemes have been completed across Wales, providing over 1,700 flats for older people. A further five schemes are on site, providing an additional 230 flats for older people, supported by £21 million of Welsh Government funding. With at least one scheme in each authority, this has helped to broaden the choice available locally. I have visited several of the schemes in Conwy, Gwynedd, Torfaen and the Vale of Glamorgan and have been incredibly impressed, not only with the quality of the accommodation, but with the lifestyle they provide. Whilst these types of schemes will not give us the whole answer, they do enable us to rethink the way we approach housing solutions for older people.

Bu cynnydd mewn meysydd eraill hefyd. Er 2002, gyda chymorth o £161 miliwn gan Lywodraeth Cymru, mae 37 o gynlluniau gofal ychwanegol wedi eu cwblhau ledled Cymru, gan ddarparu dros 1,700 o fflatiau ar gyfer pobl hŷn. Mae pum cynllun arall ar y cam adeiladu ar hyn o bryd, sy’n darparu 230 o fflatiau ychwanegol ar gyfer pobl hŷn, wedi'u cefnogi gan £21 miliwn o gyllid Lywodraeth Cymru. Gydag un cynllun o leiaf ym mhob awdurdod, mae hyn wedi helpu i ehangu'r dewis sydd ar gael yn lleol. Rwyf wedi ymweld â nifer o'r cynlluniau yng Nghonwy, Gwynedd, Torfaen a Bro Morgannwg, a gwnaethant gryn argraff arnaf, nid yn unig o ran safon y llety, ond hefyd y ffordd o fyw y maent yn ei darparu. Er na fydd cynlluniau o'r fath yn darparu ateb i bopeth, maent yn ein galluogi i ailystyried y ffordd yr ydym yn ystyried yr atebion o ran tai ar gyfer pobl hŷn.

Many people will want to stay in their own home, and it is important they are supported to do this. We have taken on board feedback on the process for delivering independent living adaptations, and we’re looking at ways of improving the system. Crucially, we are doing so in conjunction with health and social care colleagues.

Bydd llawer o bobl eisiau aros yn eu cartrefi eu hunain, ac mae'n bwysig eu bod yn cael eu cefnogi i wneud hyn. Rydym wedi ystyried sylwadau ynglŷn â'r broses o ddarparu addasiadau ar gyfer byw'n annibynnol, ac rydym yn edrych ar ffyrdd o wella'r system. Yn hollbwysig, rydym yn gwneud hynny ar y cyd â chydweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol.

Through the Supporting People programme, we offer vital support to help older people live independently. I am hugely encouraged by the range of different models of care and support developed under the intermediate care fund. I’m equally encouraged by the evidence we’ve also seen of a stronger sense of partnership across social care, health and housing, although I accept there is a long way still to go.

Trwy'r rhaglen Cefnogi Pobl, rydym yn cynnig cymorth hanfodol i helpu pobl hŷn i fyw'n annibynnol. Rwyf wedi fy nghalonogi’n fawr iawn gan yr amrywiaeth o wahanol fodelau o ofal a chymorth a ddatblygwyd o dan y gronfa gofal canolraddol. Rwyf wedi fy nghalonogi yn yr un modd gan y dystiolaeth yr ydym hefyd wedi ei gweld o'r ymdeimlad cryfach o bartneriaeth ym maes gofal cymdeithasol, iechyd a thai, er fy mod yn derbyn bod llawer mwy i’w wneud.

We’ve already begun to address some of the issues raised by the forum’s report by increasing choice, by responding to calls for a more effective adaptations system and by driving up standards. As the Minister for Communities and Tackling Poverty, I am anxious we should do more. I see the expert group that I’m considering as the next important step, as it will help identify the practical action that is needed to meet the housing needs of our ageing society.

Rydym eisoes wedi dechrau rhoi sylw i rai o'r materion a godwyd yn adroddiad y fforwm drwy gynyddu dewis, drwy ymateb i alwadau am system addasiadau fwy effeithiol a thrwy wella safonau. Fel y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, rwy’n awyddus y dylem wneud mwy. Rwy'n gweld y grŵp arbenigol yr wyf yn ei ystyried fel y cam pwysig nesaf, gan y bydd yn helpu i nodi'r camau ymarferol sydd eu hangen i fodloni anghenion tai ein cymdeithas sy'n heneiddio.

16:27 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

You refer to the ministerial advisory group on ageing and national partnership forum report, 'Housing Issues for Older People and Housing Role in Health and Social Care'. This states, amongst other things, the continuing problems with waiting times and delays for disabled facilities grants and housing adaptations in all tenures, or notes that particular issue. You state in your report you've taken on board feedback on the process for delivering independent living adaptations and are looking at ways of improving the system, and looking in conjunction with health and social care colleagues. Why has it taken so long? Why are we still waiting? It's over two years since the Communities, Equality and Local Government Committee made its report on this matter. It's several years more since the British Association and College of Occupational Therapists highlighted good practice, for example, in Conwy, with joint working between housing and local occupational therapists. Given there's only a few months left of this Assembly—. This effectively has been put on the back burner and unfortunately is not delivering as we had hoped.

Rydych yn cyfeirio at grŵp cynghori'r Gweinidog ar heneiddio ac adroddiad y fforwm partneriaeth cenedlaethol, 'Materion Tai ar gyfer Pobl Hŷn a Swyddogaeth Tai mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol'. Mae hwn yn nodi, ymysg pethau eraill, y problemau parhaus gydag amseroedd aros ac oedi ar gyfer grantiau cyfleusterau i'r anabl ac addasiadau tai ym mhob deiliadaeth, neu'n nodi'r mater penodol hwnnw. Rydych yn dweud yn eich adroddiad eich bod wedi ystyried sylwadau ar y broses ar gyfer darparu addasiadau byw'n annibynnol ac eich bod yn edrych ar ffyrdd o wella'r system, ac yn edrych ar y cyd â chydweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol. Pam mae hyn wedi cymryd cyhyd? Pam yr ydym ni'n dal i aros? Mae'n fwy na dwy flynedd ers i'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol wneud ei adroddiad ar y mater hwn. Mae sawl blwyddyn arall ers i'r Gymdeithas Brydeinig a Choleg y Therapyddion Galwedigaethol dynnu sylw at arfer da, er enghraifft, yng Nghonwy, gyda gweithio ar y cyd rhwng yr adran dai a therapyddion galwedigaethol lleol. O ystyried mai dim ond ychydig fisoedd sydd ar ôl o'r Cynulliad hwn—. Mewn gwirionedd, mae hyn wedi ei roi o'r neilltu ac yn anffodus nid yw'n cyflawni fel yr oeddem wedi gobeithio.

That report also talked about the ineffective targeting of energy efficiency schemes and grants to individual older home owners. In fact, it says that 140,000 older people in Wales are living in fuel poverty and that there is 70 per cent of excess winter deaths of people aged over 75. In June, I questioned you here about the latest National Energy Action UK fuel poverty monitor for 2014-15, and the specific statement in that that the Minister for Communities and Tackling Poverty within the Welsh Government—you—should therefore work with other relevant departments in Wales to establish the extent to which local authorities in Wales are fulfilling their current duties in relation to housing standards, and take appropriate action. What action have you taken since that report was published and since I raised this with you over three months ago?

Roedd yr adroddiad hwnnw hefyd yn sôn am dargedu aneffeithiol o ran cynlluniau effeithlonrwydd ynni a grantiau i unigolion hŷn sy'n berchnogion cartrefi. Mewn gwirionedd, mae'n dweud bod 140,000 o bobl hŷn yng Nghymru yn byw mewn tlodi tanwydd a bod 70 y cant yn fwy o bobl dros 75 oed yn marw yn y gaeaf. Ym mis Mehefin, holais chi yma, am fonitor tlodi tanwydd diweddaraf National Energy Action y DU ar gyfer 2014-15, a'r datganiad penodol yn hwnnw y dylai'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi yn Llywodraeth Cymru—chi—felly weithio gydag adrannau perthnasol eraill yng Nghymru i ganfod i ba raddau y mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn cyflawni eu dyletswyddau presennol o ran safonau tai, a chymryd camau priodol. Pa gamau ydych chi wedi'u cymryd ers i'r adroddiad hwnnw gael ei gyhoeddi ac ers imi godi hyn gyda chi dros dri mis yn ôl?

The Bevan Foundation and the Joseph Rowntree Foundation in that context have also stated that fuel poverty should be central to the tackling poverty action plan. Will you commit to that? I know you refreshed your poverty plan published in July. You said that you would highlight, quite rightly, food poverty, but do you now acknowledge that the Bevan and Joseph Rowntree foundations are right in this respect?

Mae Sefydliad Bevan a Sefydliad Joseph Rowntree, yn y cyd-destun hwnnw, hefyd wedi datgan y dylai tlodi tanwydd fod yn ganolog i'r cynllun gweithredu ar gyfer trechu tlodi. A wnewch chi ymrwymo i hynny? Rwy'n gwybod eich bod wedi gwneud newidiadau i'ch cynllun tlodi a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf. Dywedasoch y byddech yn tynnu sylw, yn gwbl briodol, at dlodi bwyd, ond a ydych chi'n cydnabod erbyn hyn bod sefydliadau Bevan a Joseph Rowntree yn iawn yn hyn o beth?

The report you referred to—the national partnership forum—calls for a greater mixed economy of choice and says that new services should be introduced encouraging people to plan where they want to live when they're older. Absolutely right—a goal we should all commit to. You say you're establishing an expert group—or considering establishing an expert group—and, yes, the range of partners you propose covers the necessary elements for that, with all three sectors represented. Why are you only considering an expert group? Can you not commit to establishing an expert group, given not only the recommendations of this report, but successive reports, some of which I referred to earlier in my presentation?

Mae'r adroddiad y cyfeiriasoch ato—y fforwm partneriaeth cenedlaethol—yn galw am fwy o economi gymysg o ran dewis ac yn dweud y dylai gwasanaethau newydd gael eu cyflwyno, rhai sy'n annog pobl i gynllunio ble y maent eisiau byw pan fyddant yn hŷn. Hollol iawn—nod y dylem ni i gyd ymrwymo iddo. Rydych yn dweud eich bod yn sefydlu grŵp arbenigol—neu'n ystyried sefydlu grŵp arbenigol—ac, ydy, mae'r amrywiaeth o bartneriaid yr ydych yn eu cynnig yn cyflawni'r elfennau angenrheidiol ar gyfer hynny, gyda chynrychiolaeth o bob un o'r tri sector. Pam mai dim ystyried grŵp arbenigol yr ydych chii? Oni allwch chi ymrwymo i sefydlu grŵp arbenigol, o ystyried nid yn unig argymhellion yr adroddiad hwn, ond argymhellion sawl adroddiad arall, a chyfeiriais at rai ohonynt yn gynharach yn fy nghyflwyniad?

Your report refers to the extra-care schemes. Like you, I've visited many. In my case, only in north Wales; you, I'm sure, across Wales. Much as we welcome the fact that there will be nearly 2,000 more homes for older people, usually over 55, during that period, it is only a drop in the ocean of overall need, as I know you will acknowledge. During the summer, I was lucky enough to attend the official opening of Cartrefi Conwy's new independent living development, Cysgod y Gogarth, for over-55s in Llandudno, which is intermediate. It somewhere between the traditional model and full extra care, because it enables the investment to go further and deliver more. I met residents there who were delighted with their new homes. Do you see that as a model that can also be used within the mixed provision to deliver more homes within the resources available? Similarly, I know extra-care provision has included rent, purchase or shared equity, but I understand from discussions I had at that meeting that that model is becoming more difficult to deliver, and therefore there's a need to be considering development with, for instance, McCarthy & Stone or other private sector providers in terms of the private element to enable the social pound to go further. Do you agree that that is something we should be pursuing?

Mae eich adroddiad yn cyfeirio at y cynlluniau gofal ychwanegol. Fel chithau, rwyf wedi ymweld â llawer ohonynt. Yn fy achos i, dim ond yng ngogledd Cymru; chi, rwy'n siŵr, ledled Cymru. Er ein bod yn croesawu'r ffaith y bydd bron i 2,000 mwy o dai ar gyfer pobl hŷn, fel arfer y rhai sy'n hŷn na 55 oed, yn ystod y cyfnod hwnnw, dim ond diferyn yn y môr yw hynny o'i gymharu â'r angen cyffredinol, fel y gwn y byddwch yn ei gydnabod. Yn ystod yr haf, roeddwn yn ddigon ffodus i fod yn agoriad swyddogol datblygiad byw'n annibynnol newydd Cartrefi Conwy, Cysgod y Gogarth, ar gyfer pobl hŷn na 55 oed yn Llandudno, sy'n ganolradd. Mae'n sefyll rhywle rhwng y model traddodiadol a gofal ychwanegol llawn, gan ei fod yn galluogi'r buddsoddiad i fynd ymhellach ac i gyflawni mwy. Cyfarfûm â phreswylwyr yno a oedd wrth eu boddau â'u cartrefi newydd. A ydych chi'n gweld hwnnw yn fodel y gellir ei ddefnyddio hefyd o fewn y ddarpariaeth gymysg i ddarparu mwy o gartrefi gyda'r adnoddau sydd ar gael? Yn yr un modd, rwy'n gwybod bod y ddarpariaeth gofal ychwanegol wedi cynnwys rhent, prynu neu rannu ecwiti, ond rwy'n deall o'r trafodaethau a gefais yn y cyfarfod hwnnw, ei fod yn mynd yn fwy anodd cyflawni'r model hwnnw, ac felly mae angen i ni fod yn ystyried datblygiadau gyda, er enghraifft , McCarthy & Stone neu ddarparwyr eraill y sector preifat o ran yr elfen breifat i alluogi'r bunt gymdeithasol i fynd ymhellach. A ydych chi'n cytuno bod hynny'n rhywbeth y dylem fod yn ei ddilyn?

Your report refers to Supporting People. I've nearly covered all the points I wish to. I know that you—previously, in terms of the campaign that we both attended the launch of and have both spoken of at various events—have said you've asked for evidence of the added value from that scheme. Can you update us on that? Has there been any progress or development? The national partnership forum refers to the need for effective care and support services—services enabling older people to live independently. Your report doesn't make reference to Care and Repair and, in light of the recent reorganisation, I wondered if you could make some comment about the delivery of services by Care and Repair in the context of the report. Finally—. Actually, finally, I think I will conclude because the clock is ticking and I look forward to your responses. Thank you.

Mae eich adroddiad yn cyfeirio at Gefnogi Pobl. Rwyf bron wedi trafod yr holl bwyntiau yr wyf yn dymuno eu trafod. Gwn eich bod chi—yn flaenorol, o ran yr ymgyrch y bu'r ddau ohonom yn y lansiad ar ei gyfer ac y mae'r ddau ohonom wedi siarad amdano mewn digwyddiadau amrywiol—wedi dweud eich bod wedi gofyn am dystiolaeth o'r gwerth ychwanegol o'r cynllun hwnnw. A allwch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am hynny? A fu unrhyw gynnydd neu ddatblygiad? Mae'r fforwm partneriaeth cenedlaethol yn cyfeirio at yr angen am wasanaethau gofal a chymorth effeithiol— gwasanaethau sy'n galluogi pobl hŷn i fyw'n annibynnol. Nid yw eich adroddiad yn cyfeirio at Gofal a Thrwsio ac, yng ngoleuni'r ad-drefnu diweddar, tybed a allech chi wneud unrhyw sylw ynghylch darparu gwasanaethau gan Gofal a Thrwsio yng nghyd-destun yr adroddiad. Yn olaf—. A dweud y gwir, o'r diwedd, rwy'n meddwl y byddaf yn gorffen gan fod y cloc yn prysuro ymlaen, ac edrychaf ymlaen at glywed eich ymatebion. Diolch yn fawr.

16:33

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you. I thank Mark Isherwood for his questions and observations. We'll start with Care and Repair. I think it's very important that we do recognise the significant work that the Care and Repair agencies do. They are responsible for the administration of the rapid response adaptations programme, for instance, which obviously keeps people in their homes. It prevents a lot of delayed transfers of care, and we have given funding in 2015-16 of over £2 million to support their programme. They are, as you say, having some sort of reorganisation. There have been lots of mergers and I think they're going very well. I think it's later this week that I'm speaking at the Care and Repair conference this year, as I did last year.

Diolch yn fawr. Diolchaf i Mark Isherwood am ei gwestiynau a'i sylwadau. Dechreuwn gyda Gofal a Thrwsio. Rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn i ni gydnabod y gwaith sylweddol y mae'r asiantaethau Gofal a Thrwsio yn ei wneud. Nhw sy'n gyfrifol am weinyddu'r rhaglen addasiadau brys, er enghraifft, sydd yn amlwg yn cadw pobl yn eu cartrefi. Mae'n atal llawer o oedi wrth drosglwyddo gofal, ac rydym wedi rhoi dros £2 filiwm o gyllid yn 2015-16 i gefnogi eu rhaglen. Maent, fel y dywedasoch, yn ad-drefnu mewn rhyw ffordd. Bu llawer o uno ac rwy'n meddwl eu bod yn mynd yn dda iawn. Rwy'n credu mai'n ddiweddarach yr wythnos hon y byddaf yn siarad yng nghynhadledd Gofal a Thrwsio eleni, fel y gwneuthum y llynedd.

You've referred to the work that's being done regarding the adaptations and why it's taken so long. It's really important that we get this right. I think the physical adaptation grants do enable tenants to remain in their homes and we're working very closely with registered social landlords too.

Rydych wedi cyfeirio at y gwaith sy'n cael ei wneud o ran yr addasiadau a pham y mae wedi cymryd cyhyd. Mae'n bwysig iawn ein bod yn cael hyn yn iawn. Rwy'n meddwl bod y grantiau addasiadau ffisegol yn galluogi tenantiaid i aros yn eu cartrefi ac rydym yn gweithio'n agos iawn gyda landlordiaid cymdeithasol cofrestredig hefyd.

You asked about the external advisory group or the expert group, which I am considering. I'm currently considering the membership et cetera, but I'm very happy to commit in the Chamber to having such a group. I think, that group, people who work with older people and the older people themselves should be on it. I think it's really important that they help us with this. I think what they will do is give very practicable and deliverable proposals for the Minister who has responsibility for housing, post next year's election.

Fe wnaethoch ofyn am y grŵp cynghori allanol neu'r grŵp arbenigol, yr wyf yn ei ystyried. Ar hyn o bryd rwy'n ystyried yr aelodaeth ac ati, ond rwy'n hapus iawn i ymrwymo yn y Siambr i gael grŵp o'r fath. Rwy'n meddwl y dylai pobl sy'n gweithio gyda phobl hŷn a'r bobl hŷn eu hunain fod yn y grŵp hwnnw. Rwy'n credu ei fod yn bwysig iawn eu bod yn ein helpu gyda hyn. Rwy'n credu y byddant yn rhoi cynigion ymarferol a chyraeddadwy iawn i'r Gweinidog fydd yn gyfrifol am dai, yn dilyn etholiad y flwyddyn nesaf.

I want it to be a very time-limited group—probably six months—and report, then, obviously, in the new year. As I say, I am considering it; I'm looking at the membership and I would want them to bring forward a work programme to me very quickly and I have very firm ideas about that work programme.

Rwyf am iddo fod yn grŵp dros gyfnod penodol iawn—chwe mis yn fwy na thebyg—ac adrodd, wedyn, yn amlwg, yn y flwyddyn newydd. Fel y dywedais, rwyf yn ei ystyried; Rwy'n edrych ar yr aelodaeth a byddwn eisiau iddynt gyflwyno rhaglen waith i mi yn gyflym iawn ac mae gennyf syniadau cadarn iawn am y rhaglen waith honno.

You mentioned extra-care facilities and I do think they are absolutely excellent. It's not for everybody and I accept that; it's just one part of the whole system, if you like. We now have, as I mentioned in my statement, at least one in every local authority area that's been funded by Welsh Government. They are very expensive—I know local authorities are saying that to me—but they are certainly looking at whether they can provide more of those right across Wales.

Soniasoch am y cyfleusterau gofal ychwanegol ac rwy'n meddwl eu bod yn gwbl wych. Nid yw ar gyfer pawb ac rwy'n derbyn hynny; dim ond un rhan o'r system gyfan ydyw, os mynnwch chi. Mae gennym bellach, fel y soniais yn fy natganiad, o leiaf un ym mhob ardal awdurdod lleol sydd wedi cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru. Maent yn ddrud iawn—rwy'n gwybod bod awdurdodau lleol yn dweud hynny wrthyf—ond maent yn sicr yn ystyried pa un a oes modd iddynt ddarparu mwy ohonynt ledled Cymru.

You mentioned fuel poverty and, certainly, I have been working very closely, particularly with my colleague the Minister for Natural Resources, and I know he has recently provided funding in relation to that, but, of course, we accept that fuel poverty is an issue for many people in Wales.

Soniasoch am dlodi tanwydd ac, yn sicr, rwyf wedi bod yn gweithio'n agos iawn, yn enwedig gyda fy nghydweithiwr y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, ac rwy'n gwybod ei fod wedi darparu cyllid yn ddiweddar ynglŷn â hynny, ond, wrth gwrs, rydym yn derbyn bod tlodi tanwydd yn broblem i lawer o bobl yng Nghymru.

You asked about Supporting People and I know that you, like me, are very well aware of the excellent work that the programme does. But it was very important that we have those outcomes, so that we can gain evidence to make sure that the programme is meeting its key strategic objectives, and certainly that work has increased. In the year I've been in portfolio, we are now seeing many more thousands of outcomes and that evidence, so I'm very happy to reassure you that that is being collected.

Fe wnaethoch ofyn am Gefnogi Pobl, a gwn eich bod chi, fel minnau, yn ymwybodol iawn o'r gwaith rhagorol y mae'r rhaglen yn ei wneud. Ond roedd yn bwysig iawn ein bod yn cael y canlyniadau hynny, fel y gallwn gael tystiolaeth i sicrhau bod y rhaglen yn bodloni'r amcanion strategol allweddol, ac yn sicr mae'r gwaith hwnnw wedi cynyddu. Yn ystod y flwyddyn yr wyf wedi bod yn gyfrifol am y portffolio hwn, rydym bellach yn gweld miloedd mwy o ganlyniadau, a'r dystiolaeth honno, felly rwy'n hapus iawn o'ch sicrhau bod y dystiolaeth honno'n cael ei chasglu.

16:36

## Lindsay Whittle Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

As a former housing professional for 25 years, in a previous existence, I do know the importance of good, safe, warm housing for the elderly. We know, Minister, that many are prepared to move, but others, rightly so, want to stay, not only in their community, but in the family home that has so many fond memories, where they know their neighbours. It's not true for all, with our transient population, but in Wales, we prefer to belong, don't we, and I think that's very important.

Roeddwn, mewn bywyd blaenorol, yn weithiwr proffesiynol ym maes tai am 25 mlynedd, ac felly rwy'n gwybod pa mor bwysig yw tai da, diogel a chynnes i'r henoed. Rydym yn gwybod, Weinidog, fod llawer yn fodlon symud, ond bod eraill, ac mae hynny'n briodol, eisiau aros, nid yn unig yn eu cymuned, ond yn y cartref teuluol sydd â chymaint o atgofion melys, lle y maent yn adnabod eu cymdogion. Nid yw'n wir i bawb, gyda'n poblogaeth nad yw'n byw yn yr un man yn barhaol, ond yng Nghymru, mae'n well gennym deimlo ein bod yn perthyn, onid yw, ac rwy'n credu bod hynny'n bwysig iawn.

I've got lots of questions here, but I think Mark Isherwood probably took longer in asking his questions than you did in delivering your statement, so I can cross a lot of them off—thank you, Mark; it's not a criticism, by the way. But, a serious and growing problem is that of loneliness among older people; are you planning to address this as part of your strategy of making Wales a great place to grow old? And, what consideration will you give to the loneliness and isolation of older people as part of your housing strategy, and perhaps particularly focusing on preventing this in the long term, before it happens, and in terms of intervention, please?

Mae gennyf lawer o gwestiynau yma, ond rwy'n credu bod Mark Isherwood, yn ôl pob tebyg wedi cymryd hwy o amser i holi ei gwestiynau nag y gwnaethoch chi wrth gyflwyno eich datganiad, felly gallaf ddileu llawer ohonynt —diolch, Mark; nid yw'n feirniadaeth, gyda llaw. Ond, mae unigrwydd ymhlith pobl hŷn yn broblem ddifrifol a chynyddol; a ydych chi'n bwriadu rhoi sylw i'r rhan hon o'ch strategaeth o wneud Cymru yn lle gwych i heneiddio ynddo? A, sut y byddwch yn ystyried unigrwydd ac ynysu pobl hŷn yn rhan o'ch strategaeth dai, gan efallai ganolbwyntio'n arbennig ar atal hyn yn y tymor hir, cyn iddo ddigwydd, ac o ran ymyrraeth, os gwelwch yn dda?

Linked to the suitability of housing, we know, Minister, that there have been concerns expressed by the Commissioner for Older People in Wales about local authorities meeting their statutory requirements in processing the disabled facilities grants, to enable older people to have aids and adaptations to their homes. Mark covered it, you answered it, but your statement says you're looking at ways of improving; could you tell us how, because you clearly recognise there is a problem? Again, no mention of fuel poverty in the statement, but can we be assured that your group will examine housing quality, please, which should include—and it's not the responsibility of other Ministers, really—energy efficiency? I think that's very important. I just wanted to ask other questions, but I think they've been covered. Will you ask your expert group to address those issues, please? Thank you.

Yn gysylltiedig ag addasrwydd tai, rydym yn gwybod, Weinidog, bod pryderon wedi eu mynegi gan y Comisiynydd Pobl Hŷn yng Nghymru ynghylch awdurdodau lleol yn cyflawni eu gofynion statudol wrth brosesu'r grantiau cyfleusterau i'r anabl, i alluogi pobl hŷn i gael cymhorthion ac addasiadau i'w cartrefi. Soniodd Mark am hyn, rhoesoch chithau ateb iddo, ond mae eich datganiad yn dweud eich bod yn edrych ar ffyrdd o wella; a allech chi ddweud wrthym ym mha ffordd, oherwydd eich bod yn amlwg yn cydnabod bod problem? Unwaith eto, nid oes sôn am dlodi tanwydd yn y datganiad, ond a allwn ni gael sicrwydd y bydd eich grŵp yn archwilio ansawdd tai, os gwelwch yn dda, a ddylai gynnwys—ac nid cyfrifoldeb y Gweinidogion eraill yw hyn, mewn gwirionedd—effeithlonrwydd ynni? Rwy'n credu bod hynny'n bwysig iawn. Roeddwn eisiau gofyn cwestiynau eraill, ond rwy'n credu eu bod wedi eu trafod eisoes. A wnewch chi ofyn i'ch grŵp arbenigol roi sylw i'r materion hynny, os gwelwch yn dda? Diolch yn fawr.

16:39

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank Lindsay Whittle for his questions. Yes, certainly—starting with the last one—energy efficiency is something we can get the group to look at. What I was saying was that I was working with, obviously, the Minister for Natural Resources, but standards are very important. Everybody should live in a decent home, not just older people, and I think the Welsh Government is ensuring that that happens. But, we need to look particularly at people who are vulnerable and poor.

Diolchaf i Lindsay Whittle am ei gwestiynau. Gwnaf, yn sicr—gan ddechrau gyda'r un olaf—mae effeithlonrwydd ynni yn rhywbeth y gallwn gael y grŵp i edrych arno. Yr hyn yr oeddwn yn ei ddweud oedd fy mod yn gweithio gyda, yn amlwg, y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, ond mae safonau yn bwysig iawn. Dylai pawb fyw mewn cartref boddhaol, nid yn unig pobl hŷn, ac rwy'n credu bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod hynny'n digwydd. Ond, mae angen inni edrych yn enwedig ar bobl sy'n agored i niwed a phobl sy'n dlawd.

You mentioned loneliness and I think that's a really important issue to raise. I think extra-care facilities is one way that you can definitely see how that feeling of isolation can be taken away, really, by people who live in these facilities. I visited one—I think it was in Torfaen—over the summer, and not only had an extra-care facility been built, but across the road, there had been about 40 units of housing, some were one-bedroomed and some were two-bedroomed, and the people who lived in those properties could also use, for instance, the restaurant in the extra-care facility. I thought that was an excellent way of drawing in people and having, as you say, that sense of belonging.

Soniasoch am unigrwydd ac rwy'n credu bod hwnnw'n fater pwysig iawn i'w godi. Rwy'n credu bod cyfleusterau gofal ychwanegol yn un ffordd y gallwch weld yn bendant sut y gall pobl sy'n byw yn y cyfleusterau hyn gael gwared ar y teimlad hwn o fod wedi eu hynysu. Ymwelais ag un—yn Nhorfaen rwy'n credu—yn ystod yr haf, ac roedd cyfleuster gofal ychwanegol wedi ei adeiladu, ond, ar yr ochr arall i'r ffordd, roedd oddeutu 40 o unedau tai wedi'u hadeiladu hefyd, rhai ag un ystafell wely a rhai â dwy ystafell wely, ac roedd y bobl a oedd yn byw yn y tai hynny, hefyd yn cael defnyddio, er enghraifft, y tŷ bwyta yn y cyfleuster gofal ychwanegol. Roeddwn i'n meddwl bod honno'n ffordd ardderchog o ddenu pobl a chael, fel y dywedasoch, yr ymdeimlad hwnnw o berthyn.

I think we need to look at a variety of measures, and extra-care facilities are one, retirement villages are another, as are co-housing models. I think they're all part of the overall solution. There isn't one particular thing. I think we need to look at all these types, but I think, also, we need to learn from the experience of those people who live in those facilities and, certainly, when I do visit them, I take the opportunity to talk to them to see, you know, what they think. I mean, one lady in Torfaen had discovered she was very good at art, for instance, because there was an art class. She was in her 70s and had never done art before, but discovered she was really good, which I thought was, you know, an added bonus of living in such a facility.

Rwy'n credu bod angen inni edrych ar amrywiaeth o fesurau, ac mae cyfleusterau gofal ychwanegol yn un ohonynt, mae pentrefi ymddeol a modelau cyd-drigo yn rai eraill. Rwy'n credu eu bod i gyd yn rhan o'r ateb cyffredinol. Nid oes un peth arbennig. Rwy'n credu bod angen inni edrych ar y mathau hyn i gyd, ond rwy'n credu, hefyd, bod angen inni ddysgu o brofiad y bobl hynny sy'n byw yn y cyfleusterau hynny ac, yn sicr, pan fyddaf i'n ymweld â nhw, byddaf yn achub ar y cyfle i siarad â nhw i weld, wyddoch chi, beth yw eu barn. Wyddoch chi, roedd un wraig yn Nhorfaen wedi darganfod ei bod yn dda iawn am wneud celf, er enghraifft, oherwydd bod dosbarth celf ar gael. Roedd hi yn ei 70au ac erioed wedi gwneud celf o'r blaen, ond fe wnaeth hi ddarganfod ei bod yn dda iawn, a meddyliais, wyddoch chi, fod hynny'n fantais ychwanegol o fyw mewn cyfleuster o'r fath.

You asked about the expert group, and I've said that I'm very happy for them to look at energy efficiency. I think that's all the questions.

Fe wnaethoch ofyn am y grŵp arbenigol, ac rwyf wedi dweud fy mod i'n hapus iawn iddynt edrych ar effeithlonrwydd ynni. Dyna'r holl gwestiynau, rwy'n credu.

16:41

## Mike Hedges Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Can I also welcome the Minister's statement? During the last month, I have visited coffee mornings or group get-togethers in 11 of the 12 council sheltered accommodations in Swansea East, and I am visiting the twelfth next Monday. I'm going to, perhaps, carry on from where Lindsay Whittle left off, because it is undoubtedly true that these sheltered complexes keep people in their own homes longer. They provide, probably, the most important thing for older people living alone: companionship. According to the TNS loneliness omnibus survey for Age UK in April 2014, 75,000 over-65s in Wales described themselves as 'always' or 'often' lonely. Forty-six per cent, which was almost half, say that their tv or pet is their main form of company. I find this very sad.

A gaf innau hefyd groesawu datganiad y Gweinidog? Yn ystod y mis diwethaf, rwyf wedi ymweld â boreau coffi neu gyfarfodydd grŵp yn 11 o'r 12 llety gwarchod y cyngor yn Nwyrain Abertawe, ac rwy'n ymweld â'r deuddegfed ddydd Llun nesaf. Rwy'n mynd i, efallai, barhau o ble wnaeth Lindsay Whittle orffen, gan ei bod yn ddiau'n wir bod y canolfannau gwarchod hyn yn cadw pobl yn eu cartrefi eu hunain yn hirach. Maent yn darparu, yn ôl pob tebyg, y peth pwysicaf i bobl hŷn sy'n byw ar eu pennau eu hunain: cwmnïaeth. Yn ôl arolwg omnibws unigrwydd TNS ar gyfer Age UK a gynhaliwyd ym mis Ebrill 2014, disgrifiodd 75,000 o bobl hŷn na 65 oed yng Nghymru eu hunain fel bod yn unig naill ai 'bob amser' neu 'yn aml'. Mae pedwar deg chwech y cant, sef bron eu hanner, yn dweud mai eu teledu neu eu hanifail anwes yw eu prif ffurf o gwmni. Rwy'n credu bod hyn yn drist iawn.

The demand for council sheltered accommodation is high in Swansea East, and I assume it’s high across the rest of Wales as well. We have seen an almost complete end to councils building accommodation since 1979. Does the Minister agree with me that councils building sheltered accommodation will reduce pressure on health and social services as well as providing an improved service to many older people? Will the Minister support and encourage councils to build new sheltered complexes?

Mae'r galw am lety gwarchod y cyngor yn uchel yn Nwyrain Abertawe, ac rwy’n cymryd yn ganiataol ei fod yn uchel ledled gweddill Cymru hefyd. Rydym wedi gweld bod adeiladu llety gan awdurdodau lleol mwy neu lai wedi dod i ben ers 1979. A yw'r Gweinidog yn cytuno â mi y bydd llety gwarchod mewn adeiladau cynghorau yn lleihau'r pwysau ar adrannau iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol yn ogystal â darparu gwell gwasanaeth i lawer o bobl hŷn? A wnaiff y Gweinidog gefnogi ac annog cynghorau i adeiladu cyfadeiladau gwarchod newydd?

16:42

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Yes, certainly, sheltered accommodation can provide the services that you just mentioned. Obviously, it’s up to local authorities to do an assessment of the housing needs of their population, but I’d be very happy to have that conversation. Just following on from what you were saying about loneliness—and Lindsay Whittle, too—I think it is really important that the infrastructure’s there to help people stay active and engaged in their communities, so I think you have to look at how people shop, for instance, and how they socialise to make sure that they still have access to that.

Gwnaf, yn sicr, gall llety gwarchod ddarparu'r gwasanaethau yr ydych newydd eu crybwyll. Yn amlwg, penderfyniad awdurdodau lleol yw gwneud asesiad o anghenion tai eu poblogaeth, ond byddwn yn hapus iawn i gael y sgwrs honno. I barhau â’r hyn yr oeddech yn ei ddweud am unigrwydd—a Lindsay Whittle, hefyd—credaf ei bod yn bwysig iawn bod y seilwaith yno i helpu pobl i barhau i fod yn egnïol ac yn brysur yn eu cymunedau, felly rwy'n credu bod yn rhaid i chi edrych ar sut y mae pobl yn siopa, er enghraifft, a sut y maent yn cymdeithasu i sicrhau eu bod yn dal i gael y cyfle i wneud hynny.

But, what I was saying to Lindsay Whittle is it’s not just about one type of housing; it’s about making sure you’ve got, I suppose, the right kind of housing in the right place, if you like. But I think it’s very important that we look at the surrounding environment to make sure that’s age friendly too.

Ond, yr hyn yr oeddwn yn ei ddweud wrth Lindsay Whittle yw nad yw hyn ond yn ymwneud ag un math o dai; mae'n ymwneud â sicrhau bod gennych, mae’n debyg, y math iawn o dai yn y lle iawn, os mynnwch. Ond rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn ein bod yn edrych ar yr amgylchedd o amgylch y tai i sicrhau bod hwnnw'n addas i oedran hefyd.

16:43

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Can I also welcome the statement, Minister, and also express my surprise that, having set out so comprehensively the issues facing the housing of older people in Wales, you then go on to say that you’re still considering whether you should establish an expert group to advise you on this? I would have hoped that you could have come to a more definitive statement than that, but can you give us an indication of the timescale by which this decision will be taken and when can we expect a further statement on the setting up of this expert group, so that we know, or not, as the case may be, your direction of travel in that particular regard?

A gaf innau hefyd groesawu'r datganiad, Weinidog, a hefyd fynegi fy syndod eich bod, ar ôl nodi mewn modd cynhwysfawr y materion sy'n wynebu darparu tai ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru, yn mynd ymlaen i ddweud wedyn eich bod yn dal i ystyried pa un a ddylech sefydlu grŵp arbenigol i roi cyngor i chi am hyn? Byddwn wedi gobeithio y gallech fod wedi dod i ddatganiad mwy pendant na hynny, ond a allwch chi roi syniad o'r amserlen ar gyfer gwneud y penderfyniad hwn a phryd y gallwn ddisgwyl datganiad pellach ar sefydlu'r grŵp arbenigol hwn, er mwyn inni wybod, neu beidio, yn ôl y digwydd, yr hyn sydd yn eich meddwl o ran y mater arbennig hwnnw?

I was very interested in the report that you allude to in the statement from the national partnership forum and am very keen to look at the recommendations that are in there, most of which are not new, I think, as has been pointed out. This report was published in March of this year, which is now about six months ago, in terms of that. Of course, a lot of the recommendations in here have appeared in committee reports in the past and of course in reports by one of its authors, Chris Jones, as well, who I think has produced reports for Government Ministers in the past. So, I am interested therefore in what progress is being made in terms of the recommendations in this report, particularly in terms of ensuring that all social landlords operate appropriate accessible housing allocation schemes that ensure that accessible and adapted housing is let to those most in need. In other words, are we actually re-letting adapted housing to people who need it?

Roedd diddordeb mawr gennyf yn yr adroddiad yr ydych yn cyfeirio ato yn y datganiad gan y fforwm partneriaeth cenedlaethol ac rwy’n awyddus iawn i edrych ar yr argymhellion sydd ynddo, y rhan fwyaf ohonynt heb fod yn newydd, rwy’n meddwl, fel y nodwyd. Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn ym mis Mawrth eleni, sydd bellach oddeutu chwe mis yn ôl, o ran hynny. Wrth gwrs, mae llawer o'r argymhellion yn yr adroddiad wedi ymddangos mewn adroddiadau pwyllgorau yn y gorffennol ac, wrth gwrs, mewn adroddiadau gan un o'i awduron, Chris Jones, hefyd, sydd wedi, rwy’n credu, llunio adroddiadau ar gyfer Gweinidogion y Llywodraeth yn y gorffennol. Mae diddordeb gennyf, felly, yn y cynnydd sy'n cael ei wneud o ran yr argymhellion sydd yn yr adroddiad hwn, yn enwedig o ran sicrhau bod pob landlord cymdeithasol yn gweithredu cynlluniau dyrannu tai sy’n sicrhau bod tai addas a hygyrch yn cael eu gosod i'r rhai sydd fwyaf mewn angen. Mewn geiriau eraill, a ydym ni, mewn gwirionedd, yn ailosod tai a addaswyd i'r bobl sydd eu hangen?

Also, on the recommendation about the smarter use of grant funding to facilitate a move to more suitable, accessible housing that can be easily adapted, I think that's common sense and I know that some local authorities have been looking at it for some time. Have you given any guidance to those local authorities about how they should be doing this, and what feedback have you had from local authorities as to how they've been able to do this particular thing in terms of making sure that we make the best use of those resources that have already been expended on adapting homes?

Hefyd, ar yr argymhelliad i ddefnyddio arian grant yn gallach i hwyluso symud i dai mwy addas a hygyrch y gellir eu haddasu'n rhwydd, rwy'n credu mai synnwyr cyffredin yw hynny a gwn fod rhai awdurdodau lleol wedi bod yn edrych ar hyn ers peth amser. A ydych chi wedi rhoi unrhyw ganllawiau i'r awdurdodau lleol hynny ar sut y dylent fod yn gwneud hyn, a pha sylwadau ydych chi wedi'u cael gan awdurdodau lleol o ran sut y maent wedi bod yn gallu gwneud y peth penodol hwn o ran sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau hynny sydd eisoes wedi'u gwario ar addasu cartrefi?

I'm also interested in the idea of targeting empty homes grant funding in ways that would locally increase the supply of housing suitable for older people. I think that that, actually, is a new recommendation, but, certainly, given the funding that is available for empty homes, I'm also interested in how you will be making use of that—and I think we've most probably creamed off the easy to deal with empty homes now in terms of bringing them back into use—and how we make use of the funding that you do have available to ensure that those empty homes that are available, and I think we must have at least 20,000 left, can be brought back into use for affordable housing and for adapted housing to deliver the sort of supply that is much in demand, as set out in your statement. Thank you, Minister.

Mae gennyf ddiddordeb hefyd yn y syniad o dargedu arian grant ar gyfer cartrefi gwag mewn ffyrdd a fyddai'n cynyddu cyflenwad y tai addas ar gyfer pobl hŷn yn lleol. Credaf fod hynny, mewn gwirionedd, yn argymhelliad newydd, ond, yn sicr, o ystyried y cyllid sydd ar gael ar gyfer cartrefi gwag, mae gennyf ddiddordeb hefyd yn y ffordd y byddwch yn defnyddio hynny—ac erbyn hyn rwy'n credu ein bod, yn ôl pob tebyg, wedi canfod y cartrefi gwag hawdd i ymdrin â hwy o ran eu hadnewyddu i'w defnyddio eto—a sut yr ydym yn defnyddio'r arian sydd gennych ar gael i sicrhau y gall y cartrefi gwag hynny sydd ar gael, ac rwy'n credu bod yn dal i fod o leiaf 20,000 ar ôl, gael eu defnyddio eto ar gyfer tai fforddiadwy ac ar gyfer tai wedi'u haddasu i ddarparu'r math o gyflenwad sydd â galw mawr amdano, fel y nodir yn eich datganiad. Diolch yn fawr, Weinidog.

16:46

## Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Peter Black. I'm not sure if the Member heard my answer to Mark Isherwood, but I did commit to setting up an expert group. So, whilst I've been considering it over the summer, having received this report from my colleague, the Minister for Health and Social Services, I have committed to doing that. What I would consider is that it will be a time-limited period only, so somewhere between six months and maybe a year at the very most, but I would want, as soon as we can—. I'm considering the membership now. I think it's really important to look at the membership and make sure that there are older people themselves on the group, local authorities, registered landlords, for instance, and housing associations. So, I think it's really important to get that membership right.

Diolch i chi, Peter Black. Nid wyf yn siŵr os clywodd yr Aelod fy ateb i Mark Isherwood, ond fe wnes i ymrwymo i sefydlu grŵp arbenigol. Felly, er fy mod i wedi bod yn ei ystyried dros yr haf, wedi derbyn yr adroddiad hwn gan fy nghydweithiwr, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, rwyf wedi ymrwymo i wneud hynny. Yr hyn y byddwn yn ei ystyried yw y bydd ar gyfer cyfnod penodol yn unig, felly rhywle rhwng chwe mis ac efallai blwyddyn ar y mwyaf un, ond byddwn eisiau, cyn gynted ag y gallwn—. Rwy'n ystyried yr aelodaeth nawr. Rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn edrych ar yr aelodaeth a sicrhau bod pobl hŷn yn y grŵp, awdurdodau lleol, landlordiaid cofrestredig, er enghraifft, a chymdeithasau tai. Felly, rwy'n credu ei bod yn bwysig i gael yr aelodaeth honno'n iawn.

I would want the group to bring forward a work programme pretty quickly. I have some ideas about what I would want to see, and I'm sure they will too. They will obviously need to examine the report very closely, very carefully. I should say also that I had commissioned, when I first came into post—probably about October of last year—some research from the Public Policy Institute for Wales to look into this issue specifically, and I'm expecting that report also later this month. So, I'm sure that will help the group with their work programme.

Byddwn eisiau i'r grŵp gyflwyno rhaglen waith yn eithaf cyflym. Mae gennyf rai syniadau am yr hyn y byddwn eisiau ei weld, ac rwy'n siŵr y bydd syniadau ganddynt hwythau hefyd. Mae'n amlwg y bydd angen iddynt archwilio'r adroddiad yn agos iawn, yn ofalus iawn. Dylwn ddweud hefyd imi gomisiynu, pan ddechreuais yn y swydd—tua mis Hydref y llynedd, mae'n debyg—rhywfaint o ymchwil gan Sefydliad Polisi Cyhoeddus Cymru i ymchwilio i'r mater hwn yn benodol, ac rwy'n disgwyl yr adroddiad hwnnw hefyd yn ddiweddarach y mis hwn. Felly, rwy'n siŵr y bydd hynny'n helpu'r grŵp gyda'u rhaglen waith.

The issue you raised about adaptation of housing I think is very important. Certainly, the conversations I've had with local authorities are that it's really important that they don't just work within their own area—that, if there is a house across the border in another local authority that could be suitable without further adaptations, then that should be viewed, and maybe they should look at some sort of register to be able to do that.

Rwy'n credu bod y mater a godwyd gennych ynghylch addasu tai yn bwysig iawn. Yn sicr, mae'r sgyrsiau yr wyf wedi eu cael gydag awdurdodau lleol ynglŷn â'r ffaith ei bod yn bwysig iawn nad ydynt ond yn gweithio yn eu hardaloedd eu hunain—sef os oes tŷ dros y ffin mewn awdurdod lleol arall a allai fod yn addas heb wneud mwy o addasiadau, yna, dylid edrych ar hynny, ac efallai y dylent ystyried cael rhyw fath o gofrestr er mwyn gallu gwneud hynny.

In relation to the Houses into Homes scheme, you're probably aware that we've brought nearly 4,500 properties back into use since the first year of this Government, back in 2011. So, we're well on track to exceeding our target of returning 5,000. That's obviously our target to the end of this year. Whether there'll be further money available to support—. As you say, we do know, obviously, there aren't just 5,000 empty properties in Wales, there are many, many more, but it obviously is an issue around funding.

O ran y cynllun Troi Tai'n Gartrefi, mae'n debyg eich bod yn ymwybodol ein bod wedi adnewyddu bron i 4,500 o dai i'w defnyddio eto ers blwyddyn gyntaf y Llywodraeth hon, yn ôl yn 2011. Felly, rydym ar y trywydd iawn i ragori ar ein targed o adnewyddu 5,000 i'w defnyddio unwaith eto. Ein targed hyd at ddiwedd eleni yw hwnnw, yn amlwg. Pa un a fydd mwy o arian ar gael i gefnogi—. Fel y dywedasoch, rydym yn gwybod, yn amlwg, nad dim ond 5,000 o dai gwag sydd yng Nghymru, mae llawer, llawer mwy, ond mae'n amlwg mai mater sy'n ymwneud â chyllid yw hyn.

16:48

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister. That concludes today's business.

Diolch yn fawr, Weinidog. Dyna ddiwedd busnes heddiw.

*Daeth y cyfarfod i ben am 16:48.*

*The meeting ended at 16:48.*